# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD MAWRTH<br>29 TACHWEDD 2022<br>10.00 o'r gloch** | | **TUESDAY<br>29 NOVEMBER 2022<br>10.00 am** |
| **CYFARFOD HYBRID – YN SIAMBR Y CYNGOR AC YN RHITHWIR** | | **HYBRID MEETING – VIRTUAL AND IN THE COUNCIL CHAMBER** |
| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes<br>01248 752518** | Committee Officer |

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/The Party of Wales**

Carwyn E Jones, Llinos Medi, Alun W Mummery, Gary Pritchard, Alun Roberts, Nicola Roberts, Robin Wyn Williams

**Y Grŵp Annibynnol/The Independent Group**

Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdudrod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod***

**R H A G L E N**

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2** **MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG PENODEDIG**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

**3** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 25 Hydref 2022.

**4** **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 7 - 20)

Cyflwyno adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro).

**5** **ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 2 (2022/23)** (Tudalennau 21 - 34)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid.

**6** **ADOLYGIAD RHEOLI TRYSORLYS BLYNYDDOL AR GYFER 2021/22** (Tudalennau 35 - 50)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**7** **MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW - CHWARTER 2, 2022/23** (Tudalennau 51 - 76)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**8** **MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF - CHWARTER 2, 2022/23** (Tudalennau 77 - 92)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**9** **MONITRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI CHWARTER 2, 2022/23** (Tudalennau 93 - 102)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran

151.

10 **SYLFAEN Y DRETH GYNGOR AR GYFER 2023/24** (Tudalennau 103 - 110)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

11 **Y POLISI GOSOD AR GYFER TAI CYMDEITHASOL** (Tudalennau 111 - 116)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

12 **GRANT CYFLEUSTERAU I'R ANABL – NEWID MEWN POLISI** (Tudalennau 117 - 122)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 25 Hydref, 2022

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Carwyn Jones (Is-gadeirydd) (Yn y Gadair)<br><br>Y Cynghorwyr Alun Mummery, Gary Pritchard, Alun Roberts, Nicola Roberts, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Robin Williams |
| **WRTH LAW:** | Dirprwy Brif Weithredwr/Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br>Rheolwr Adfywio (Datblygu Economaidd a Rheoleiddio)<br>Rheolwr Datblygu Economaidd (THJ)<br>Rheolwr Rhaglenni, Cynllunio Busnes a Pherfformiad Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br>Swyddog Polisi (RWJ)<br>Swyddog Pwyllgorau (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Llinos Medi (Arweinydd), Mr Dylan Williams (Prif Weithredwr), Mrs Carys Edwards (Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Glyn Haynes, Trefor Lloyd Hughes, MBE, Derek Owen, Dylan Rees, Dafydd Roberts, Ken Taylor, Arfon Wyn |

DRAFT

### 1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

### 2. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG

Dim i'w hadrodd.

### 3. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 27 Medi, 2022 i'w cadarnhau.

**Penderfynwyd cadarnhau fod cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 27 Medi 2022 yn gywir.**

## 4. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro a oedd yn cynnwys Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod Tachwedd, 2022 i Fehefin, 2023 i'w gadarnhau.

Rhoddodd y Swyddog Polisi ddiweddariad i'r Pwyllgor Gwaith ar yr eitemau newydd ar y Rhaglen Waith a'u cynghori bod Eitem 7 - Rhenti Tai'r CRT a Thaliadau'r Gwasanaeth Tai 2023/24 - wedi ei ddwyn ymlaen o Chwefror, 2023 i Dachwedd, 2022 er mwyn penderfynu ar yr eitem ynghynt. Hefyd, ers i'r Rhaglen Waith gael ei chyhoeddi mae'r Gwasanaeth Tai wedi gwneud cais i gyflwyno eitem ar addasu'r polisi ar ddyrannu tai dros dro yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwaith ym mis Tachwedd, 2022.

**Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi ei diweddaru am y cyfnod Tachwedd 2022 i Fehefin 2023, gyda'r newid y cyfeiriwyd ato yn y cyfarfod.**

## 5. ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2021/22

Cyflwynwyd yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer 2021/22 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith. Roedd yr adroddiad yn dadansoddi perfformiad y Cyngor yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22 yn erbyn y gwelliannau a'r blaenoriaethau a osodwyd ganddo.

Wrth gyflwyno'r adroddiad dywedodd y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmer bod yr adroddiad yn rhoi trosolwg o weithgareddau'r Cyngor yn ystod 2021/22 a'i fod yn nodi'r hyn a wnaeth yn ystod y flwyddyn yn erbyn yr hyn a nodwyd yn y Ddogfen Gyflawni Flynyddol. Mae hefyd yn adrodd ar yr hyn y mae'r Cyngor wedi'i gyflawni hyd at ddiwedd mis Awst yn erbyn unrhyw waith arfaethedig ar y Cynllun Trosiannol ar gyfer 2022-23. Mae'r uchafbwyntiau ar dudalen 3 yn yr adroddiad yn dangos bod 73% o'r camau yn erbyn y Cynllun Trosiannol ar amser neu wedi'u cwblhau ynghyd â lefel gyflawni o 96% yn erbyn y Ddogfen Gyflawni Flynyddol. Mae perfformiad yn erbyn y dangosyddion perfformiad o un flwyddyn i'r llall hefyd wedi gwella. Fe wnaeth y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol hefyd graffu ar yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn ei gyfarfod ar 19 Hydref, 2022 a derbyniwyd ei fod yn adlewyrchiad teg o waith yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a bydd yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan y Cyngor Llawn ar 27 Hydref, 2022.

**Penderfynwyd cytuno cynnwys yr Adroddiad Perfformiad 2021/22 fel adlewyrchiad teg a chyflawn o waith yr Awdurdod dros y cyfnod hynny ac argymell i'r Cyngor Sir yn ei gyfarfod ar 27 Hydref, 2022 y dylid ei fabwysiadu.**

## 6. CYNLLUN GWEITHREDU ÔL-AROLWG

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Dysgu, Sgiliau a Phobol Ifanc a oedd yn cynnwys adroddiad ar arolwg Estyn o Wasanaethau Dysgu Cyngor Sir Ynys Môn ynghyd â Chynllun Gweithredu Ôl-Arolwg yr Awdurdod i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Ieuan Williams, Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg a roddodd rhywfaint o gefndir i'r meysydd a arolygwyd gan Estyn yn ystod yr arolwg o'r Gwasanaeth Dysgu ym mis Mehefin, 2022. Mae'r adroddiad yn gadarnhaol a nodwyd bod ansawdd ac effeithiolrwydd cadarn arweinwyr y Gwasanaeth Dysgu yn cyfrannu'n effeithiol iawn tuag at sicrhau gwasanaethau addysg o safon uchel. Cafodd dau faes eu hadnabod fel meysydd o ymarfer da yn ystod yr arolwg a bydd yr astudiaethau achos sy'n cael eu paratoi gan y Gwasanaeth Dysgu ar hyn o bryd yn seiliedig ar y meysydd hyn. Cafodd dau faes eu nodi fel meysydd lle'r oedd angen gwella, mewn perthynas â chryfhau prosesau ar gyfer gwerthuso effaith gwaith y Gwasanaeth Dysgu a datblygu a chryfhau trefniadau craffu ffurfiol. Er nad yn ofyn statudol, mae'r argymhellion o'r adroddiad

wedi cael eu coladu i mewn i Gynllun Gweithredu Ôl-Arolwg a fydd yn cael ei fonitro mewn adroddiadau rheolaidd fel yr amlinellir yn yr adroddiad.

Rhannodd y Cyfarwyddwr Dysgu, Sgiliau a Phobl ifanc ei farn broffesiynol ar yr adroddiad gan ddweud bod yr adroddiad yn glod i'r Gwasanaeth Dysgu.
Adroddodd y Cynghorydd Dylan Rees, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio bod y Pwyllgor wedi ystyried yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 18 Hydref, 2022 a'i fod yn croesawu'r canfyddiadau ac yn derbyn bod y Cynllun Gweithredu Ôl-Arolwg yn gynhwysfawr a bod y trefniadau craffu arfaethedig yn effeithiol.

Fe wnaeth y Pwyllgor Gwaith ddiolch yn unfrydol i holl staff y Gwasanaeth Dysgu yn cynnwys staff ysgolion a staff canolog am eu gwaith a'u hymdrech a chanmol y cynnydd a wnaed dros y blynyddoedd diwethaf i sicrhau llwyddiant a rhagoriaeth o fewn y Gwasanaeth.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu Ôl-Arolwg, a bod y Pwyllgor Gwaith yn cymryd sicrwydd bod y cynllun yma yn ymateb i argymhellion yr arolwg Estyn mewn modd rhesymol ac amserol.**

## 7. RHAGLEN ARFOR 2

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd) a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor Gwaith gytuno i ymuno â'r Rhaglen Arfor 2.

Wrth gyflwyno'r adroddiad rhoddodd y Cynghorydd Carwyn Jones, Aelod Portffolio Datblygu Economaidd, Hamdden a Thwristiaeth grynodeb o'r Rhaglen Arfor 1 a oedd yn weithredol rhwng 2019 a 2020 sef cynllun gwerth £2m a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru i beilota gwahanol ddulliau a phrosiectau i hybu mentergarwch, twf busnes, gwydnwch cymunedol a'r Gymraeg ym mhedair sir y rhaglen Arfor sef Gwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin. Roedd yr adroddiad yn nodi'r allbynnau ar gyfer Ynys Môn lle dyrannwyd 75 o grantiau i gefnogi busnesau a busnesau newydd, swyddi, cynnyrch a gwasanaethau. Roedd hefyd yn cyfeirio at y rhaglen werthuso a gadarnhaodd bod y rhaglen, er gwaetha'r gyllideb cymharol fach ac effaith y pandemig, wedi gwneud gwahaniaeth ac wedi sefydlu arfer o gydweithio rhwng y pedair sir.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi £11m o gyllid pellach i gyflawni ail wedd y Rhaglen Arfor hyd at fis Mawrth, 2025 i gryfhau gwydnwch economaidd a ffyniant yn y pedair sir sy'n gadarnleoedd y Gymraeg a thrwy hynny gynyddu cyfleoedd i weld a defnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd.

Adroddodd y Rheolwr Adfywio a Datblygu Economaidd bod mwy o gyllid ar gael ar gyfer Arfor 2 a bod disgwyl i Ynys Môn dderbyn £1.125m. Cyfeiriodd at elfennau arfaethedig y rhaglen Arfor 2 fel y nodwyd yn adran 4 yn yr adroddiad ac mewn perthynas â rheoli'r rhaglen cadarnhaodd bod Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin wedi datgan dymuniad i Gyngor Gwynedd barhau i gydlynu ac arwain y rhaglen ar ran y pedair sir. Mae Bwrdd Arfor, sy'n cynnwys Arweinwyr y pedair sir, wedi cyflwyno Cynnig Amlinellol ar gyfer ail wedd y rhaglen i Lywodraeth Cymru sydd ar gael yn Atodiad 1 yn yr adroddiad. Bydd dogfen i hyrwyddo Arfor 2 yn amlygu'r llwyddiannau yn ystod y wedd gyntaf.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Dylan Rees, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio bod y Pwyllgor wedi cefnogi'r rhaglen yn ei gyfarfod ar 18 Hydref, 2022 a'i fod yn gwerthfawrogi cyfraniad yr Aelod Portffolio a'r eglurhad a roddodd o'r modd y mae busnesau lleol wedi elwa o'r wedd gyntaf. Roedd y Pwyllgor o'r farn y byddai'n fuddiol monitro'r ail wedd i weld pa wahaniaeth y mae'n ei wneud yn enwedig mewn perthynas â chreu cyfleoedd i bobl ifanc aros neu ddychwelyd i gymunedau ar yr Ynys.

Roedd y Pwyllgor Gwaith yn croesawu'r buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ail wedd y rhaglen Arfor a chytunwyd y byddai'n fuddiol monitro sut y mae'r rhaglen, drwy'r prosiect Llwyddo'n Lleol 2050, yn galluogi pobl ifanc i aros yn eu cymunedau ar Ynys Môn Dylid canolbwyntio hefyd ar gyhoeddusrwydd fel bod cymaint o fusnesau â phosibl yn gallu manteisio ar y rhaglen.

**Penderfynwyd -**

- **Cytuno y bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn gweithredu ar y cyd efo awdurdodau sirol eraill perthnasol fel partner yn Rhaglen ARFOR 2**
- **Cytuno y bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn gweithredu ar y cyd efo awdurdodau sirol eraill perthnasol fel partner yn Rhaglen ARFOR 2**
- **Awdurdodi'r Pennaeth Gwasanaeth – Rheoleiddio a Datblygu Economi i wneud y canlynol, gyda chytundeb y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) /Swyddog 151 mewn perthynas â phenderfyniadau Cyllidol, a'r Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol mewn perthynas â chytundebau cyfreithiol:**

  - **Derbyn telerau cytundeb(au) rhanbarthol yn ymwneud â rhaglen ARFOR 2**
  - **Derbyn cyllid ARFOR 2 a rheoli'r cyllid yma yn unol ag amodau'r cyllid**
  - **Gweinyddu cynlluniau a grantiau ARFOR 2 sy'n gyfrifoldeb arnom**
  - **Cynrychioli'r Cyngor mewn gweithgareddau rhanbarthol ARFOR 2, yn cynnwys cytuno manylion y rhaglen sy'n berthnasol i Ynys Môn**

**8. CAIS PORTHLADD RHYDD CAERGYBI**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd) i'w ystyried a oedd yn ceisio cael cefnogaeth y Pwyllgor Gwaith i sefydlu Porthladd Rhydd yng Nghaergybi. Mae porthladdoedd rhydd yn ardaloedd dynodedig lle mae ystod o gymhellion economaidd ar gael i ysgogi'r economi leol ac annog twf a buddsoddiad. Maent yn cynnwys cymhellion yn gysylltiedig â threthi, tollau, cyfraddau busnes, cynllunio, adfywio, arloesi a masnach a chymorth i fuddsoddi.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Carwyn Jones, Aelod Portffolio Datblygu Economaidd, Hamdden a Thwristiaeth a chyfeiriodd at y broses ymgeisio a'r amserlenni heriol ar gyfer cyflwyno'r cais. Mae £26m o gyllid sbarduno ar gael i'r cais/ceisiadau llwyddiannus - £1m o gyllid refeniw a £25m o gyllid cyfalaf ar ôl i'r achosion busnes amlinellol a llawn gael eu cymeradwyo. Gall ceisiadau gael eu cyflwyno gan gynghrair ac mae'n rhaid i'r gynghrair gynnwys gweithredwr porthladd (Stena Line Ports Ltd. yn yr achos Caergybi) a'r awdurdod lleol 'lletyol'. Er bod y Prosbectws Ymgeisio yn debyg i'r un ar gyfer Lloegr a arweiniodd at ddyfarnu statws Porthladd Rhydd i wyth ymgeisydd yn 2021, mae gwahaniaethau sylfaenol rhwng Porthladdoedd Rhydd yng Nghymru a Lloegr ac mae'r trothwy ar gyfer dadreoleiddio yn fwy caeth yng Nghymru ac mae'n cael ei asesu a'i rheoleiddio'n llawer llymach fel y nodir yn yr adroddiad. Dylid nodi na fydd y Cyngor ond yn cyflwyno cais sydd yn sicrhau fod y pryderon a nodir yn yr adroddiad yn cael eu bodloni a'i fod yn gwella swyddi, cyfleoedd a ffyniant ar Ynys Môn.Cynghorodd y Rheolwr Datblygu Economaidd bod Swyddogion y parhau i weithio gyda Stena Line Ports Ltd. a bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn helpu i gynnal y momentwm mewn perthynas â'r amserlen a'r broses heriol ac i drafod materion eraill yn cynnwys safleoedd y gellir eu cynnwys yn y Prosbectws a sefydlu'r egwyddor o Fodel Llywodraethu cadarn sy'n dderbyniol i'r Cyngor a Stena Ports Ltd. Bydd yr elfennau hyn yn dod yn gliriach pe byddai'r cynnig yn cyrraedd yr ail gam pan fydd rhaid paratoi achos busnes.

Roedd y Pwyllgor Gwaith yn gefnogol o'r cynnig mewn egwyddor ond nodwyd bod angen mwy o eglurder a sicrwydd ar nifer o faterion wrth i'r cynnig ddatblygu. Rhaid i'r Cyngor

DRAFT

hefyd fod yn fodlon y bydd sicrhau statws Porthladd Rhydd i Gaergybi yn gweithio i Ynys Môn ac yn dod â buddion economaidd i'r Ynys.

**Penderfynwyd –**

- **Oherwydd y terfyn amser ar gyfer cyflwyno'r cais, bod y Pwyllgor Gwaith yn dirprwyo'r awdurdod i'r Prif Weithredwr gyflwyno'r Cais Porthladd Rhydd terfynol, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd a'r Aelod Portffolio Datblygu Economaidd.**
- **Cytuno fod galw i mewn yn cael ei eithrio ar sail brys a niwed i ddiddordeb y cyhoedd.**

**9. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**Ystyriwyd a phenderfynwyd o dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd a gyflwynwyd.**

**10. DATBLYGIAD TAI AR SAFLE CYN YSGOL NIWBWRCH**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai a oedd yn amlinellu'r cynnig i adeiladu 14 o gartrefi newydd ar safle cyn Ysgol Gynradd Niwbwrch i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith. Pe byddai'r cynllun yn cael ei gymeradwyo, bydd yr anheddau newydd yn cael eu cynnig fel eiddo rhent cymdeithasol i ymgeiswyr ar y rhestr aros.

Cynghorwyd y Pwyllgor Gwaith ynglŷn â manylion y cynllun mewn perthynas â math, maint ac effeithlonrwydd ynni'r anheddau arfaethedig a chadarnhawyd yn yr adroddiad bod galw am y math yma o gartrefi yn ardal Niwbwrch. Pwysleisiwyd y gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r cynnig yn ystod y cyfnod economaidd digynsail hwn, yn seiliedig ar y galw presennol am y math o unedau a ddisgrifir yn yr adroddiad ac nid ar sail y gost. Pe byddai'r cynllun yn cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion, y bwriad ydi dechrau ar y gwaith tuag at ddiwedd y gwanwyn, 2023.

**Penderfynwyd, yn amodol ar dderbyn caniatâd cynllunio, cymeradwyo bwrw 'mlaen â'r cynllun i ddatblygu 14 o gartrefi newydd mewn ymateb i'r her dai leol, er mwyn galluogi i drigolion lleol brynu neu rentu tŷ fforddiadwy ar hen safle Ysgol Gynradd Niwbwrch.**

**11. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**Ystyriwyd a phenderfynwyd o dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd a gyflwynwyd.**

**12. DATBLYGIAD AR SAFLE YSGOL Y PARCH. THOMAS ELLIS, CAERGYBI**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai a oedd yn amlinellu'r cynnig i adeiladu 43 o gartrefi ar hen safle Ysgol Parch. Thomas Ellis, Caergybi i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith. Pe byddai'r cynllun yn cael ei gymeradwyo, bydd yr anheddau newydd yn cael eu cynnig fel eiddo rhent cymdeithasol a chanolig i ymgeiswyr ar y rhestr aros y Cyngor a Tai Teg.

Cynghorwyd y Pwyllgor Gwaith ynglŷn â manylion y cynllun mewn perthynas â math, maint ac effeithlonrwydd ynni'r anheddau arfaethedig a chadarnhawyd yn yr adroddiad bod galw



DRAFT

am y math yma o gartrefi yn ardal Caergybi, gan mai yng Nghaergybi y mae'r galw uchaf am dai cymdeithasol ar yr Ynys. Pwysleisiwyd y gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r cynnig yn ystod y cyfnod economaidd digynsail hwn, yn seiliedig ar y galw presennol am y math o unedau a ddisgrifir yn yr adroddiad ac nid ar sail y gost. Pe byddai'r cynllun yn cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion, y bwriad ydi dechrau ar y gwaith tuag at ddiwedd yr haf, 2023.

**Penderfynwyd, yn amodol ar dderbyn caniatâd cynllunio, cymeradwyo bwrw 'mlaen â'r cynllun i ddatblygu 43 o gartrefi newydd mewn ymateb i'r her dai leol, er mwyn galluogi i drigolion lleol brynu neu rentu tŷ fforddiadwy ar hen safle Ysgol y Parch. Thomas Ellis, Caergybi.**

**Y Cynghorydd Carwyn Jones**
**Cadeirydd**

DRAFFT

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 29 Tachwedd 2022 |
| Pwnc / Testun: | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Y Cynghorydd Llinos Medi |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro |
| Awdur yr Adroddiad: | Rhys H Hughes<br>Dirprwy Brif Weithredwr / Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro |
| Aelodau Lleol: | Amherthnasol |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Rhagfyr 2022 – Gorffennaf 2023;**

adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor;

nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

-

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| Ch – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydy’. |

| D – A yw’r penderfyniad hwn oddi fewn i’r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Amherthnasol. |

| Dd – Asesu’r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae’r penderfyniad yma’n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Amherthnasol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i’r dyfodol? Os felly, sut? | |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio’r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai’r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy’n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. | |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen). |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | Dan amgylchiadau arferol, cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt. |
| 9 | Aelodau Lleol | Amherthnasol. |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Rhagfyr 2022 – Gorffennaf 2023 |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| |

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

**Cyfnod: Rhagfyr 2022 – Gorffennaf 2023**

Diweddarwyd 15 Tachwedd 2022

Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaen raglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.

Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaen raglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys ac fe gyhoeddir diweddariad yn fisol.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Gosodir allan y fersiwn ddiweddaraf o flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith **– sy'n ddogfen fyw ac yn agored i newid -** ar y tudalennau dilynol.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Rhagfyr 2022 – Gorffennaf 2023

Diweddarwyd 15 Tachwedd 2022

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Rhagfyr 2022** | | | |
| 1 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Rhys H Hughes<br>Dirprwy Brif Weithredwr (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro)<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>13 Rhagfyr 2022 | |
| 2 | **Rhenti Tai y CRT a Thaliadau'r Gwasanaethau Tai 2023/24** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun Mummery | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>13 Rhagfyr 2022 | |
| 3 | **Dyletswydd Bioamrywiaeth Adran 6, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Nicola Roberts | | Pwyllgor Gwaith<br><br>13 Rhagfyr 2022 | |
| 4 | **Trefniadau Cydweithredol Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau Mabwysiadu a Maethu Cymru (awdurdod lleol)** | | Gwasanaethau Cymdeithasol | Fôn Roberts<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>Cyng Gary Pritchard | | Pwyllgor Gwaith<br><br>13 Rhagfyr 2022 | |

Tudalen 11

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Rhagfyr 2022 – Gorffennaf 2023

Diweddarwyd 15 Tachwedd 2022

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Ionawr 2023** | | | |
| 5 | **Cyllideb 2023/24 (S)**<br><br>Cwblhau cynigion cychwynnol drafft y Pwyllgor Gwaith ar gyfer ymgynghori. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid / Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol - Dyddiadau i'w cadarnhau | Pwyllgor Gwaith Dyddiad i'w gadarnhau, yn amodol ar amserlen Llywodraeth Cymru. | |
| | | | | | | | |
| 6 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Rhys H Hughes<br>Dirprwy Brif Weithredwr (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro)<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>24 Ionawr 2023 | |
| 7 | **Cynllun y Cyngor 2023-2028** | Rhan o Fframwaith Polisi'r Cyngor – mae angen penderfyniad cyfunol er mwyn gwneud argymhelliad i'r Cyngor llawn. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Robin Williams | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br><br>19 Ionawr 2023 | Pwyllgor Gwaith<br><br>24 Ionawr 2023 | Cyngor Llawn (dyddiad i'w gadarnhau) |
| 8 | **Cynllun Gweithredu Ôl-Arolwg Arolygiaeth Gofal Cymru – Arolwg Gwerthuso Perfformiad** | | Gwasanaethau Cymdeithasol | Fôn Roberts<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>Cyng Alun Roberts | Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol 12 Ionawr 2023 Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 19 Ionawr 2023 | Pwyllgor Gwaith<br><br>24 Ionawr 2023 | |

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Rhagfyr 2022 – Gorffennaf 2023

Diweddarwyd 15 Tachwedd 2022

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Chwefror 2023** | | | | | | | |
| 9 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Rhys H Hughes<br>Dirprwy Brif Weithredwr (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro)<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Chwefror 2023 | |
| 10 | **Cyfrifon ac Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 2021/22** | | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams<br>Cyng Ieuan Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Chwefror 2023 | |
| **Chwefror / Mawrth 2023 - Dyddiadau'r cyfarfodydd yn amodol ar amserlen Llywodraeth Cymru** | | | | | | | |
| 11 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2022/23 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br><br>12 Ionawr 2023 | Pwyllgor Gwaith | |
| 12 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2022/23 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br><br>12 Ionawr 2023 | Pwyllgor Gwaith | |

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Rhagfyr 2022 – Gorffennaf 2023

Diweddarwyd 15 Tachwedd 2022

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 13 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2022/23 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br><br>12 Ionawr 2023 | Pwyllgor Gwaith | |
| 14 | **Datganiad ar Strategaeth Rheoli Trysorlys 2023/24**<br><br>Mabwysiadu strategaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd. | | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid – dyddiad i'w gadarnhau<br><br>(Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio - Chwefror 2023) | Pwyllgor Gwaith | Cyngor Llawn |
| 15 | **Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Di-breswyl yn y Gymuned – Ffioedd a Thaliadau 2023/24** | | Gwasanaethau Oedolion | Arwel Owen<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Alun Roberts | Panel Sgriwtini Cyllid – dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith | |
| 16 | **Cartrefi'r Awdurdod Lleol ar gyfer Pobl Hyn – Pennu Ffi Safonol 2023/24** | | Gwasanaethau Oedolion | Arwel Owen<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Alun Roberts | Panel Sgriwtini Cyllid – dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith | |

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Rhagfyr 2022 – Gorffennaf 2023

Diweddarwyd 15 Tachwedd 2022

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 17 | **Ffioedd a Thaliadau 2023/24** | | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid – dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith | |
| 18 | **Ffioedd Cartrefi Gofal y Sector Annibynnol 2023/24** | | Gwasanaethau Oedolion | Arwel Owen<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Alun Roberts | Panel Sgriwtini Cyllid – dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith | |
| 19 | **Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Chyllideb 2023/24 (S)**<br><br>Mabwysiadu cynigion terfynol i'w hargymell i'r Cyngor Sir. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>Dyddiad i'w gadarnhau<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol – dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith | Cyngor Llawn |
| 20 | **Strategaeth Gyfalaf a Rhaglen Gyfalaf** | | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid – dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith | |

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Rhagfyr 2022 – Gorffennaf 2023

Diweddarwyd 15 Tachwedd 2022

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 21 | **Cyllideb Gyfalaf 2023/24** | | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid / Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol – dyddiadau i'w cadarnhau | Pwyllgor Gwaith | |
| | | | | **Mawrth 2023** | | | |
| 22 | **Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2021/22** | Deilydd Portffolio Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | Busnes y Cyngor | Lynn Ball<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro<br><br>Cyng Llinos Medi | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio<br><br>15 Mawrth 2023 | Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>Mawrth 2023 | |
| | | | | | | | |
| 23 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Rhys H Hughes<br>Dirprwy Brif Weithredwr (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro)<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mawrth 2023 | |
| 24 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch3, 2022/23 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Robin Williams | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br><br>14 Mawrth 2023 | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mawrth 2023 | |

Tudalen 16

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Rhagfyr 2022 – Gorffennaf 2023

Diweddarwyd 15 Tachwedd 2022

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 25 | **Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai (CRT)** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun Mummery | Panel Sgriwtini Cyllid – dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mawrth 2023 | |
| 26 | **Adroddiad Cynnydd: Rhaglen Wella'r Gwasanaethau Cymdeithasol** | | Gwasanaethau Cymdeithasol | Fôn Roberts<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>Cyng Gary Pritchard<br>Cyng Alun Roberts | Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol /<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>14 Mawrth 2023 | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mawrth 2023 | |
| | **Ebrill 2023** | | | | | | |
| 27 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Rhys H Hughes<br>Dirprwy Brif Weithredwr (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro)<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Ebrill 2023 | |
| | **Mai 2023** | | | | | | |
| 28 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Rhys H Hughes<br>Dirprwy Brif Weithredwr (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro)<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mai 2023 | |

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Rhagfyr 2022 – Gorffennaf 2023

Diweddarwyd 15 Tachwedd 2022

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Mehefin 2023** | | | |
| 29 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Rhys H Hughes<br>Dirprwy Brif Weithredwr (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro)<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2023 | |
| 30 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch4, 2022/23 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Robin Williams | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol – dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2023 | |
| 31 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2022/23 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid – dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2023 | |
| 32 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2022/23 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid – dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2023 | |

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Rhagfyr 2022 – Gorffennaf 2023

Diweddarwyd 15 Tachwedd 2022

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 33 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2022/23 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid – dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2023 | |
| | | | | **Gorffennaf 2023** | | | |
| 34 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Rhys H Hughes<br>Dirprwy Brif Weithredwr (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro)<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Gorffennaf 2023 | |

Tudalen 19

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 28 Tachwedd 2022 |
| Pwnc / Testun: | Adroddiad Monitro'r Cerdyn Sgorio – Chwarter 2 (2022/23) |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Y Cynghorydd Robin Williams |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Carys Edwards |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | Gethin Morgan<br>01248 752111<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| Aelodau Lleol: | Amherthnasol |

| A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau |
|---|

**1.1** Hwn yw'r ail cerdyn sgorio ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23. Mae'n dangos safle'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel yr amlinellwyd ac y cytunwyd arnynt ynghynt yn y flwyddyn.

**1.2** Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at rai straeon cadarnhaol mewn perthynas â pherfformiad chwarter 2. Mae rhai o'r uchafbwyntiau hyn yn cynnwys:

- Canran yr aelwydydd (gyda phlant) a gafodd eu hatal rhag dod yn ddigartref
- Nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod
- Mae pob un o ddangosyddion y Gwasanaethau Oedolion yn uwch na'r targed ar gyfer y chwarter
- Cyfradd absenoldebau staff

**1.3** Mae'r sefyllfa ar ddiwedd chwarter 2 yn gadarnhaol. Er bod hyn yn galonogol, mae'n bwysig nodi fod tueddiadau ar i lawr yn ymddangos yn erbyn nifer o ddangosyddion sy'n gysylltiedig â pherfformiad, yn arbennig mewn perthynas ag Amcan Llesiant 2. Bydd angen rhoi sylw penodol i'r dangosyddion hyn a phrosesau a ffrydiau gwaith cysylltiedig wrth i ni symud i mewn i fisoedd oer y flwyddyn, gyda thlodi tanwydd a thlodi bwyd yn cynyddu drwy'r amser yn ein cymunedau, yn ogystal â'r cynnydd mewn costau byw y mae pawb yn eu hwynebu.

**1.4** Gofynnir i'r pwyllgor derbyn y mesurau lliniaru a amlinellir uchod.

| B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Amherthnasol |

| C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
| --- |
| Ydi |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
| --- |
| Ydi |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
| --- | --- | --- |
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r adroddiad y Cerdyn Sgorio Corfforaethol yn rhoi cipolwg ar berfformiad DPA yn erbyn 3 amcan Cynllyn y Cyngor ar ddiwedd pob chwarter.<br><br>Mae'r 3 amcan, isod, yn ystyried anghenion tymor hir yr Ynys<br><br>1. Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir<br>2. Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl<br>3. Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol<br><br>Mae mesur y DPA yn erbyn pob amcan yn dangos sut mae penderfyniadau'n cael effaith ar ein perfformiad cyfredol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Gallai perfformiad rhai DPAau o bosibl gael effaith ar gostau yn y dyfodol, ond mae mesurau lliniaru a gynigir yn ceisio lliniaru'r pwysau hyn. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Ymgymerir ag elfennau o'r gwaith sy'n cael ei fonitro yn y Cerdyn Sgorio mewn modd cydweithredol â sefydliadau eraill fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Llywodraeth Cymru, Cadwch Gymru'n Daclus, Gyrfa Cymru, Chwaraeon Cymru, GWE, ymhlith eraill. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Amh. |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amh. |

| | | |
|---|---|---|
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amh. |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Amh. |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Ystyriwyd y mater hwn gan yr Tîm Arweinyddiaeth ac adlewyrchir eu sylwadau yn yr adroddiad |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Sylwadau wedi ymgyffori yn yr adroddiad |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Sylwadau wedi ymgyffori yn yr adroddiad |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Sylwadau wedi ymgyffori yn yr adroddiad |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | Ystyriwyd y mater hwn gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y 22/11. Bydd cadeirydd y pwyllgor yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod hwn. |
| 9 | Aelodau Lleol | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Atodiad A - Cherdyn Sgorio Chwarter 2 |

Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):

- Adroddiad Monitro Cerdyn Sgorio 2022/23 – Chwarter 1 (fel y cyflwynwyd ef i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2022 ac a dderbyniwyd ganddo.)
- Cynllun Trosiannol Ynys Môn 2022-23
- Cynllun y Cyngor 2017-2022

**ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 2 (2022/23)**

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn drefniadau ar waith sy'n caniatáu i ni gael dealltwriaeth effeithiol o anghenion a blaenoriaethau lleol, ac i wneud y defnydd gorau posib o'r adnoddau a'r capasiti sydd gennym i'w cyflawni a gwerthuso effaith yr hyn a wnawn.

1.2 Mae ein Cynllun Trosiannol ar gyfer 2022/23 yn nodi'r anghenion a'r blaenoriaethau lleol ac mae'n amlinellu ein hamcanion ar gyfer y cyfnod cyn mabwysiadu Cynllun y Cyngor newydd ar gyfer 2023-2028 yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

1.3 Defnyddir yr adroddiad monitro hwn ar y cerdyn sgorio i fonitro perfformiad y Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) a nodwyd gennym. Mae'n cynnwys cyfuniad o ddangosyddion lleol a chenedlaethol. Mae'n dangos sut rydym yn cyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd y Cyngor. Mae'n darparu gwybodaeth i alluogi'r Cyngor reoli perfformiad yn rhagweithiol ac, fel y cyfryw, mae'r adroddiad yn nodi unrhyw gamau lliniaru y cytunwyd arnynt gan y Tîm Arweinyddiaeth i yrru a sicrhau gwelliannau yn y dyfodol.

1.4 Mae'r cerdyn sgorio (atodiad 1) yn portreadu'r sefyllfa bresennol ar ddiwedd Chwarter 2 a bydd yn cael sylw pellach (ynghyd â'r adroddiad hwn) gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Tachwedd 2022.

## 2. CYD-DESTUN

2.1 Mae'r DPA monitro perfformiad wedi'u halinio â thri amcan llesiant presennol y Cyngor a byddant yn cael eu datblygu a'u halinio â'r Cynllun y Cyngor newydd ar gyfer 2023-28 pan gaiff ei fabwysiadu yn ddiweddarach eleni:

- Amcan 1 – Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir
- Amcan 2 – Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib
- Amcan 3 – Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol

2.2 Ni fydd modd cyhoeddi gwybodaeth ar gyfer pob Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA) ar y Cerdyn Sgorio pob chwarter oherwydd natur y dulliau casglu data. Yn y fath achosion, bydd nodyn yn dweud pa mor aml y mae'r DPA yn cael ei fonitro a phryd fydd y data ar gael i'w gasglu, e.e. (blynyddol) (Ch4), (bob tymor) (Ch3).


2.3 Mae unrhyw dargedau yn yr adroddiad yn cael eu hadolygu'n flynyddol a'u cytuno gyda phob gwasanaeth, gan gynnwys gwahanol dargedau chwarterol pan fydd angen yn seiliedig ar berfformiad a thueddiadau hanesyddol.

2.4 Mae pob canlyniad yn y cerdyn sgorio yn rhai cronnol ac, fel y cyfryw, bydd y golofn tueddiadau'n rhoi gwybodaeth am dueddiadau mewn perfformiad o un chwarter i'r llall trwy gydol y flwyddyn.

### 3. PERFFORMIAD IECHYD CORFFORAETHOL


3.1 Mae’r mwyafrif (90%) o’r dangosyddion yn yr adran hon sydd â thargedau sy’n cael eu monitro yn perfformio’n dda yn erbyn eu targedau (Gwyrdd neu Felyn). Nodir rhai o’r uchafbwyntiau isod.

3.2 Ar ddiwedd Ch2, mae’r Cyngor yn WYRDD yn erbyn ei darged gyda 3.60 diwrnod wedi’u colli oherwydd absenoldeb am bob gweithiwr cyfwerth ag amser llawn (FTE) yn ystod y cyfnod, o gymharu â tharged o 3.81 diwrnod. Mae’r perfformiad hwn yn well na pherfformiad yn ystod yr un cyfnod y llynedd ac mae’n cymharu’n dda â’r tair blynedd diwethaf, fel y dengys y graff a ganlyn.




3.2.1 Nid yw’r dangosyddion sy’n cael eu monitro ar hyn o bryd yn yr adran Gwasanaeth Cwsmer yn amlygu unrhyw bryderon sylweddol gan fod y dangosyddion, ar y cyfan, yn perfformio’n dda yn erbyn y targedau.

3.2.1.1 Er bod hyn yn gadarnhaol, rydym yn cydnabod bod angen gwneud rhagor o waith mewn perthynas â dangosydd 09 - % y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth sy’n derbyn ymateb o fewn yr amserlen – sydd yn dangos fod 72.1% o’r ymatebion o fewn yr amserlen yn erbyn targed o 80%. Mae’r perfformiad hwn yn well na’r 66.6% a nodwyd yn adroddiad monitro’r cerdyn sgorio ar gyfer Chwarter 1.



3.3 Ar hyn o bryd, ar ddiwedd Chwarter 2, mae'r adran rheolaeth ariannol yn rhagweld tanwariant o £1.128m ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2023. Mae pryder am nifer o feysydd nad ydynt amlwg efallai yn y ffigwr cyffredinol hwn ac mae'n amlygu risgiau mewn perthynas â sefyllfa ariannol y Cyngor yn y dyfodol.

3.4 Mae'r prif feysydd pryder yn ymwneud â:-

3.4.1 Y ffaith fod y cynnig tâl yn sylweddol uwch na'r hyn y mae'r gyllideb yn caniatáu ar ei gyfer ac nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu yn y rhagolwg presennol. Er bod cronfa glustnodedig ar gael fydd yn gwrthbwyso cyfran helaeth o'r gost ychwanegol, efallai na fydd yn ddigon i gwrdd â'r gost ychwanegol yn llawn. Mae'n rhaid i'r gyllideb sylfaen ar gyfer 2023/24 ddarparu ar gyfer y cynnydd yn y gost hefyd, yn ogystal â'r dyfarniad cyflog ar gyfer 2023/24.

3.4.2 Mae'r sefyllfa mewn perthynas â Gofal Cymdeithasol yn destun pryder penodol, ac amcangyfrifir gorwariant o £1.361m yn y Gwasanaethau Oedolion a Phlant. Serch hynny, mae'r sefyllfa wirioneddol yn cael ei chuddio oherwydd bod grantiau ychwanegol a chronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio i ostwng y tanwariant. Y sefyllfa wirioneddol yw y bydd rhwng £3.5m a £4m o orwariant. Mae hyn yn seiliedig ar lefel bresennol y galw. Bydd unrhyw gynnydd yn y galw am wasanaethau'n gwaethygu'r sefyllfa.

3.4.3 Yn y pendraw, bydd problemau costau byw yn arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau'r Cyngor (Digartrefedd, Cyngor ar Ddyledion, Cefnogaeth Iechyd Meddwl, Gwasanaethau Plant) a gallai arwain at ostwng incwm gwasanaethau megis hamdden, diwylliant, cynllunio a ffioedd parcio wrth i bobl wario llai ar eitemau nad ydynt yn hanfodol. Gallai'r newidiadau posib hyn yn y galw am wasanaethau gael effaith negyddol ar sefyllfa ariannol y Cyngor.

3.5 Bydd y sefyllfa ariannol yn 2022/23 yn cael effaith hefyd ar strategaeth ariannol y Cyngor ar gyfer 2023/24 a thu hwnt, gan y bydd yn amlygu'r angen i ail-alinio cyllidebau er mwyn adlewyrchu'r cynnydd mewn costau yn 2022/23 ac adlewyrchu'r newid yn y galw am wasanaethau. Yn ogystal, bydd unrhyw orwariant sylweddol yn arwain at erydu cronfeydd wrth gefn a balansau cyffredinol a bydd yn lleihau'r gallu i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a balansau i gynorthwyo i gydbwyso'r gyllideb refeniw yn 2023/24.

3.6 Y tanwariant a ragwelir ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2021/22 yw £6.219m, a gallai lithro i'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2023/24. Bydd y cyllid ar gyfer y llithriad hwn hefyd yn llithro i 2023/24 a bydd yn cael ei ystyried wrth lunio'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys, y Strategaeth Gyfalaf a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2023/24.

3.7 Mae rhagor o wybodaeth am reolaeth ariannol ar gael yn yr 'Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw ar gyfer Chwarter 2', 'Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer Chwarter 2' ac 'Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw Tai ar gyfer Chwarter 2' a fydd yn cael eu trafod yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 29 Tachwedd.

3.8 Mae hyn yn dangos y gellir rhoi sicrwydd rhesymol trwy ddefnyddio dadansoddiad y cerdyn sgorio, fod gweithgareddau dydd i ddydd y Cyngor, o ran rheoli

- pobl
- cyllid, a

- gwasanaethu ei gwsmeriaid

yn cyflawni yn unol â’r disgwyliadau ac i safon briodol.

Mae hefyd yn darparu sail a thystiolaeth o ethos rheoli perfformiad da sy’n cael ei adlewyrchu yn y ffaith fod y dangosyddion, o’r safbwynt hwnnw, yn portreadu perfformiad boddhaol hefyd.

## 4. RHEOLI PERFFORMIAD

4.1 Ar ddiwedd Chwarter 2, mae’n galonogol nodi fod y mwyafrif (94%) o’r dangosyddion perfformiad yn perfformio’n well na’r targed neu o fewn 5% i’w targedau. Mae dau ddangosydd wedi tanberfformio yn erbyn eu targedau yn ystod Chwarter 2 ac maent yn cael eu dangos ar y cerdyn sgorio mewn Coch neu Ambr.

4.2 Mae perfformiad pob dangosydd yn gysylltiedig â’n hamcan llesiant cyntaf, **Amcan 1**, lle’r ydym yn gweithio i sicrhau fod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir, wedi bod yn wyrdd yn erbyn eu targedau.

4.3 Mae rhai enghreifftiau o’r perfformiad da a welwyd o dan yr amcan hwn yn ystod y chwarter yn cynnwys:

4.3.1 Dangosydd 7 – Nifer yr ymweliadau â Chanolfannau Hamdden – sydd â pherfformiad o 261k o gymharu â tharged o 253k. Mae hyn yn well na’r perfformiad a welwyd cyn y pandemig, yn ystod Chwarter 2 2019-20, pan gofnodwyd 244k o ymweliadau yn ystod y cyfnod.

4.3.2 Dangosydd 11 – Nifer yr eiddo gwag sy’n dod yn ôl i ddefnydd – gyda 40 eiddo wedi dod yn ôl i ddefnydd yn erbyn targed o 25. Unwaith eto, mae defnyddio Premiwm y Dreth Gyngor wedi dwyn ffrwyth yn y maes hwn ac mae’n gadarnhaol bod 40 llai o dai gwag yn ein cymunedau.


4.3.3 Dangosydd 10 – Canran y cleientiaid NERS y mae eu hiechyd wedi gwella ar ôl cwblhau rhaglen ymarfer – gyda 81.5% o gleientiaid yn credu fod y rhaglen wedi cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd. Roedd hyn yn welliant o gymharu â’r canlyniad o 75% a welwyd ar ddiwedd Chwarter 1 2022/23.

4.4 Mae dangosyddion ar gyfer yr ail amcan llesiant, **Amcan 2**, lle’r ydym yn cynorthwyo oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw’n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib, yn perfformio’n dda yn erbyn eu targedau hefyd a dim ond un o’r dangosyddion sy’n tanberfformio.

4.5 Mae’n bwysig nodi serch hynny, er bod perfformiad yn erbyn y targedau yn wyrdd neu’n felyn ar y cyfan, mae 60% o’r tueddiadau cysylltiedig yn disgyn. Bydd angen rhoi sylw penodol i’r dangosyddion hynny a phrosesau a ffrydiau gwaith cysylltiedig wrth i ni symud i mewn i fisoedd oer y flwyddyn, gyda thlodi tanwydd a thlodi bwyd yn cynyddu yn ein cymunedau, ynghyd â chynnydd mewn costau byw i bob un ohonom.

4.5.1 Dangosydd 23 – Mae’r amser cyfartalog a dreuliodd pob plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant yn ystod y flwyddyn, ac a gafodd eu dadgofrestru yn ystod y flwyddyn – yn GOCH gyda pherfformiad o 312 diwrnod yn erbyn targed o 270 diwrnod. Mae’r perfformiad wedi gwella o gymharu â’r 337 diwrnod a welwyd ar

ddiwedd Chwarter 1 ac mae ychydig yn well na'r 318 a nodwyd ar ddiwedd 2021/22.




Mae'r dangosydd hwn yn cyfrifo nifer y plant sydd wedi cael eu tynnu oddi ar y gofrestr amddiffyn plant yn ystod y deuddeg mis diwethaf, a hynny ar sail ffigyrau treigl. Mae 34 o blant yn y cohort hwn ar hyn o bryd ac mae nifer y diwrnodau a dreuliwyd ganddynt ar y gofrestr yn amrywio o 84 diwrnod i 834 diwrnod.

Mae 48 o blant yn parhau i fod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a'r nifer cyfartalog o ddiwrnodau ar y gofrestr yw 189, gan amrywio o 3 diwrnod i 848 diwrnod.

Bernir y dylid cynnwys dangosydd gwahanol, sef amser cyfartalog y mae pob plentyn wedi ei dreulio ar y gofrestr amddiffyn plant (CAP), ochr yn ochr â'r dangosydd hwn. Defnyddir y dangosydd newydd hwn i reoli perfformiad y dangosydd presennol a dylai hynny arwain at wella perfformiad y ddau ddangosydd dros amser.

4.6 Fel y nodwyd (4.4), o'r dangosyddion hynny sy'n perfformio'n dda, mae enghreifftiau o'r perfformiad da a welwyd yn ystod y chwarter yn cael eu hamlygu. Maent yn cynnwys:

4.6.1 Mae dangosyddion y Gwasanaethau Oedolion (Dangosyddion 16 i 19) i gyd yn Wyrdd yn erbyn eu targedau unwaith eto yn ystod y chwarter.

4.6.2 Mae'r dangosyddion Digartrefedd (Dangosyddion 26 a 27) ar gyfer y Gwasanaeth Tai hefyd wedi perfformio'n dda ac mae'r ddau yn Wyrdd yn erbyn eu targedau yn ystod y chwarter.

4.7 Pwynt i'w nodi – yn adroddiad monitro'r cerdyn sgorio ar gyfer Chwarter 1 nodwyd fod canran yr asesiadau plant a gwblhawyd ar amser (dangosydd 20) yn 78.02% ac yn Goch yn erbyn ei darged. Roedd camgymeriad wrth gyfrifo perfformiad y dangosydd hwn ac mae hynny wedi cael ei gywiro yn awr – y ffigwr cywir ar gyfer Chwarter 1 oedd 87.9% ac roedd yn Felyn yn erbyn ei darged. Mae'r dangosydd hwn wedi gwella yn ystod Chwarter 2 a chofnodwyd perfformiad o 89.24%, sef ychydig yn is na'r targed o 90%.

4.8 Mae perfformiad ein dangosyddion i fonitro ein trydydd amcan llesiant, **Amcan 3**, lle'r ydym yn gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol, wedi bod yn dda hefyd, gyda 70% o'r dangosyddion yn uwch na'r targed.

4.9 Mae'r dangosyddion sydd wedi perfformio'n dda yn ystod y chwarter yn cynnwys:

4.9.1 Mae nifer o'r dangosyddion rheoli gwastraff (Dangosyddion 31, 33 a 34) yn Wyrdd yn erbyn eu targedau yn ystod y flwyddyn. Roedd 96% o'r strydoedd a arolygwyd yn ystod y chwarter yn lân, sydd yn well na'r 95% a gofnodwyd yn ystod Chwarter 1. Roedd preswylwyr wedi ailgylchu mwy yn ystod Chwarter 2 nac yn Chwarter 1, fel y dengys gwybodaeth hanesyddol. Er bod hyn yn gadarnhaol, mae cymorth pobl i ailgylchu mwy yn hanfodol os yw'r Ynys am gyflawni'r targed ailgylchu o 70% erbyn 2025.


4.10 Yn dilyn sylwadau gan y pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn 2021/22, mae targed blynyddol dangosydd 32 (y canran y gwastraff wedi'u ailddefnyddio, ailgylchu neu chompostio) bellach yn 64% sydd yn cyd fynd hefo targed statudol Llywodraeth Cymru.

Disgwylir i'r targed yma godi yn ystod 2023/24 er mwyn cwrdd a'r disgwyliadau statudol. I'r perwyl hynny, rydym yn cyd-weithio gyda WRAP Cymru i adnabod y gwelliannau a'r newidiadau sydd ei angen i gwrdd a'r targed cenedlaethol o 70% erbyn 2025.

Noder bod y targed ar gyfer yr dangosydd yma yn newid o chwarter i chwarter yn seiliedig ar berfformiad hanesyddol y dangosydd (gweler 2.3 uchod) e.e. disgwylir gasglu mwy o wastraff yn chwarter 1 a 2 o'i gymharu a chwarter 3 a 4 ac felly mae'r targedau yn adlewyrchu hyn.

4.11 Yr unig ddangosydd sy'n tanberfformio yn ystod y chwarter hwn yw:

4.11.1 Dangosydd 36 – canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd – gyda pherfformiad o 36% yn erbyn targed o 65%. Mae hyn yn is na'r un cyfnod yn 2021/22 pan wrthodwyd 43%.



Gellir gweld darlun tebyg iawn i'r hyn a nodwyd ar gyfer y dangosydd hwn yn adroddiad monitro'r cerdyn sgorio ar gyfer Chwarter 1. Mae'r dangosydd hwn yn ymwneud â nifer fach o apeliadau cynllunio, a gall y nifer newid yn sylweddol o un chwarter i'r llall. Gwrthodwyd un o'r tair apêl yn ystod y chwarter sy'n golygu fod pedwar o'r un ar ddeg apêl wedi cael eu gwrthod yn ystod y flwyddyn hyd yma.

Mae'r Cyngor yn parhau i sicrhau fod penderfyniadau cynllunio'n 'gadarn' a bod modd eu cyfiawnhau, serch hynny, nid oes gan y Cyngor unrhyw ddylanwad ar benderfyniadau apêl. Byddwn yn parhau i fonitro penderfyniadau apêl ar geisiadau tebyg i nodi a oes patrwm yn datblygu a fyddai'n golygu bod angen dehongli ein polisïau yn wahanol.

## 5. ARGYMHELLION

5.1 Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at rai straeon cadarnhaol mewn perthynas â pherfformiad chwarter 2. Mae rhai o'r uchafbwyntiau hyn yn cynnwys:

- Canran yr aelwydydd (gyda phlant) a gafodd eu hatal rhag dod yn ddigartref
- Nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod
- Mae pob un o ddangosyddion y Gwasanaethau Oedolion yn uwch na'r targed ar gyfer y chwarter
- Cyfradd absenoldebau staff

5.2 Mae'r sefyllfa ar ddiwedd chwarter 2 yn gadarnhaol. Er bod hyn yn galonogol, mae'n bwysig nodi fod tueddiadau ar i lawr yn ymddangos yn erbyn nifer o ddangosyddion sy'n gysylltiedig â pherfformiad, yn arbennig mewn perthynas ag Amcan Llesiant 2. Bydd angen rhoi sylw penodol i'r dangosyddion hyn a phrosesau a ffrydiau gwaith cysylltiedig wrth i ni symud i mewn i fisoedd oer y flwyddyn, gyda thlodi tanwydd a thlodi bwyd yn cynyddu drwy'r amser yn ein cymunedau, yn ogystal â'r cynnydd mewn costau byw y mae pawb yn eu hwynebu.

5.3 Gofynnir i'r pwyllgor dderbyn y mesurau lliniaru a amlinellir uchod.

## 6. RHESTR TERMAU

6.1 Isod mae rhestr o'r byrfoddau a ddefnyddir yn yr adroddiad a'r Cerdyn Sgorio

6.1.1 DPA – Dangosydd Perfformiad Allweddol
6.1.2 Ch1 – Chwarter 1
6.1.3 Ch2 – Chwarter 2
6.1.4 Ch3 – Chwarter 3
6.1.5 Ch4 – Chwarter 4
6.1.6 Statws CAG – Coch – mwy na 10% yn is na'r targed a/neu angen ymyrraeth sylweddol
Ambr – rhwng 5% a 10% yn is na'r targed a/neu angen rhywfaint o ymyrraeth
Melyn – o fewn 5% i'r targed
Gwyrdd – ar darged, neu'n uwch na'r targed

6.1.7 Tuedd – Mae'r saethau tuedd yn cynrychioli perfformiad o gymharu â'r chwarter blaenorol
6.1.8 CALl – Cyfystyr ag Amser Llawn
6.1.9 RhG – Rhyddid Gwybodaeth
6.1.10 CRT – Cyfrif Refeniw Tai
6.1.11 NEET – Nid mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant
6.1.12 DTL – Anodd ei Osod
6.1.13 NERS – Cynllun Cenedlaethol i Atygyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff
6.1.14 CAP – Cofrestr Amddiffyn Plant
6.1.15 CSYM – Cyngor Sir Ynys Môn

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q2 2021/22

| Rheoli Perfformiad / Performance Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Targed Bl / Yr Target | Canlyniad 21/22 Result | Canlyniad 20/21 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan 1 - Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir** | | | | | | | |
| 1) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd (tymhorol) (Ch3) | | | | | | - | - |
| 2) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd (tymhorol) (Ch3) | | | | | | - | - |
| 3) Canran gadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth [NEET] (blynyddol) (Ch4) | | | | | | 2.60% | 4.2% |
| 4) Canran y disgyblion a aseswyd yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Syflaen (blynyddol) (Ch3) | | | | | | - | - |
| 5) Canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio'r Gymraeg [iaith gyntaf] (blynyddol) (Ch4) | | | | | | 68% | - |
| 6) Canran y Dangosyddion Ansawdd (â thargedau) a gyflawnwyd gan y gwasanaeth llyfrgelloedd (blynyddol) (Ch3) | | | | | | - | - |
| 7) Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden | Gwyrdd / Green | ↑ | 261k | 253k | 546k | 388k | 189k |
| 8) Canran y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd safonau hylendid bwyd | Gwyrdd / Green | → | 98% | 95% | 95% | 98% | 98% |
| 9) Canran cleientiaid NERS a gwblhaodd y rhaglen ymarfer corff | Gwyrdd / Green | ↓ | 66.50% | 50% | 50% | 47.5% | - |
| 10) Canran cleientiaid NERS yr oedd eu hiechyd wedi gwella wrth gwblhau'r rhaglen ymarfer corff | Gwyrdd / Green | ↑ | 81.50% | 80% | 80% | 84% | - |
| 11) Nifer o eiddo preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd | Gwyrdd / Green | ↑ | 40 | 25 | 50 | 91 | 94 |
| 12) Nifer y cartrefi newydd a grewyd o ganlyniad i ddechrau ailddefnyddio eiddo gwag | | | 1 | 1 | 3 | 1 | 9 |
| 13) Gwasanaethau landlordiaid: Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd i cwblhau atgyweiriadau | Gwyrdd / Green | ↓ | 11.43 | 18 | 18 | 13.89 | 8.1 |
| 14) Canran y tenantiaid sy'n fodlon gyda gwaith atgyweirio ymatebol (blynyddol) (Ch4) [Dangosydd Lleol] | | | | | | - | - |
| **Amcan 2 - Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl** | | | | | | | |
| 15) Cyfradd y bobl a gedwir yn yr ysbyty wrth aros am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed (Ch3) | | | | | | - | - |
| 16) Canran yr ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol | Gwyrdd / Green | ↓ | 90.85% | 90% | 90% | 94.78% | 92.31% |
| 17) Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ail-alluogi ac nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach | Gwyrdd / Green | ↑ | 63.83% | 62% | 62% | 64.85% | 60.36% |
| 18) Cyfradd y bobl hŷn (65 mlwydd oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth [Dangosydd Lleol] | Gwyrdd / Green | ↓ | 16.69 | 19 | 19 | 14.33 | 15.36 |
| 19) Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | ↑ | 94.20% | 93% | 93% | 96.10% | 98.20% |
| 20) Canran yr asesiadau plant a gwblhawyd o fewn amser | Melyn / Yellow | ↑ | 89.24% | 90% | 90% | 87.15% | 86.87% |
| 21) Canran y plant mewn gofal y bu'n rhaid iddynt symud 3 gwaith neu fwy | Gwyrdd / Green | ↓ | 4.67% | 5.00% | 10% | 9.79% | 12.34% |
| 22) Canran y cyfeiriadau o blant sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis [Dangosydd Lleol] | Melyn / Yellow | ↓ | 18.95% | 15% | 15% | 5.74% | 32.00% |
| 23) Cyfanswm yr amseroedd (mewn diwrnodau) a dreuliodd pob plentyn ar y CPR os cafodd ei dynnu oddi ar y CPR yn ystod y flwyddyn | Coch / Red | ↑ | 312 | 270 | 270 | 318 | 258 |
| 24) Canran y cyfeiriadau yn ystod y flwyddyn lle caiff penderfyniad ei wneud o fewn 1 diwrnod gwaith | Gwyrdd / Green | ↑ | 98.89% | 95% | 95% | 99.10% | 99.56% |
| 25) Canran yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn, a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | Melyn / Yellow | ↑ | 87.65% | 90% | 90% | 85.99% | 87.74% |
| 26) Canran y teuluoedd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref | Gwyrdd / Green | ↓ | 88.34% | 80% | 80% | 80.95% | 74.74% |
| 27) Canran y teuluoedd (gyda plant) a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref [Dangosydd Lleol] | Gwyrdd / Green | ↓ | 95.00% | 85% | 85% | 92.00% | 75.47% |
| 28) Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | Melyn / Yellow | ↓ | 173 | 170 | 170 | 172.3 | 169 |
| 29) Nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) | Gwyrdd / Green | ↓ | 30.3 | 40 | 40 | 28.7 | 45.6 |
| 30) Gwasanaethau landlordiaid: Canran y rhent wedi'i golli o ganlyniad i eiddo fod yn wag | Melyn / Yellow | ↓ | 1.83% | 1.70% | 1.70% | 1.66% | 1.98% |
| **Amcan 3 - Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol** | | | | | | | |
| 31) Canran y strydoedd sy'n lân | Gwyrdd / Green | ↑ | 96% | 95% | 95% | 95.50% | 92.00% |
| 32) Canran y gwastraff wedi'u ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio | Melyn / Yellow | ↓ | 65.18% | 66% | 64% | 62.39% | 62.96% |
| 33) Nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon | Gwyrdd / Green | → | 1 | 1 | 1 | 0.25 | 0.95 |
| 34) Cilogramau y gwastraff gweddilliol a eneradir fesul person | Gwyrdd / Green | ↓ | 106kg | 110kg | 220kg | 223kg | 214kg |
| 35) Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd | Melyn / Yellow | ↓ | 85% | 90% | 90% | 79% | 79% |
| 36) Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd | Coch / Red | ↓ | 36% | 65% | 65% | 50% | 58% |
| 37) Canran yr achosion gorfodaeth cynllunio yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod | Gwyrdd / Green | ↓ | 90% | 80% | 80% | 84% | 74% |
| 38) Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | Gwyrdd / Green | ↑ | 2.6% | 3% | 3% | 3% | 4.60% |
| 39) Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | Gwyrdd / Green | ↑ | 2.6% | 4% | 4% | 2.80% | 3.80% |
| 40) Canran y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | Gwyrdd / Green | ↑ | 7.6% | 9% | 9% | 8.20% | 8.50% |
| 41) Defnydd o danwydd ffosil bras gan fflyd y Cyngor (tCO2e) | | ↑ | 251.73 | | | 486.85 | 385 |
| 42) Nifer y milltiroedd a deithiodd fflyd y Cyngor (milltiroedd) | | ↓ | 843,416 | | | 1,524,961 | 1,254,419 |
| 43) Nifer y milltiroedd a deithiodd fflyd lwyd / gweithwyr y Cyngor (milltiroedd) | | ↑ | 451,696 | | | 786,247 | - |
| 44) Newid net mewn Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (tCO2e) - Fflyd y Cyngor (Blynyddol) (%) | | | | | | + 26% | - |

Melyn - o fewn 5% o'r targed    Gwyrdd - ar darged neu'n uwch    Mae saethau tuedd yn cynrychioli perfformiad chwarter ar chwarter    Adroddir ar yr holl ddangosyddion uchod yn genedlaethol oni nodir yn wahanol

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q2 2022/23

| Gofal Cwsmer / Customer Service | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 21/22 Result | Canlyniad 20/21 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Siarter Gofal Cwsmer / Customer Service Charter** | | | | | | |
| 01) Nifer y cwynion a dderbyniwyd (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | Gwyrdd / Green | ↑ | 25 | 33 | 55 | 43 |
| 02) Nifer y cwynion Cam 2 a dderbynnwyd ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | | | 2 | - | 9 | 6 |
| 03) Nifer y Cwynion a gadarnhawyd / gadarnhawyd yn rhannol | | | 5 | - | 20 | 8 |
| 04) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Corfforaethol) | Gwyrdd / Green | ↑ | 87% | 80% | 80% | 88% |
| 05) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol) | Gwyrdd / Green | ↑ | 80% | 80% | 66% | 75% |
| 06) Nifer y cwynion Cam 1 ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | | ↓ | 11 | - | 41 | 24 |
| 07) Nifer o bryderon (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | | ↓ | 176 | - | 189 | 104 |
| 08) Nifer o ganmoliaethau | | ↑ | 217 | - | 658 | 662 |
| 09) % o Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Ymatebwyd o fewn yr Amserlen | Coch / Red | ↑ | 72% | 80% | 79% | 79.4% |
| **Newid Cyfrwng Digidol / Digital Service Shift** | | | | | | |
| 10) Nifer o ddefnyddwyr AppMôn (blynyddol) | | ↑ | 56k | - | 51k | 33.5k |
| 11) Nifer o adroddiadau a dderbyniwyd gan AppMôn | | ↑ | 21k | - | 66k | 58k |
| 12) Nifer o daliadau dros y we | | ↓ | 11.5k | - | 21k | 18.5k |
| 13) Nifer o daliadau dros y ffôn | | ↓ | 4.5k | - | 11k | 7k |
| 14) Nifer o 'ddilynwyr' CSYM ar Cyfryngau Cymdeithasol | | ↑ | 98k | - | 92k | 42k |
| 15) Nifer o ymwelwyr i wefan y Cyngor | | ↑ | 124k | - | - | - |

| Rheoli Pobl / People Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 21/22 Result | Canlyniad 20/21 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | | | 2239 | - | 2202 | 2180 |
| 02) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Gwyrdd / Green | ↓ | 3.6 | 3.81 | 8.73 | 6.68 |
| 03) Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | | | 1.47 | - | 3.70 | 1.94 |
| 04) Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | | | 2.12 | - | 5.03 | 4.74 |
| 05) Gweithwyr yr Awdurdod Lleol yn gadael (%) (Trosiant) (Blynyddol) (Ch4) | | | | - | 10% | 6% |

| Rheolaeth Ariannol / Financial Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Cyllideb / Budget | Canlyniad / Actual | Amrywiant / Variance (%) | Rhagolygon o'r Gwariant / Forcasted Actual | Amrywiant a Ragwelir / Forcasted Variance (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Y gyllideb o gymharu â Ffigyrau Gwirioneddol | Gwyrdd / Green | ↑ | £70,621,000 | £69,375,000 | -1.76% | | |
| 02) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Refeniw) | Melyn / Yellow | ↓ | £158,367,000 | | | £158,479,000 | 0.07% |
| 03) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Cyfalaf) | | ↓ | £36,691,000 | | | £34,068,000 | -7.15% |
| 04) Incwm o gymharu â Thargedau (ac eithrio grantiau) | Gwyrdd / Green | ↑ | -£6,467,570 | -£7,420,135 | 14.73% | | |
| 05) Swm a fenthycwyd | | ↓ | £12,052,000 | | | £10,310,000 | -14.45% |
| 06) Chost benthyca | | ↑ | £4,152,796 | | | £4,037,067 | -2.79% |
| 07) % of y Dreth Gyngor a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | ↑ | | 98.31% | | | |
| 08) % y Trethi Busnes a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Gwyrdd / Green | ↑ | | 98.95% | | | |
| 09) % y Rhent Tai a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | ↓ | | 100.1% | | | |
| 10) % y Rhent Tai a gasglwyd heb gynnwys taliadau budd-dal (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | ↓ | | 100.5% | | | |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **29 TACHWEDD 2022** |
| **Pwnc / Testun:** | **ADOLYGIAD RHEOLI TRYSORLYS BLYNYDDOL AR GYFER 2021/22** |
| **Deilydd(ion) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD ROBIN WYN WILLIAMS – DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID, BUSNES CORFFORAETHOL A PHROFIAD Y CWSMER** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **R MARC JONES** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Tel:**<br>**E-bost:** | **JEMMA ROBINSON**<br>**01248 752675**<br>**Jemma Robinson@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **D/B** |

**A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau**

- Nodi y bydd y ffigyrau alldro yn yr adroddiad yn parhau dros dro tan y bydd Archwiliad o Ddatganiad y Cyfrifon 2021/22 wedi ei gwblhau a'i lofnodi; bydd unrhyw addasiad sylweddol i'r ffigyrau yn yr adroddiad yn cael ei adrodd fel bo'n briodol.
- I nodi dangosyddion darbodus a thrysorlys dros dro 2021/22 yn yr adroddiad.
- Ystyried Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2021/22 a'i drosglwyddo i gyfarfod nesaf y Cyngor llawn gydag unrhyw sylwadau.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad I'r Pwyllgor Gwaith?**

- Cydymffurfio â rheoliadau a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a Chynllun Dirprwyo Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2021/22 (Atodiad 8 Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2021/22). Yn unol â'r Cynllun Dirprwyo, cafodd yr adroddiad hwn ei sgriwtineiddio gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 21 Medi 2022. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn unwaith y bydd wedi ei dderbyn gan y Pwyllgor hwn.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisiau a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Amherthnasol

| DD Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | |
| **2** | **Cyllid / Swyddog Adran 151** (gorfodol) | Amherthnasol – Adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | |

| | | |
|---|---|---|
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |
| **10** | **Arall** | Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i :-<br>• Nodi fod y ffigyrau alldro yn yr adroddiad yn parhau dros dro tan fydd yr archwiliad o Ddatganiad y Cyfrifon 2021/22 wedi eu cwblhau ac wedi ei lofnodi; bydd unrhyw addasiadau sylweddol i'r ffigyrau sy'n cael eu cynnwys yr yr adroddiad yn cael eu hadrodd fel bo'n briodol.<br>• Nodi'r dangosyddion darbodus a thrysorlys dros dro 2021/22 yn yr adroddiad.<br>• Ystyried adroddiad Adolygiad Blynyddol Rheoli Trysorlys am 2021/22, a'i argymell i'r Cyngor llawn heb sylw. |
| **E – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol)** | | |
| **1** | **Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein anghenion tymor hir fel Ynys** | |
| **2** | **A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:-** | |
| **3** | **A ydym wedi bod yn cyd-gweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda pwy-** | |
| **4** | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae'i rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | |
| **5** | **Nodwch yr effeithiau mae'r penderfyniad hwn yn ei gael ar yr agenda cydraddoldeb ac iaith Gymraeg** | |
| **6** | **Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.** | |
| **7** | **Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.** | |

| **F - Atodiadau:** |
| --- |
| Atodiad A – Adolygiad Rheoli Trysorlys Blynyddol ar Gyfer 2021/22 |
| **FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):** |
| • Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2021/22<br>• Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys 2021/22<br>• Adroddiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2021/22<br>• Adroddiad Alldro Cyfalaf 2021/22 |

**ATODIAD A**

## 1. Cyflwyniad

Yn unol â rheoliadau a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, mae'n ofynnol i'r Cyngor lunio adolygiad rheoli trysorlys blynyddol o'i weithgareddau a'r dangosyddion darbodus a thrysorlys gwirioneddol ar gyfer 2021/22. Mae'r adroddiad hwn yn bodloni gofynion Côd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys (y Côd) a Chôd Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (y Côd Darbodus).

Yn ystod 2021/22, y gofynion adrodd sylfaenol oedd y dylai'r Cyngor llawn dderbyn yr adroddiadau a ganlyn:-

- strategaeth flynyddol ar gyfer y trysorlys cyn i'r flwyddyn gychwyn (derbyniwyd ar 9 Mawrth 2021);
- adroddiad diweddaru canol blwyddyn ar y trysorlys (derbyniwyd ar 10 Mawrth 2022);
- adolygiad blynyddol wedi i'r flwyddyn ddod i ben yn disgrifio'r gweithgareddau o gymharu â'r strategaeth (yr adroddiad hwn).

Mae'r amgylchedd rheoleiddio yn gosod cyfrifoldeb ar Aelodau i adolygu a chraffu ar bolisi a gweithgareddau rheoli trysorlys. Mae'r adroddiad hwn, felly, yn bwysig yn hynny o beth gan ei fod yn darparu manylion am y sefyllfa alldro ar gyfer gweithgareddau trysorlys ac mae'n tynnu sylw at gydymffurfiaeth â pholisïau'r Cyngor a gymeradwywyd yn flaenorol gan Aelodau.

Mae'r Cyngor hwn yn cadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â'r gofyniad o dan y Côd bod rhaid i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio graffu ymlaen llaw ar bob un o'r adroddiadau rheoli trysorlys uchod cyn eu cyflwyno i'r Cyngor llawn. Rhoddwyd hyfforddiant i Aelodau yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20 er mwyn cefnogi rôl sgriwtini yr aelodau a darperir hyfforddiant pellach yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23.

Mae'r Swyddog Adran 151 yn cadarnhau mai dim ond at ddibenion cyfalaf y benthycwyd ac na aethpwyd y tu hwnt i'r terfyn benthyca statudol (y terfyn awdurdodedig).

Yn ogystal, mae'r adroddiad yn nodi'r canlyniadau canlynol ym mlwyddyn ariannol 2021/22:-

- Ffactorau allanol – gan gynnwys adolygiad o'r economi, perfformiad cyfraddau llog yn ystod y flwyddyn ac effaith Covid 19;
- Ffactorau mewnol – gan gynnwys perfformiad gwariant cyfalaf, yr effaith ar y cronfeydd wrth gefn a balansau arian parod, archwaeth risg o ran buddsoddiadau, y benthyciadau a gymerwyd gan y Cyngor a'r effaith ar y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC);
- Y Strategaeth Rheoli Trysorlys yn 2021/22 – gan gynnwys rheoli dyledion y Cyngor, gweithredu'r polisi Darpariaeth Refeniw Isaf (MRP) newydd, a benthyciadau a buddsoddiadau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn;
- Rheoli'r Trysorlys – beth yw'r Dangosyddion Darbodus a sut y cânt eu mesur;
- Cymharu'r Dangosyddion Darbodus – cymharu'r Dangosyddion Darbodus gwirioneddol gyda'r rhagolygon ar ddechrau'r flwyddyn;
- Edrych ymlaen at 2022/23 a thu draw i hynny; a
- Casgliad.

## 2. Adolygiad o'r Flwyddyn – Ffactorau Allanol

**2.1 Cyfraddau Llog –** Ar ôl i Fanc Lloegr gymryd camau brys ym mis Mawrth 2020 i ostwng y Gyfradd Banc i 0.10%, gadawodd y Gyfradd Banc ar yr un lefel yn y cyfarfodydd a ddilynodd cyn ei godi i 0.25% yn ei gyfarfod ar 16 Rhagfyr 2021, i 0.50% yn ei gyfarfod ar 4 Chwefror 2022 ac yna i 0.75% ym mis Mawrth 2022.

**2.2 Yr Economi -** Y Deyrnas Unedig - Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r pandemig coronafeirws wedi achosi difrod enfawr i economi'r DU ac economïau o gwmpas y byd. Mae economi'r DU wedi gweld sawl gwawr ffug drwy 2021/22 ond, gan fod y rhan fwyaf o'r economi wedi agor a bron â dychwelyd i fusnes fel arfer, mae'r ffigyrau cynnyrch domestig gros (GDP) wedi bod yn gadarn (9% blwyddyn ar flwyddyn Ch1 2022) ac maent yn ddigonol i'r Pwyllgor Polisi Ariannol ganolbwyntio ar daclo effeithiau ail rownd chwyddiant yn awr bod y mesur mynegai prisiau defnyddwyr (CPI) wedi codi'n barod i 6.2% ac mae'n debygol o fod yn uwch na 8% ym mis Ebrill.

Disgynnodd enillion giltiau ar ddiwedd 2021 ond, er gwaetha'r rhyfel yn Wcráin, cododd enillion giltiau yn gynnar yn 2022. Ar 1.38%, mae enillion 2 flynedd yn parhau i fod yn agos at y lefel uchaf mewn 11 mlynedd a welwyd yn ddiweddar ac mae enillion 10 blynedd o 1.65% yn agos at y lefel uchaf mewn 6 blynedd a welwyd yn ddiweddar. Mae'r cynnydd hwn yn rhan o duedd byd eang gan fod banciau canolog wedi awgrymu y byddant yn parhau i godi cyfraddau llog i reoli chwyddiant.

Yn hanesyddol, bydd cynnydd pellach yn enillion Trysorlys yr Unol Daleithiau yn golygu bod enillion giltiau'r DU yn codi'n uwch. Mae  cydberthynas gref rhwng y ddau ffactor. Serch hynny, mae'r wasgfa ar incwm gwario gwirioneddol aelwydydd oherwydd y cynnydd o 54% ym mhrisiau cyfleustodau ym mis Ebrill, yn ogystal â chynnydd yn y dreth gyngor, prisiau dŵr a phrisiau nifer o gontractau ffôn, yn rhwystrau grymus i unrhyw economi ymdopi â nhw. Yn ogystal, o 1 Ebrill 2022, bydd cyflogeion yn talu 1.25% fwy o dreth Yswiriant Gwladol. O ganlyniad, bydd chwyddiant yn fwy o lyffethair ar incwm gwirioneddol yn 2022 nag mewn unrhyw flwyddyn ers 1955, pan ddechreuwyd cadw cofnodion.

Targedu chwyddiant cyfartalog – Dyma'r newid mawr a fabwysiadwyd gan Fanc Lloegr yn 2020/21 o ran gweithredu ei darged chwyddiant o 2%. Yr ychwanegiad allweddol at flaen ganllawiau'r Banc ym mis Awst 2020 oedd ymadrodd newydd yn y datganiad polisi, sef "nid yw'n bwriadu tynhau polisi ariannol hyd nes bydd tystiolaeth glir fod cynnydd sylweddol yn cael ei wneud i gael gwared â chapasiti dros ben a chyflawni'r targed o 2% yn gynaliadwy". Mae'r fantra honno'n ymddangos yn hen ffasiwn iawn erbyn hyn. Chwyddiant yw'r ysbryd sydd wedi dianc o'r botel, ac mae storm berffaith o brinder cyflenwadau, prinder gweithwyr, chwyddiant mewn prisiau nwyddau, effaith ymosodiad Rwsia ar Wcráin a'r sancsiynau a osodwyd gan y Gorllewin wedi hynny, oll yn awgrymu y bydd lefel chwyddiant yn uchel ymhell i 2023.

## 3. Adolygiad o'r Flwyddyn – Ffactorau Mewnol

**3.1 Gwariant a Chyllid Cyfalaf 2021/22** – Mae'r Cyngor yn mynd i wariant cyfalaf ar asedau tymor hir. Gellir cyllido'r gweithgareddau hyn naill ai:-

- Ar unwaith trwy adnoddau cyfalaf neu refeniw (derbyniadau cyfalaf, grantiau cyfalaf, cyfraniadau refeniw ac ati), nad yw'n cael unrhyw effaith ar angen y Cyngor i fenthyca; neu

- Trwy fenthyca: os nad oes digon o gyllid ar gael, neu os penderfynir peidio â defnyddio adnoddau, bydd y gwariant cyfalaf yn arwain at yr angen i fenthyca.

Mae'r gwariant cyfalaf gwirioneddol yn un o'r dangosyddion darbodus angenrheidiol. Mae'r tabl isod yn dangos y gwir wariant cyfalaf a sut y cyllidwyd hyn:-

| | Amcangyfrif 2021/22 (£'m) | Gwirioneddol 2021/22 (£'m) |
|---|---|---|
| Gwariant cyfalaf o'r Gronfa Gyffredinol | 41 | 23 |
| Gwariant Cyfalaf o'r CRT | 22 | 10 |
| **Cyfanswm Gwariant Cyfalaf** | **63** | **33** |
| Cronfa Gyffredinol a gyllidwyd yn y flwyddyn gan Grantiau a Chyfraniadau | 24 | 17 |
| CRT a gyllidwyd yn y flwyddyn gan Grantiau a Chyfraniadau | 3 | 5 |
| Cronfa Gyffredinol a gyllidwyd yn y flwyddyn gan Adnoddau'r Cyngor | 4 | 2 |
| CRT a gyllidwyd yn y flwyddyn gan Adnoddau'r Cyngor | 18 | 4 |
| **Gwariant cyfalaf o'r Gronfa Gyffredinol a gyllidwyd trwy fenthyca** | **12** | **5** |
| **Gwariant cyfalaf o'r CRT a gyllidwyd trwy fenthyca** | **2** | **0** |

Y prif reswm am y tanwario oedd y tanwariant mawr yn erbyn y prosiectau a restrir isod:-

| Cynllun | Tanwariant £'m | Sylwadau |
|---|---|---|
| Adnewyddu adeiladau ysgol | 1.847 | Yn ystod rhan olaf 2021/22, dyfarnwyd £1.236m o gyllid grant ychwanegol i'r Awdurdod ar gyfer gwaith cynnal a chadw Cyfalaf mewn ysgolion. Defnyddiwyd y cyllid grant i gyllido cynlluniau cyfalaf y penderfynwyd arnynt yn lleol yn 2021/22, yn hytrach na defnyddio adnoddau'r Awdurdod ei hun. Bydd y cyllid a arbedwyd gan yr Awdurdod o'r grant hwn yn cael ei ddefnyddio yn awr i gyllido gwaith Cyfalaf mewn ysgolion yn 2022/23. |
| Prydau Ysgol am Ddim | 0.547 | Yn ystod rhan olaf 2021/22, dyfarnwyd £0.588m o gyllid grant ychwanegol i'r Awdurdod ar gyfer ysgolion er mwyn paratoi ar gyfer cyflwyno prydau ysgol am ddim. Defnyddiwyd y cyllid grant i gyllido cynlluniau cyfalaf y penderfynwyd arnynt yn lleol yn 2021/22, yn hytrach na defnyddio adnoddau'r Awdurdod ei hun. Bydd y cyllid a arbedwyd gan yr Awdurdod o'r grant hwn yn cael ei ddefnyddio yn awr i gyllido gwaith cynnal a chadw Cyfalaf mewn ysgolion yn 2022/23. |
| Cynlluniau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy | 2.864 | Mae'r cynllun Band A olaf yn gyrru yn ei flaen erbyn hyn ac mae gwaith ar y safle'n datblygu'n dda. Ail-wahoddwyd tendrau ar gyfer yr Uned Cyfnod Sylfaen newydd yn Ysgol y Graig. Derbyniwyd matrics cyllido wedi'i ddiweddaru a bydd cyllidebau 2022/23 yn adlewyrchu hyn. |
| Tô Canolfan Addysg y Bont | 0.991 | Oherwydd oedi wrth benodi contractwr i gychwyn gwaith ar y to cyn diwedd y flwyddyn, bydd y cynllun hwn yn llithro i flwyddyn ariannol 2022/23. Rhagwelwyd hyn yn yr adroddiad monitro cyfalaf ar gyfer chwarter 3. |
| Porth Twristiaeth | 1.340 | Cafodd gwaith ar Ganolfan Ymwelwyr Parc y Morglawdd ei ail-dendro yn llwyddiannus gan ddefnyddio fframwaith rhanbarthol ac mae contractwr wedi'i benodi yn awr, ac mae gwaith uwchraddio ar y toiledau a'r ciosg wedi cael eu comisiynu yn awr hefyd. Mae hwn yn gynllun sy'n parhau ac mae dyraniad cyllideb newydd ar ei gyfer yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2022/23. |

| Cynllun | Tanwariant £’m | Sylwadau |
|---|---|---|
| Cynlluniau Lliniaru Llifogydd Amrywiol | 2.262 | Mae rhai cynlluniau’n mynd rhagddynt ac maent yn pontio gwahanol flynyddoedd ariannol. Bu oedi mewn cynlluniau eraill a chytunwyd ar estyniad amser gyda Llywodraeth Cymru i gwblhau’r gwaith a dwyn y cyllid ymlaen. |
| Cronfa Trafnidiaeth Leol – gwelliannau Isadeiledd | 0.673 | Oherwydd natur y gwaith a’r amser aros ar gyfer cyflenwi isadeiledd, cytunwyd ar estyniad amser hyd at fis Gorffennaf 2022. |
| Adfywio Caergybi (Cam II Menter Treftadaeth Treflun (THI)) | 0.673 | Oherwydd sawl achos o oedi drwy gydol y flwyddyn, ni ddatblygodd prosiectau ar y cyflymder a fwriadwyd yn wreiddiol, a dyna pam fod yr amrywiad yn y gyllideb mor fawr. Dyrannwyd cyllideb newydd ar gyfer 2022/23. |
| Penrhos Cam 2 | 1.130 | Mae gwaith ar y safle’n mynd rhagddo a bydd y cynllun yn llithro i flwyddyn ariannol 2022/23. |
| Unedau Porth Llangefni | 0.872 | Mae gwaith ar y safle’n mynd rhagddo a bydd y cynllun yn llithro i flwyddyn ariannol 2022/23. Rhagwelir y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau yn chwarter 1. |
| Safle Preswyl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr | 0.491 | Roedd y prisiau tendr gwreiddiol a dderbyniwyd yn uwch na’r cyllid sydd ar gael. Mae’r cynllun yn cael ei ail-ddylunio i leihau costau er mwyn cyd-fynd â’r cyllid sydd ar gael. |
| Prosiectau TG | 0.281 | Tanwariant bwriadol oherwydd yr angen i adnewyddu’r brif system storio *flash* yn 2022/23. |
| Gwaith cyfalaf ar asedau cyfredol | 0.369 | Bu oedi ym mhrosiectau Plas Arthur oherwydd fod Ysgol y Bont yn defnyddio’r safle. |
| Gwelliannau Hamdden | 0.189 | Mae prosiectau ar y gweill a bwriedir i’r gwaith barhau yn 2022/23, yn benodol ym Mhlas Arthur. |
| Cerbydau | 0.274 | Mae cynllun yn cael ei lunio i ddarparu mannau gwefru cerbydau trydan yn y lloc cerbydau, ond nid yw’r gwaith wedi’i gwblhau, ac ni fydd cerbydau trydan yn cael eu harchebu nes bydd y gwaith hwn wedi’i gwblhau. Archebwyd cerbydau eraill cyn diwedd y flwyddyn ond, oherwydd yr amser aros ar gyfer eu cyflenwi, ni fyddant yn cyrraedd cyn diwedd y flwyddyn, felly, bydd angen i’r gyllideb lithro i flwyddyn ariannol 2022/23. |

**3.2 Cronfeydd Wrth Gefn a Balansau Arian Parod –** mae balansau arian parod y Cyngor yn cynnwys adnoddau refeniw a chyfalaf a chyllid ar gyfer llif arian. Roedd adnoddau arian parod craidd y Cyngor fel a ganlyn:-

| Cronfeydd Wrth Gefn a Darpariaethau y gellir eu defnyddio | Drafft 31 Maw 22 £'m | Terfynol 31 Maw 21 £'m |
|---|---|---|
| Cronfa wrth gefn gyffredinol Cronfa'r Cyngor | 12.050 | 11.437 |
| Cronfeydd wrth gefn clustnodedig | 23.181 | 14.079 |
| Cronfa wrth gefn y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) | 12.333 | 9.723 |
| Cronfeydd wrth gefn ysgolion | 7.827 | 3.974 |
| Cronfeydd wrth gefn derbyniadau cyfalaf | 2.381 | 0.767 |
| **Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio** | **57.633** | **39.980** |
| | | |
| **Darpariaethau** | **5.143** | **5.047** |
| | | |
| **Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio a'r darpariaethau** | **62.915** | **45.027** |

**3.3 Allanoli benthyca –** Mae angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca ar gyfer gwariant cyfalaf yn cael ei alw yn Ofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC). Mae'r ffigwr hwn yn fesur o sefyllfa'r Cyngor o ran dyledion. Mae'r GCC yn deillio o weithgareddau cyfalaf y Cyngor a'r adnoddau a ddefnyddiwyd i dalu am y gwariant cyfalaf. Mae'n cynrychioli gwariant cyfalaf 2021/22 a gyllidwyd drwy fenthyca, a gwariant cyfalaf a gyllidwyd drwy fenthyca yn y blynyddoedd blaenorol nad ydyw eto wedi cael ei ad-dalu gyda refeniw neu adnoddau eraill. Rhan o weithgareddau trysorlys y Cyngor yw mynd i'r afael â'r gofynion cyllido ar gyfer yr angen benthyca hwn. Gan ddibynnu ar y rhaglen gwariant cyfalaf, mae'r Gwasanaeth Trysorlys yn trefnu arian parod y Cyngor er mwyn sicrhau bod arian parod digonol ar gyfer y cynlluniau cyfalaf a'r gofynion llif arian. Gallai hyn gael ei gyllido drwy fenthyca gan gyrff allanol (megis y Llywodraeth, drwy'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) neu'r marchnadoedd arian), neu drwy ddefnyddio adnoddau arian parod dros dro o fewn y Cyngor. Ni fenthycwyd unrhyw arian allanol yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22.

**3.3.1 Benthyca Gros a'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC) -** Er mwyn sicrhau bod y lefelau benthyca'n ddarbodus dros y tymor canol ac y benthycir at ddibenion cyfalaf yn unig, dylai'r Cyngor sicrhau nad yw ei fenthyca allanol gros, ac eithrio yn y tymor byr, yn uwch na chyfanswm y gofyniad cyllido cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol ynghyd ag amcangyfrif o unrhyw ofynion cyllido cyfalaf ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol nesaf. Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu nad yw'r Cyngor yn benthyca er mwyn cefnogi gwariant refeniw.

Mae'r strategaeth fenthyca fewnol bellach wedi bod ar waith yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae'r benthyca gros o £125.3m ar 31 Mawrth 2022 yn llai na'r GCC a ragwelir ar gyfer y ddwy flynedd nesaf:-

| | Gwirioneddol 2021/22 £'m | Amcangyfrif 2022/23 £'m | Amcangyfrif 2023/24 £'m |
|---|---|---|---|
| Gofyniad Cyllido Cyfalaf | 137.8 | 151.5 | 161.2 |

**3.3.2 Benthyca mewnol** - yw pan, dros y tymor canol, y disgwylir i'r cyfraddau buddsoddi barhau i fod yn is na'r cyfraddau benthyca tymor hir. Mae hyn yn golygu y byddai ystyriaethau gwerth am arian yn dangos y gellid cael gwerth am arian drwy osgoi cymryd benthyciadau allanol newydd a drwy ddefnyddio balansau arian parod mewnol i gyllido gwariant cyfalaf newydd, neu yn lle dyledion allanol sy'n aeddfedu. Byddai hyn yn sicrhau'r arbedion tymor byr gorau. Y ffigwr benthyca mewnol yw'r gwahaniaeth rhwng y GCC a'r Sefyllfa Benthyca Gros. Fel y gwelir o'r tabl isod, ar ddechrau'r flwyddyn, y sefyllfa fenthyca fewnol oedd £12.1m. Nid oedd unrhyw fenthyciadau PWLB newydd yn ystod y flwyddyn ac nid oedd angen ad-dalu unrhyw fenthyciad, a derbyniwyd benthyciad di-log o £0.991m yn ystod y flwyddyn (yn unol â 3.4 a 3.5 isod). Mae hyn yn golygu bod y sefyllfa benthyca mewnol ar 31 Mawrth 2022 yn £12.5m:-

| | **31 Mawrth 2021 Gwirioneddol £'m** | **31 Mawrth 2022 Gwirioneddol £'m** |
|---|---|---|
| Sefyllfa fenthyca gros | 124.5 | 125.3 |
| GCC | 136.6 | 137.8 |
| (Tan)gyllido / Gorgyllido'r GCC | (12.1) | (12.5) |

**3.4 Benthyciadau eraill** - Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth y Cyngor gymryd unrhyw fenthyciadau tymor byr eraill. Derbyniwyd benthyciad di-log o £0.991m yn ystod 2021/22 i gyllido gwariant cyfalaf ar brosiectau arbed ynni a bydd yn cael ei ad-dalu mewn rhandaliadau blynyddol.

**3.5 Ad-dalu Dyledion** – Nid oedd unrhyw fenthyciadau gan y PWLB yn adeddfedu yn ystod y flwyddyn. Nid oes unrhyw fenthyciadau tymor byr yn ddyledus.

**3.6 Buddsoddiadau –** Y strategaeth fuddsoddi ddisgwyliedig oedd cadw at adneuon tymor byrrach (hyd at 364 diwrnod), er y cedwid y gallu i fuddsoddi am gyfnodau hwy. Roedd disgwyl i falansau arian parod fod hyd at £52m, yn amrywio rhwng £25m a £52m. Gosodwyd y gyllideb ar gyfer llog ar £0.036m, ar ôl addasu ar gyfer gostyngiad posib yn y gyfradd yn 2021/22 a amcangyfrifwyd ar adeg paratoi'r gyllideb. Fel y digwyddodd, dychwelodd y balansau cyfartalog o £42.3m log o £0.019m, ar gyfradd llog cyfartalog o 0.046%. Mae buddsoddiadau cyfyngedig mewn Awdurdodau Lleol eraill a chyfraddau llog yn gostwng yn is na'r hyn a ragwelwyd pan luniwyd y gyllideb wedi cyfrannu at y gostyngiad hwn yn y llog a dderbyniwyd. Arhosodd enillion ar fuddsoddiadau yn agos at sero bron trwy gydol 2021/22. Llwyddodd y rhan fwyaf o fenthyciadau rhwng awdurdodau lleol i osgoi cyfraddau negyddol ac roedd twf parhaus mewn benthyca rhwng awdurdodau yn un o nodweddion y flwyddyn. Y disgwyliad ar gyfer cyfraddau llog yn y strategaeth rheoli trysorlys ar gyfer 2021/22 oedd y byddai'r Gyfradd Banc yn aros ar 0.1% nes y byddai'n glir i Fanc Lloegr nad oedd gofyn mwyach am y lefel cyfraddau brys a gyflwynwyd ar ddechrau'r pandemig Covid-19.

Ar 18 Mehefin 2021 aeddfedodd buddsoddiad o £5.0m gyda Chyngor Sir y Fflint, ac fe'i ad-dalwyd i Gyngor Sir Ynys Môn. Ar 23 Mehefin 2021, buddsoddodd Cyngor Sir Ynys Môn £5m gyda Chyngor Sir y Fflint gyda chyfradd llog o 0.03%. Aeddfedodd hwn ar 23 Medi 2021 ac fe'i ad-dalwyd i Gyngor Sir Ynys Môn.

Roedd rhai o adneuon y Cyngor mewn cyfrifon nad oes angen rhoi rhybudd ar gyfer tynnu arian allan ac maent yn talu llog ar gyfraddau sy'n agos i'r gyfradd sylfaenol ar y pryd, £38.616m ar 0.05% ar 31 Mawrth 2022 (31 Mawrth 2021 £20.066m ar 0.03%). Roedd un buddsoddiad tymor byr arall ar 31 Mawrth 2022 - £7.5m ar gyfradd llog o 0.77% (£5m ar 0.15% ar 31 Mawrth 2021). Roedd pob buddsoddiad am lai na blwyddyn.

**3.7 Sefyllfa'r Trysorlys ar 31 Mawrth 2022** – Mae sefyllfa dyledion a buddsoddi'r Cyngor yn cael ei threfnu gan y Gwasanaeth Rheoli Trysorlys er mwyn sicrhau hylifedd digonol ar gyfer y gweithgareddau refeniw a chyfalaf, diogelwch ar gyfer buddsoddiadau ac i reoli risgiau o fewn yr holl weithgareddau rheoli trysorlys. Mae gweithdrefnau a rheoliadau er mwyn cyflawni'r amcanion hyn wedi eu hen sefydlu drwy gyflwyno'r adroddiadau a nodir yn y crynodeb i Aelodau, a thrwy weithgareddau swyddogion yn unol â'r Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2021/22. Nid aethpwyd tu hwnt i'r terfynau uchaf ar gyfer cyfraddau sefydlog a chyfraddau amrywiol yn ystod y flwyddyn. Mae ffigyrau benthyca a buddsoddi'r Cyngor ar ddiwedd blynyddoedd ariannol 2020/21 a 2021/22 fel a ganlyn:-

| | 31 MAWRTH 2021 | | | 31 MAWRTH 2022 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'m** | **Cyfradd Gyfartalog (%)** | **Aeddfedrwydd Cyfartalog (blynyddoedd)** | **£'m** | **Cyfradd Gyfartalog (%)** | **Aeddfedrwydd Cyfartalog (blynyddoedd)** |
| Dyled i'r PWLB | 121.9 | 4.59 | 30.57 | 121.9 | 4.58 | 29.58 |
| Dyledion Eraill | 2.6 | 0 | 3.93 | 3.4 | 0 | 4.03 |
| **Cyfanswm** | **124.5** | | | **125.3** | | |
| GCC | 136.6 | | | 137.8 | | |
| Gor / (tan) fenthyca | (12.1) | | | (12.5) | | |
| Buddsoddiadau tymor sefydlog (pob un < 1 blwyddyn, wedi eu rheoli yn fewnol ac ar gyfradd sefydlog) | 5.000 | 0.15 | | 7.500 | 0.765 | |
| Buddsoddiadau di-rybudd (pob un wedi ei reoli yn fewnol) | 20.066 | 0.03 | | 38.616 | 0.05 | |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau** | **25.066** | **0.06** | | **46.116** | **0.17** | |

Dadansoddiad pellach o'r benthyca yn ôl y cyfnod aeddfedu:-

| | 31 MAWRTH 2021 | | 31 MAWRTH 2022 | |
|---|---|---|---|---|
| | **£'m** | **% o'r cyfanswm** | **£'m** | **% o'r cyfanswm** |
| Cyfanswm benthyca | 124.5 | 100 | 125.3 | 100 |
| Llai na 12 mis | 0.3 | 0.2 | 2.7 | 2.2 |
| 1 – 3 blynedd | 5.1 | 4.1 | 3.4 | 2.7 |
| 4 – 6 mlynedd | 4.5 | 3.6 | 4.5 | 3.6 |
| 7 – 10 mlynedd | 4.8 | 3.9 | 4.9 | 3.9 |
| 10 mlynedd a mwy | 109.8 | 88.2 | 109.8 | 87.6 |

Ni chymerwyd unrhyw fenthyciadau newydd yn ystod y flwyddyn (tymor hir na thymor byr) a disgrifiwyd y dyledion a ad-dalwyd ym mhwynt 3.5 uchod. Felly, mae'r symudiadau yn y categorïau uchod yn unol â dyddiadau aeddfedu'r benthyciadau yn unig.

## 4. Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor 2021/22

**4.1 Aildrefnu Dyledion** – Ni chafodd unrhyw ddyledion eu haildrefnu yn ystod y flwyddyn gan fod y gwahaniaeth o 1% ar gyfartaledd rhwng cyfraddau benthyca newydd y PWLB a chyfraddau ad-dalu cynamserol yn golygu nad oedd yn werth aildrefnu.

**4.2 Benthyca cyn bod angen** – Yn ystod y flwyddyn, ni chymerodd y Cyngor fenthyg mwy nag yr oedd ei angen, na chyn bod angen, dim ond er mwyn elwa ar fuddsoddi'r symiau ychwanegol a fenthycwyd.

**4.3 Polisi Buddsoddi** – Mae polisi buddsoddi'r Cyngor yn cael ei reoli gan ganllawiau buddsoddi Llywodraeth Cymru a roddwyd ar waith yn y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys blynyddol a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 9 Mawrth 2021. Mae'r polisi hwn yn nodi'r dull ar gyfer dewis gwrthbartïon buddsoddi, ac mae'n seiliedig ar statws credyd a ddyfarnwyd gan y tair prif asiantaeth statws credyd ac ar ddata ychwanegol mewn perthynas â'r farchnad (megis rhagolygon ar gyfer cyfraddau, cyfnewidiadau diffyg credyd, prisiau cyfranddaliadau banc ac ati). Roedd y gweithgareddau buddsoddi yn ystod y flwyddyn yn cydymffurfio â'r strategaeth a gymeradwywyd ac nid oedd gan y Cyngor unrhyw anawsterau hylifedd. Pan fydd y Cyngor yn buddsoddi ei arian dros ben, yr elfen bwysicaf yw diogelwch y buddsoddiad, ac yna pa mor hawdd yw cael gafael ar arian parod pe bai'r Cyngor ei angen ac wedyn canran y llog y bydd y Cyngor yn ei dderbyn am y buddsoddiad. Y strategaeth ar fuddsoddi arian parod dros ben fyddai benthyca tymor byr gydag Awdurdodau Lleol eraill i sicrhau'r enillion mwyaf mewn ffordd ddiogel.

**4.4 Strategaeth fenthyca a rheoli risg cyfraddau llog** – Yn ystod 2021/22, cynhaliodd y Cyngor sefyllfa o danfenthyca. Roedd hyn yn golygu nad oedd yr angen benthyca cyfalaf (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf) wedi'i gyllido'n llawn â dyled benthyciadau, gan fod arian pariod a oedd yn cefnogi cronfeydd wrth gefn, balansau a llif arian y Cyngor yn cael ei ddefnyddio fel cam dros dro. Roedd y strategaeth hon yn un ddarbodus gan fod enillion ar fuddsoddiadau yn isel iawn ac roedd angen ystyried lleihau risg gwrthbartïon wrth fuddsoddi hefyd.

**4.5 Polisi Darpariaeth Isaf Refeniw (MRP)** – Yn 2018/19, rhoddodd y Cyngor bolisi (MRP) newydd ar waith ar ôl gofyn am gyngor gan ei gynghorwyr Trysorlys ac ymgynghori â'r Archwilwyr Allanol. Mae'r polisi newydd yn ddull mwy darbodus o godi ar Refeniw am gostau Cyllido Cyfalaf. Gellir gweld y polisi newydd yn Atodiad 6 o'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2021/22, a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 9 Mawrth 2021.

## 5. Rheoli'r Trysorlys

Mae'r dangosyddion Darbodus canlynol wedi'u cynnwys yn Atodiad 11 o'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys. Gweler isod esboniad byr o beth yw'r dangosyddion a sut y byddant yn cael eu cyfrifo. Bydd Adran 6 yr adroddiad hwn yn dadansoddi'r gwahaniaethau rhwng y Dangosyddion Darbodus gwirioneddol a'r rhai a ragwelwyd ar gyfer 2021/22.

- **Gwariant Cyfalaf – Amcangyfrif o Wariant Cyfalaf –** Dyma'r rhagolwg o'r Gwariant Cyfalaf rhwng 2021/22 a 2024/25, ac mae'n seiliedig ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2021/22 a'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2022/23.

- **Angen y Cyngor i Fenthyca (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf)** - Dangosydd darbodus arall yw Gofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor (GCC). Yn syml, y GCC yw cyfanswm y gwariant cyfalaf hanesyddol sy'n weddill na thalwyd amdano eto, naill ai o adnoddau refeniw neu cyfalaf. Yn ei hanfod, mae'n cyfateb i angen benthyca sylfaenol y Cyngor. Bydd unrhyw wariant cyfalaf uwch na hynny, ac na thalwyd amdano'n uniongyrchol drwy adnoddau refeniw neu gyfalaf, yn cynyddu'r GCC. Nid yw'r GCC yn cynyddu am gyfnod amhenodol, gan fod y ddarpariaeth refeniw isaf (MRP) yn dâl refeniw blynyddol statudol sydd, yn fras, yn lleihau'r angen i fenthyca yn unol â hyd bywyd pob ased ac, felly, codir tâl am yr asedau cyfalaf fel y byddant yn cael eu defnyddio.

- **Doethineb Ariannol – Dyledion Gros a'r GCC –** Mae angen i'r Cyngor sicrhau nad yw ei ddyledion gros, ac eithrio yn y tymor byr, yn fwy na chyfanswm y GCC yn y flwyddyn flaenorol, ynghyd â'r amcangyfrif o unrhyw GCC ychwanegol ar gyfer 2021/22 a'r ddwy flynedd ariannol ganlynol. Mae hyn yn golygu bod peth hyblygrwydd ar gyfer benthyca cyfyngedig cynnar ar gyfer y blynyddoedd i ddod, ond mae'n sicrhau na fyddir yn benthyca at ddibenion refeniw.

- **Dyledion Allanol – Y trothwy awdurdodedig ar gyfer dyledion allanol –** Mae dangosydd darbodus allweddol arall yn cyfyngu lefel y benthyca i uchafswm penodol. Mae'n uchafswm na fedrir benthyca'n allanol y tu draw iddo ac mae angen i'r uchafswm hwn gael ei osod neu ei adolygu gan y Cyngor llawn. Mae'n adlewyrchu lefel y ddyled allanol, er nad yn ddelfrydol, y gellir ei gynnal yn y tymor byr, ond nad yw'n gynaliladwy yn y tymor hwy. Dyma'r cyfyngiad statudol y penderfynir arno o dan Adran 3 (1) Deddf Llywodraeth Leol 2003. Mae'r Llywodraeth yn cadw'r opsiwn i reoli naill ai cynlluniau'r holl gynghorau, neu gynlluniau cyngor penodol, er nad yw'r pŵer hwn wedi'i roi ar waith hyd yma. Mae'r Swyddog Adran 151 yn adrodd fod y Cyngor wedi cydymffurfio â'r dangosydd hwn yn ystod y flwyddyn gyfredol ac nad yw'n rhagweld anawsterau ar gyfer y dyfodol. Mae'r safbwynt hwn yn ystyried yr ymrwymiadau presennol, y cynlluniau presennol a'r cynigion yn yr ardroddiad ar y gyllideb. Mae'r Uchafswm Awdurdodedig yn cael ei osod yn flynyddol yn y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a bydd yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn.

- **Y terfyn gweithredol** – Dyma'r terfyn na ddisgwylir i ddyledion allanol fod yn uwch nag ef fel arfer. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai hwn yn ffigwr tebyg i'r GCC, ond gallai fod yn is neu'n uwch gan ddibynnu ar lefelau'r dyledion gwirioneddol a'r gallu i gyllido tanfenthyca drwy adnoddau parod eraill. Mae'n dderbyniol cael cyfnodau pan fo'r sefyllfa wirioneddol naill ai o dan neu uwchben y terfyn gweithredol ar yr amod nad eir y tu hwnt i'r terfyn awdurdodedig. Gosodir y Terfyn Gweithredol yn flynyddol yn y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a chaiff ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn.

- **Fforddiadwyedd – Y gymhareb rhwng costau cyllido a'r ffrwd refeniw net –** Mae'r dangosydd hwn yn nodi'r duedd yng nghost cyfalaf (benthyca a chostau rhwymedigaethau hirdymor eraill net o incwm o fuddsoddiadau) yn erbyn y llif refeniw net.

## 6. Y Dangosyddion Darbodus Gwirioneddol o gymharu â'r rhai a ddisgwyliwyd

**6.1** Yn ystod 2021/22, cydymffurfiodd y Cyngor â'i ofynion deddfwriaethol a rheoleiddio. Mae'r data allweddol ar gyfer y dangosyddion darbodus a'r dangosyddion trysorlys gwirioneddol, sy'n nodi effaith y gweithgareddau gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn, gyda chymaryddion, fel a ganlyn:-

| Data ar gyfer dangosyddion darbodus a thrysorlys gwirioneddol | 2020/21 Gwirioneddol £’m | 2021/22 Gwreiddiol £’m | 2021/22 Gwirioneddol £’m |
|---|---|---|---|
| **Gwariant Cyfalaf** | | | |
| • Dim CRT | 20.507 | 15.842 | 23.734 |
| • CRT | 12.622 | 20.313 | 9.723 |
| • **Cyfanswm** | **33.129** | **36.155** | **33.457** |
| **Cyfanswm Gofynion Cyllido Cyfalaf** | | | |
| • Dim CRT | 97.360 | 105.669 | 99.387 |
| • CRT | 39.200 | 40.415 | 38.415 |
| • **Cyfanswm** | **136.560** | **146.084** | **137.802** |
| **Benthyca Gros** | 124.524 | 140.991 | 125.349 |
| **Dyledion Allanol** | 124.524 | 140.991 | 125.349 |
| **Buddsoddiadau** | | | |
| • Hirach na blwyddyn | 0 | 0 | 0 |
| • Llai na blwyddyn | 25.066 | 15.000 | 46.116 |
| • **Cyfanswm** | **25.066** | **15.000** | **46.116** |
| | | | |
| Costau cyllido fel cyfran o’r llif refeniw net – Cronfa’r Cyngor | 4.75% | 4.78% | 4.55% |
| Costau cyllido fel cyfran o’r ffrwd refeniw net - CRT | 16.52% | 9.63% | 9.04% |

**6.2** Y Dangosydd Darbodus cyntaf yn y tabl uchod yw’r Gwariant Cyfalaf. Y Gwariant Cyfalaf a ragwelwyd ar adeg cynhyrchu’r Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2021/22 oedd £36.155m. Fodd bynnag, y gwir wariant oedd £33.457m. Roedd y dangosydd darbodus yn seiliedig ar y gyllideb gyfalaf a gymeradwywyd ar gyfer 2021/22 (£36.155m). Fodd bynnag, nid yw’r gyllideb hon yn cynnwys unrhyw symiau ar gyfer llithriad o’r flwyddyn flaenorol a, hefyd, y ffaith fod cynlluniau ychwanegol wedi’u hychwanegu i’r rhaglen gyfalaf drwy gydol y flwyddyn, a dyna pam fod gwariant cyfalaf nad yw’n ymwneud â’r CRT yn uwch na’r gyllideb wreiddiol. Dylid cyfeirio at baragraff 3.1 yn yr adroddiad hwn i weld y gyllideb gyfalaf derfynol nad yw’n ymwneud â’r CRT o gymharu â’r gwariant gwirioneddol a’r rhesymau am y tanwariant gwirioneddol yn erbyn y gyllideb. Mae tanwariant sylweddol ar wariant cyfalaf y CRT, yn bennaf oherwydd anhawster i brynu tai am bris sy’n bodloni’r meini prawf buddsoddi (roedd y gyllideb yn rhagdybio y byddai 15 o hen dai Cyngor yn cael eu prynu ond dim ond naw a brynwyd). Yn ogystal, bu i dri datblygiad sylweddol, y rhagwelwyd y byddai gwaith yn cychwyn arnynt yn 2021/22, wynebu oedi yn y broses ac ni fydd contractau adeiladu’n cael eu llofnodi yn awr hyd nes blwyddyn ariannol 2022/23.

**6.3** Yr ail ddangosydd Darbodus yn y tabl uchod yw’r Gofyniad Cyllido Cyfalaf. Ni chaniateir i angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca (GCC) godi am gyfnod amhenodol. Mae rheolaethau statudol wedi eu sefydlu er mwyn sicrhau bod asedau cyfalaf yn cael eu codi yn fras yn erbyn refeniw yn ystod oes yr ased. Mae angen i’r Cyngor godi tâl refeniw blynyddol, y cyfeirir ato fel y Ddarpariaeth Refeniw Isaf (MRP), er mwyn lleihau’r GCC. Yr hyn ydyw, mewn gwirionedd, yw ad-daliad o’r angen i fenthyca. Mae hyn yn wahanol i’r trefniadau rheoli trysorlys sy’n sicrhau bod arian parod ar gael er mwyn cwrdd ag ymrwymiadau cyfalaf. Gall dyledion allanol hefyd gael eu benthyca neu eu had-dalu ar unrhyw adeg, ond nid yw hyn yn newid y GCC. Gellir hefyd leihau cyfanswm y GCC drwy:-

- ddefnyddio adnoddau cyllido cyfalaf ychwanegol (megis derbyniadau cyfalaf sydd heb eu defnyddio); neu
- codi mwy na’r tâl refeniw statudol (MRP) bob blwyddyn drwy’r Ddarpariaeth Refeniw Gwirfoddol (VRP).

Y GCC a ragwelwyd ar adeg cynhyrchu'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2021/22 oedd £146.084m. Fodd bynnag, roedd y GCC gwirioneddol yn sylweddol is ar £137.802m. Y rheswm am y gostyngiad yng GCC y CRT yw tanwariant yn erbyn cyllideb y CRT, gan olygu na chymerwyd unrhyw fenthyciadau yn 2021/22 ar gyfer y CRT. Un rheswm bod y GCC nad yw'n ymwneud â'r CRT yn is oedd gostyngiad yn swm y Benthyca Digefnogaeth yr oedd ei angen mewn perthynas â'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn 2021/22. Cyllidwyd y gwariant gan grantiau yn bennaf, gan leihau'r angen i fenthyca. Rheswm arall oedd fod grantiau ychwanegol wedi'u dyfarnu yn ystod y flwyddyn i sybsideiddio ffynonellau cyllido eraill meigs Benthyca â Chefnogaeth. Roedd hyn yn golygu fod angen llai o Fenthyca â Chefnogaeth, gan ostwng y ffigwr GCC. Serch hynny, yn y dyfodol, defnyddir y ffynhonnell gyllido hon wedi'i sybsideiddio i gyllido Gwariant Cyfalaf yn 2022/23 a bydd yn cynyddu'r GCC.

**6.4** Nid aethpwyd tu hwnt i'r Terfyn Benthyca Awdurdodedig (£183m) na'r Terfyn Gweithredol (£178m) yn ystod y flwyddyn, gyda swm y ddyled Allanol yn cyrraedd uchafswm o ddim ond £125.362m.

**6.5** Roedd y costau Cyllido, fel cyfran o'r llif refeniw net ar gyfer y Gronfa Gyffredinol (4.55%), yn agos iawn at y cyfanswm a ragwelwyd (4.78%), gan olygu bod y dangosydd hwn wedi perfformio'n ôl y disgwyl, ac yn debyg i'r flwyddyn flaenorol hefyd. Roedd y costau cyllido, fel cyfran o'r llif refeniw net ar gyfer y CRT (9.04%), yn is na'r cyfanswm a ragwelwyd (9.63%), oherwydd bod y costau cyllido yn is a'r llif refeniw net hefyd yn is na'r disgwyl ar adeg cynhyrchu'r dangosydd arfaethedig ar gyfer 2021/22. Gostyngodd y tanwariant ar y CRT swm y cyfraniadau Refeniw sydd eu hangen i gyllido'r rhaglen gyfalaf yn 2021/22, o £17.9m i £4.3m.

## 7. Edrych ymlaen at 2022/23 a thu draw i hynny

**7.1** Ar 10 Mawrth 2022, cymeradwyodd y Cyngor llawn y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2022/23. Roedd y Datganiad ar y Strategaeth yn seiliedig ar y Strategaeth Gyfalaf a rhagwelir y bydd angen i'r Cyngor fenthyca £14.7m yn ychwanegol yn 2022/23 ar gyfer y Gronfa Gyffredinol a'r CRT, cyfanswm o £14.4m yn 2023/24 a chyfanswm pellach o £10.8m yn 2024/25 i gyllido ei Raglen Gyfalaf. Bydd y benthyca ychwanegol hwn yn effeithio ar y Gronfa Gyffredinol a bydd y Ddarpariaeth Refeniw Isaf (MRP) yn codi er mwyn cyllido'r costau cyllido cyfalaf. Yn 2022/23, rhagwelir y bydd yr MRP yn £4.2m, £4.5m yn 2023/24 a £4.7m yn 2024/25.

**7.2** Ar 11 Ebrill 2022, buddsoddodd Cyngor Sir Ynys Môn £10m gyda NatWest, gyda chyfradd llog o 1.3%. Mae'r buddsoddiad hwn am 6 mis.

**7.3** Ar 10 Mai 2022, buddsoddodd Cyngor Sir Ynys Môn £7.5m gyda Santander, gyda chyfradd llog o 1.47%. Mae'r buddsoddiad hwn am 6 mis.

**7.4** Ar 17 Mai 2022, buddsoddodd Cyngor Sir Ynys Môn £7.5m gyda Chymdeithas Adeiladu Nationwide gyda chyfradd llog o 0.97%. Aeddfedodd y buddsoddiad ar 17 Awst 2022 a chafodd y buddsoddiad ei ddwyn ymlaen am 3 mis pellach gyda chyfradd llog o 1.87%.

**7.5** Ar 22 Gorffennaf 2022, aeddfedodd buddsoddiad o £7.5m gyda Goldman Sachs, a chafodd ei ddwyn ymlaen am 5 mis pellach gyda chyfradd llog o 2.18%.

**7.6** Ar 19 Awst 2022, ad-dalodd Cyngor Sir Ynys Môn fenthyciad o £1m gan y PWLB. Cymerwyd y benthyciad ar 3 Gorffennaf 2007, gyda chyfradd llog o 8.5%. Mae swm pellach o £1.285m i'w ad-dalu yn ddiweddarach yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23.

**7.7** Roedd y gyllideb o £5k ar gyfer llog i'w dderbyn a osodwyd ar gyfer 2022/23 yn seiliedig ar y llog a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol, ac roedd yn ystyried y cyfraddau llog isel, buddsoddiadau cyfyngedig mewn Awdurdodau Lleol eraill a'r ffaith fod enillion ar fuddsoddiadau yn parhau i fod yn agos at sero pan luniwyd y gyllideb llog i'w dderbyn ar gyfer 2022/23. Fodd bynnag, gyda chyfraddau llog yn codi uwchlaw'r hyn a ragwelwyd pan luniwyd cyllideb 2022/23, gan gynnig mwy o gyfleoedd i fuddsoddi arian parod dros ben, roedd llog a dderbyniwyd yn ystod chwarter 1 2022/23 yn £78k, a disgwylir y bydd swm pellach o £225k yn cael ei dderbyn o fuddsoddiadau cyfredol, gan olygu bod yr amcangyfrif diwygiedig ar gyfer llog i'w dderbyn yn 2022/23 yn £404k.

**7.8** Gellir gweld y rhagolygon diweddaraf ynghylch cyfraddau llog gan Link Assets Services yn y tabl isod:-

| Link Group Interest Rate View | 09.08.22 | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Sep-22 | Dec-22 | Mar-23 | Jun-23 | Sep-23 | Dec-23 | Mar-24 | Jun-24 | Sep-24 | Dec-24 | Mar-25 | Jun-25 | Sep-25 |
| BANK RATE | 2.25 | 2.50 | 2.75 | 2.75 | 2.75 | 2.50 | 2.50 | 2.25 | 2.25 | 2.25 | 2.25 | 2.25 | 2.00 |

## 8. Casgliad

Roedd perfformiad Rheoli Trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn yn unol â'r strategaeth o fuddsoddiadau risg isel / enillion isel a dull benthyca a ddyluniwyd i leihau ffioedd llog i'r eithaf.

Mae'r perfformiad yn erbyn y Dangosyddion Darbodus a osodwyd gan y Cyngor, yn dangos bod gweithgareddau Rheoli Trysorlys y Cyngor yn cael eu cynnal mewn ffordd reoledig sy'n sicrhau diogelwch ariannol y Cyngor ac nad ydynt yn rhoi'r Cyngor mewn unrhyw berygl ariannol sylweddol o ran benthyca anfforddiadwy neu ormodol.

Mae Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor, a'i berfformiad yn erbyn y strategaeth, yn ystyried y ffactorau economaidd allanol ac mae'n cael ei hadolygu'n gyson i sicrhau mai hon yw'r strategaeth fwyaf priodol wrth symud ymlaen.

**R MARC JONES**
**CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU A**
**SWYDDOG ADRAN 151**

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **PWYLLGOR GWAITH** |
| Dyddiad: | **29 TACHWEDD 2022** |
| Pwnc: | **MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW, CHWARTER 2 2022/23** |
| Aelod(au) Portffolio: | **Y CYNGHORYDD ROBIN WYN WILLIAMS – DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID, BUSNES CORFFORAETHOL A PHROFIAD Y CWSMER** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU)** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost: | **CLAIRE KLIMASZEWSKI, RHEOLWR CYLLID**<br>01248 752133<br>ClaireKlimaszewski@ynysmon.llyw.cymru |
| Aelodau Lleol: | **Amherthnasol** |

## A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

**1.** Ar 10 Mawrth 2022, gosododd y Cyngor gyllideb net ar gyfer 2022/23 gyda gwariant net y gwasanaethau o £158.365m, i gael ei gyllido o incwm y Dreth Gyngor, Trethi Annomestig a grantiau cyffredinol. Mae hyn yn cynnwys cyfanswm o £3.109m ar gyfer eitemau cyffredinol ac eitemau na chynlluniwyd ar eu cyfer. Gosodwyd cyllideb o £1.950m ar gyfer Premiwm y Dreth Gyngor, sef cynnydd o £0.436m. Gosodwyd cyllideb gytbwys gyda'r cynnydd o 2% y cytunwyd arno yn y Dreth Gyngor.

**2.** Fel y llynedd, nid yw'r gyllideb ar gyfer 2022/23 yn cynnwys unrhyw ofynion i wasanaethau wneud arbedion. Roedd y cynnydd o 9.2% yn y cyllid gan Lywodraeth Cymru'n gynnydd i'w groesawu, ond roedd rhaid i'r Cyngor ymrwymo i gynyddu cyllidebau mewn nifer o feysydd, yn cynnwys gofal cymdeithasol a digartrefedd. Yn ogystal, mae cymorth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwariant yn gysylltiedig â Covid wedi dod i ben, ac mae unrhyw gostau o'r fath yn cael eu cyllido o gyllidebau craidd y Cyngor.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar ddiwedd chwarter 2, 30 Medi 2022. Mae'r sefyllfa a ragwelir ar gyfer y flwyddyn gyfan yn cael ei chrynhoi hefyd. Dylid nodi fod rhagweld y sefyllfa derfynol ar ddiwedd y flwyddyn yn parhau i fod yn anodd ar ddiwedd chwarter 2, a gall y sefyllfa newid yn sylweddol wrth i weddill y flwyddyn ariannol fynd rhagddi. Mae hyd yn oed yn anoddach darogan y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon, 2022/23, oherwydd bod chwyddiant a chostau tanwydd yn codi, y ffaith na chytunwyd ar ddyfarniad cyflog staff ar gyfer 2022/23 tan ddechrau mis Tachwedd 2022, y posibilrwydd o gostau yn gysylltiedig â Covid wrth i ni symud i fisoedd y gaeaf a'r effaith a gaiff yr argyfwng costau byw ar y galw am wasanaethau'r Cyngor. Nid yw'r amcangyfrif o'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn yn ystyried y dyfarniadau cyflog arfaethedig ar gyfer athrawon (o fis Medi 2022) a staff arall (wedi'i ôl-ddyddio i fis Ebrill 2022). Pan fydd y costau hyn yn hysbys, byddant yn cael eu cynnwys yn yr amcangyfrifon yn y dyfodol. Crëwyd cronfa wrth gefn glustnodedig gwerth £2.2m er mwyn darparu cyllid ychwanegol i gwrdd â'r pwysau chwyddiant yma, ond efallai na fydd yn ddigon i gyllido'r holl gostau ychwanegol y bydd rhaid i'r Cyngor eu talu yn ystod y misoedd nesaf. Os bydd y cystau yn uwch na'r gronfa wrth gefn glustnodedig, bydd rhaid cyllido'r swm ychwanegol o falensau cyffredinol y Cyngor.

**3.** Yn ogystal, nid yw'r ffigyrau hyn yn ystyried pwysau'r gaeaf. Yn hanesyddol, mae pwysau'r gaeaf i'w weld yn y gwasanaethau Priffyrdd ac Oedolion, a gall fod yn anodd mesur y costau ychwanegol y gellir mynd iddynt mor fuan â hyn yn y flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, yn 2022/23, bydd pwysau;r gaeag yn ymestyn i wasanaethau arall wrth i'r argyfwng costau byw ddwysau, e.e. digartrefedd, cymorth ariannol a chyngor dyled. Bydd y rhagolygon a'r costau llawn yn cael eu nodi yn yr adroddiadau monitro ar gyfer chwarter 3 a chwarter 4, yn y drefn honno.

Y sefyllfa ariannol gyffredinol a ragwelir ar gyfer 2022/23, gan gynnwys Cyllid Corfforaethol a chronfa'r Dreth Gyngor, yw tanwariant o £1.128m. Mae hyn yn 0.71% o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2022/23. Fodd bynnag, mae ansicrwydd sylweddol dros y sefyllfa derfynol oherwydd y rhesymau a nodwyd yn 2 a 3 uchod. Yn ogystal, rhagwelir y tanwariant ond ar ôl defnyddio dros £3m o gronfeydd wrth gefn y Cyngor i gyllido pwysau ychwanegol yng Ngofal Cymdeithasol ac i gyllido'r cynnydd yng nghostau cyflog a chwyddiant arall, ac ar ôl derbyn cyllid grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru tuag at gostau cynyddol Gofal Cymdeithasol.

**4.** Er bod y prif ffigwr rhagolwg yn awgrymu bod y Cyngor mewn sefyllfa ariannol iach ar hyn o bryd yn2022/23, nid yw hyn yn adlewyrchiad cywir o'r sefyllfa.

- Yn gyntaf, mae angen ystyried y costau ychwanegol (cyflog ac ynni) yn y rhagolwg;
- Bydd chwyddiant uwch yn golygu y bydd y Cyngor yn wynebu prisiau uwch yn ystod ail hanner y flwyddyn ar y mwyafrif o nwyddau a gwasanaethau a brynir;
- Mae misoedd y gaeaf yn hanesyddol yn cynyddu costau a galw am wasanaethau (Gwasanaethau Oedolion, Cynnal a Chadw Priffyrdd ac Atal Digartrefedd);
- Mae'r argyfwng costau byw yn cynyddu'r galw am wasanaethau'r Cyngor yn gyffredinol.

Mae'n debygol iawn felly fod y rhagolwg yn or-optimistaidd ac y bydd y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn nes at adennill costau neu o bosib bydd gorwariant at y gyllideb. Mae'r sefyllfa sylfaenol, ar ôl defnyddio'r cronfeydd wrth gefn a chyllid grant ychwanegol, yn sylweddol waeth gyda diffyg sylfaenol o dros £4m y bydd yn rhaid mynd i'r afael ag ef wrth bennu cyllideb 2023/24. Bydd y diffyg hwn yn y gyllideb, yn ogystal â chwyddiant uchel parhaus, cwmpas cyfyngedig ar gyfer cyllid ychwanegol a chynnydd yn y galw am wasanaethau yn golygu bod gosod y gyllideb ar gyfer 2023/24 yn hynod heriol gyda rhagolygon gwirioneddol o ostyngiadau yng nghyllidebau gwasanaethau er mwyn galluogi'r Cyngor i osod cyllideb gytbwys

**5.** Argymhellir y dylid:-

**(i)** Nodi'r sefyllfa a amlinellir yn Atodiadau A a B mewn perthynas â pherfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma, a'r alldro disgwyliedig ar gyfer 2022/23;

**(ii)** Nodi'r crynodeb o'r cyllidebau wrth gefn ar gyfer 2022/23, fel y manylir arnynt yn Atodiad C;

**(iii)** Nodi'r modd y caiff costau asiantaethau ac ymgynghorwyr eu monitro yn 2022/23 yn Atodiadau CH a D;

**(iv)** Cymeradwyo trosglwyddo £100k o'r tanwariant ar gyfer cynyddu capasiti band llydan mewn ysgolion i gronfa wrth gefn clustnodedig ar gyfer gwelliannau band llydan yn 2023/24. Gohiriwyd y gwaith eleni er mwyn cwblhau prosesau caffael priodol;

## B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Amherthnasol

## C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae'r mater hwn wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

## Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi

## D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ydi

## Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol)

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys | Mae hwn yn adroddiad ar gyfer monitro yn unig ac mae'n cael ei ddefnyddio gydag adroddiadau eraill i osod y strategaeth ariannol tymor canolig a'r gyllideb flynyddol. Wrth osod y gyllideb flynyddol, bydd anghenion tymor hir yr Ynys yn cael eu hasesu. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut?- | Amherthnasol |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy: | Amherthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith uniongyrchol arnynt. Esboniwch sut:- | Ymgynghorwyd â dinasyddion Ynys Môn fel rhan o broses gosod cyllideb 2022/23 ac ymgynghorir â nhw ynghylch cyllidebau yn y dyfodol. |
| 5 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amherthnasol |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amherthnasol |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Amherthnasol |

| **E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth wedi ystyried yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 7 Tachwedd 2022 ac ymgorfforwyd eu sylwadau yn yr adroddiad. |
| 2 | Cyllid / Adran 151 (gorfodol) | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog 151 yw hwn. |
| 3 | Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro'n aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth. |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Amherthnasol |
| 5 | Eiddo | Amherthnasol |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | Amherthnasol |
| 7 | Caffael | Amherthnasol |
| 8 | Sgriwtini | Adolygwyd y sefyllfa ariannol ar ddiwedd chwarter 1 gan y Panel Sgriwtini Cyllid yn ei gyfarfod ar 10 Tachwedd 2022. |
| 9 | Aelodau Lleol | Amherthnasol |

**F - Atodiadau:**

- Atodiad A – Adroddiad Alldro Refeniw Dros Dro ar gyfer 2022/23
- Atodiad B – Tabl o'r Alldro Dros Dro ar gyfer 2022/23
- Atodiad C – Crynodeb o'r Cyllidebau Wrth Gefn ar gyfer 2022/23
- Atodiad CH – Gwybodaeth ynghylch monitro Staff Asiantaeth 2022/23
- Atodiad D – Gwybodaeth ynghylch monitro Ymgynghorwyr 2022/23

**Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

Cyllideb Refeniw 2022/23 (fel y cafodd ei hargymell gan y Pwyllgor hwn ar 1 Mawrth 2022 a'i mabwysiadu gan y Cyngor Sir ar 10 Mawrth 2022).

**ATODIAD A**

## MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW – CHWARTER 2

### 1. Balans Cyffredinol

Roedd gan Gronfa'r Cyngor gronfeydd wrth gefn clustnodedig o £23.181m a chronfeydd wrth gefn yr ysgolion gwerth £7.827m ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Arweiniodd yr alldro drafft ar gyfer 2021/22 at falans cyffredinol o £12.050m ar gychwyd y flwyddyn ariannol gyfredol. Roedd hyn yn well na'r balans agoriadol ar gyfer y flwyddyn flaenorol, 2020/21, pan roedd y balans cyffredinol yn £11.437m. Cyfrannodd y tanwariant drafft o £4.798m at hyn a'r symudiadau yn y cronfeydd wrth gefn, megis dychwelyd cronfeydd clustnodedig nid oedd eu hangen mwyach. Fodd bynnag, gallai hyn newid ac mae disgwyl unrhyw newidiadau ar ôl cwblhau'r archwiliad ym mis Rhagfyr 2022 neu'n gynnar yn y flwyddyn newydd.

Mae sefyllfa'r balansau cyffredinol ar ddiwedd y chwarter fel a ganlyn:-

| | Swm £'m | Pwrpas |
|---|---|---|
| Balans agoriadol drafft | (12.050) | Cronfa gyffredinol archwiliedig ddrafft ar 31 Mawrth 2022 |
| Cyllid ychwanegol ar gyfer Cynnal a Chadw Priffyrdd | 0.500 | Yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor Gwaith ar 3 Mawrth 2022 |
| Trosglwyddo cyllid i Gronfeydd Wrth Gefn Gwasanaethau penodol | 0.261 | Yn unol â'r polisi Cronfeydd Wrth Gefn Gwasanaethau a gymeradwywyd yn 2019/20 |
| **Balans Diwygiedig Cronfa Gyffredinol y Cyngor** | **(11.289)** | **Gall y ffigwr hwn newid yn dilyn archwilio Cyfrifon 2021/22** |

Yr alldro presennol a ragwelir ar gyfer 2022/23 yw tanwariant o £1.128m, gan olygu y byddai balans y Gronfa Gyffredinol yn cynyddu i £12.417m ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi gosod isafswm o £7.9m ar gyfer y balansau cyffredinol yn 2022/23, sef 5% o gyllideb refeniw net 2022/23. Mae unrhyw falansau uwchlaw'r ffigwr hwn yn darparu lefel uwch o wydnwch ariannol pe byddai'r sefyllfa ariannol yn gwaethygu yn ystod ail hanner y flwyddyn, ac mae'n golygu bod modd defnyddio cronfeydd wrth gefn i gynorthwyo gyda chyllideb 2023/24 os bydd angen.

Mae'r Cyngor eisoes wedi clustnodi cronfeydd wrth gefn ar gyfer y risgiau hysbys (cynnal a chadw priffyrdd yn y gaeaf, ffioedd addysg allsirol) ac, yn ogystal, crëwyd cronfeydd wrth gefn clustnodedig ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2021/22 i gyllido costau uwch yng Ngofal Cymdeithasol (£1.1m) a lefel cyffredinol chwyddiant (£2.25m). Trafodir digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn yma nes ymlaen yn yr adroddiad yma, ond mae eu creu wedi helpu i liniaru'r risg o orwariant a'r angen i ddyrannu balansau cyffredinol i gyllido'r gorwariant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

### 2. Pwysau Ychwanegol ar y Gyllideb yn ystod gweddill y Flwyddyn Ariannol

Gosodwyd cyllideb 2022/23 cyn i lefel chwyddiant cyffredinol gynyddu'n sylweddol a'r pwysau yn sgil hynny am godiadau cyflog uwch na'r swm a ganiatawyd yn y gyllideb. Crëwyd cronfa glustnodedig gwerth £2.25m i ddarparu cyllid ychwanegol i gwrdd â chynnydd mewn costau, ond efallai na fydd y gronfa hon yn ddigonol yn awr i gwrdd â phwysau cynyddol ar gostau, a chyflogau'n benodol.

Roedd y gyllideb wreiddiol yn caniatáu swm o thua £2.3m i gwrdd â dyfarniadau cyflog ar gyfer athrawon a staff arall. Mae'r cynnig cyfredol ar gyfer staff nad ydynt yn athrawon, sef £1,925 ar gyfer pob gweithiwyr (a gytunwyd ym mis Tachwedd 2022), yn golygu codiad cyflog cyfartalog o 7.5%, a bydd yn arwain at £3.8m o gynnydd yn y gyllideb cyflogau. Bydd y cynnig o 5% i athrawon o fis Medi 2022 (na chytunwyd arno eto) yn golygu cynnydd o £926k yn y bil cyflogau athrawon, ac mae hyn £572k yn uwch nag y caniatawyd yn y gyllideb. O ganlyniad, bydd angen £2.4m yn ychwanegol i gyllido'r dyfarniadau cyflog os bydd y cynnig presennol yn cael ei dderbyn. Mae'r sefyllfa gyllido'n cael ei chrynhoi yn Nhabl 1 isod.

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi eu bod yn gwrthdroi'r cynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol, a ddaeth i rym ym Ebrill 2022. Daw'r gwrthdroad yma'n berthnasol o Tachwedd 2022 a dylid arwain at ostyngiad yng nghyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwr y Cyngor o £260k.

**Tabl 1 – Cyllido Dyfarniadau Cyflog 2022/23**

| | Staff nad ydynt yn Athrawon<br>£ | Athrawon<br>£ | Cyfanswm<br>£ |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm Cost y Dyfarniad Cyflog | 3,853,230 | 925,930 | 4,728,970 |
| Chwyddiant y caniatawyd ar ei gyfer yng Nghyllideb 2022/23 | (1,946,986) | (354,860) | (2,301,846) |
| Gostyngiad yng Nghyfraniadau YG Cyflogwr | (162,670) | (97,830) | (260,050) |
| **Diffyg yn y Gyllideb** | **1,743,574** | **473,690** | **2,217,264** |

Yn ogystal â chynnydd mewn cyflogau, mae'r Cyngor yn wynebu costau uwch mewn nifer o feysydd oherwydd lefel uchel chwyddiant. Mae'r Cyngor yn dal i ddisgwyl am y prisiau ynni terfynol, a fydd yn weithredol o fis Hydref 2022. Mae'n debygol y bydd y cynnydd yn sylweddol, a rhagwelir cynnydd o 160% ym mhrisiau nwy a chynnydd o dros 60% ym mhrisiau trydan. Mae'r gyllideb trydan a nwy ar gyfer ysgolion yn £1.45m a'r gost ar gyfer holl wasanaethau eraill y Cyngor yw £1.12m. Rhagwelir y bydd y cynnydd disgwyliedig mewn prisiau yn arwain at gynnydd o thua £1.1m mewn costau yn ystod ail hanner y flwyddyn ariannol, er bod llawer yn dibynnu ar ba mor oer fydd y gaeaf. Os yw'r cyfan o'r gronfa wrth gefn ar gyfer Chwyddiant yn cael ei defnyddio ar gyfer y dyfarniadau cyflog ychwanegol, byddai'n rhaid cyllido'r costau ynni ychwanegol o falansau cyffredinol y Cyngor.

## 3. Perfformiad Ariannol fesul Gwasanaeth

**3.1** Mae manylion y perfformiad ariannol fesul gwasanaeth am y cyfnod a'r alldro a ragwelir ar eu cyfer wedi'u nodi yn Atodiad B. Rhagwelir gorwariant o £0.385m ar wasanaethau ar 31 Mawrth 2023 (nid yw hyn yn cynnwys effaith y dyfarniad cyflog na'r cynnydd ym mhrisiau ynni). Rhagwelir tanwariant o £0.750m ar Gyllid Corfforaethol. Yn ogystal, rhagwelir y bydd incwm y Dreth Gyngor £0.372m yn uwch na'r disgwyl, a bydd incwm premiwm y Dreth Gyngor hefyd £0.391m yn uwch. Ar hyn o bryd, rhagwelir tanwariant o £1.128m yn y gyllideb refeniw, sef 0.71% o gyllideb refeniw net y Cyngor.

**3.2** Mae Tabl 3 isod yn crynhoi'r amrywiadau sylweddol (tua £100k neu fwy):-

**Tabl 3**

| Gwasanaeth | (Tan) / Gorwariant<br>£'000 | Alldro fel % o'r gyllideb<br>£'000 |
|---|---|---|
| Oedolion | 313 | 1% |
| Gwasanaethau Plant | 1,048 | 9% |
| Priffyrdd | (213) | 3% |
| Gwastraff | (965) | 11% |
| Trawsnewid | (232) | 4% |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | 200 | 7% |
| Cyllid Corfforaethol | (750) | 4% |
| Costau nad oes cyllideb ar eu cyfer ac nad oes modd eu rheoli – (darpariaeth ar gyfer dyledion drwg / lwfans colled oherwydd amhariad, costau cyfalaf pensiynau, yswiriant, premiwm ar ail-gyllido hanesyddol) | 400 | 100% |
| Cyllid | (763) | 0% |
| Arall (cyfanswm yr amrywiadau gwerth llai na £100k) | (166) | |
| **Cyfanswm** | **(1,128)** | **0.71%** |

## 4. Esboniad o'r Amrywiadau Sylweddol

### 4.1 Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc

#### 4.1.1 Cyllidebau Datganoledig Ysgolion

Ar ôl i'r Cyngor osod y gyllideb ar gyfer ysgolion, mae cyfrifoldeb am y gyllideb yn cael ei ddatganoli i'r ysgolion ac mae unrhyw dan neu orwariant blynyddol yn cael ei ddal yng nghronfeydd wrth gefn ysgolion unigol. Ar hyn o bryd, cyfanswm balansau ysgolion yw £7.827m, o gymharu â £3.974m ar 31 Mawrth 2021. Fodd bynnag, derbyniodd ysgolion grantiau gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth ar gyfer gwariant a oedd wedi digwydd yn barod gan olygu nad oedd eu cyllidebau craidd wedi cael eu gwario. Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, bydd ysgolion yn adfer o effeithiau'r pandemig a rhagwelir y bydd balansau ysgolion yn disgyn yn sylweddol erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2022/23 wrth i adnoddau ychwanegol gael eu defnyddio i gynorthwyo disgyblion i ddal i fyny yn dilyn cyfnodau pan oedd ysgolion ar gau.

#### Addysg Ganolog

**4.1.2** Roedd tanwariant o £44k (1.62%) yn y gwasanaeth hwn ar ddiwedd chwarter 2, a rhagwelir tanwariant o £78k (1.46%) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn well na'r gorwariant o £81k ar gyfer 2022/23 a ragwelwyd yn chwarter 1.

**4.1.3** Mae nifer o feysydd yn gor a thanwario ar draws y Gwasanaeth. Rhestrir y rhai mwyaf isod:-

- Cludiant Ysgol (Tacsis a Bysiau) – rhagwelir gorwariant o £500k. Mae'n gynnydd sylweddol o gymharu â'r gorwariant o £118k a nodwyd yn chwarter 1. Mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei arwain gan y galw ac, oherwydd y galw cynyddol am dacsis, mae'r gorwariant yn parhau. Dyranwyd cyllideb ychwanegol yn ystod y flwyddyn ariannol hon, ond mae'r gorwariant yn parhau. Yn ogystal, rhoddwyd cymorth ychwanegol i gwmnïau Tacsi a Bysiau oherwydd y cynnydd yng nghostau tanwydd, ac mae hyn wedi cyfrannu at y gorwariant hefyd. Mae angen nodi bod yr holl gontractau bysiau ysgol wedi eu hail-dendro ym mis Hydref, ac mae'r rhagolwg yn seiliedig ar y prisiau newydd. Bydd contractau tacsis ysgol yn cael eu hail-dendro ym mis Ionawr 2023, ac nid yw'r rhagolwg yn seiliedig ar unrhyw newid yn y prisiau, felly, gallai'r gorwariant newid yn sylweddol erbyn diwedd y flwyddyn.

- Rhagwelir tanwariant o £100k yn y gyllideb TGCh mewn ysgolion ar 31 Mawrth 2023. Mae'r gyllideb hon ar gyfer cynyddu capasiti band llydan mewn ysgolion. Mae oedi yn y prosiect tra bod prosesau caffael yn cael eu cwblhau, ond bydd angen y cyllid hwn yn 2023/24. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith ystyried cymeradwyo trosglwyddo'r tanwariant hwn i gronfa wrth gefn clustnodedig er mwyn cyllido'r gwaith o ehangu band llydan yn 2023/24.

- Roedd llai o alw am y gyllideb lleoliadau allsirol yn 2021/22, felly, mae'r gyllideb ar gyfer 2022/23 yn llai na chyllideb 2021/22. Rhagwelir tanwariant o £77k ar leoliadau allsirol. Mae hyn £16k yn is na'r amcangyfrif yn chwarter 1. Wrth i'r flwyddyn ariannol fynd rhagddi, gallai nifer y plant sydd angen lleoliadau allsirol ddechrau cynyddu, a bydd hynny'n effeithio ar y tanwariant a ragwelir. Fodd bynnag, mae cronfa wrth gefn clustnodedig o £500k ar gael i gwrdd ag unrhyw gostau ychwanegol o ganlyniad i gynnydd yn y galw.

- Rhagwelir diffyg o £64k yn y targed incwm ar gyfer Clwb Gofal Plant. Unwaith eto, mae'r gyllideb hon yn cael ei harwain gan y galw ac nid yw'r niferoedd sy'n mynychu'r clybiau wedi dychwelyd i'r lefelau a welwyd cyn y pandemig.

- Rhagwelir tanwariant o £486k yn y gyllideb Addysg Ganolog, ac mae hyn yn gynnydd sylweddol o gymharu â thanwariant o £103k a ragwelwyd yn ystod chwarter 1. Y rheswm pennaf am hyn yw tanwariant yn y gyllideb ar gyfer penodi Rheolwyr Busnes Ysgolion (dyrannwyd cyllideb o £300k), ac nid oes sicrwydd y bydd hyn yn digwydd yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Mae hefyd tanwariant o £51k ar swydd a fu'n wag ers mis Ebrill, ond mae'r swydd wedi'i llenwi yn awr. Rhagwelir tanwariant ar ymgynghorwyr (£19k).

- Mae tanwariant bychan mewn nifer o benawdau eraill yn y gyllideb hefyd.

#### 4.1.4 Diwylliant

**4.1.4.1** Roedd tanwariant o £112k (14.03%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod. Fodd bynnag, rhagwelir gorwariant o £15k (1.18%) yn y gwasanaeth hwn ar ddiwedd y flwyddyn. Disgwylir i'r gorwariant a ragwelir ar gyfer Amgueddfeydd ac Orielau godi o £29k i £65k. Y rheswm am hyn yw diffyg mewn incwm ffioedd a thaliadau. Gallai costau cyfleustodau, gwaith trwsio a chynnal a chadw ychwanegu £20k arall i'r gorwariant. Mae tanwariant ar staffio ac mae hynny'n lliniaru'r gorwariant yn y gyllideb Amgueddfeydd ac Orielau.

**4.1.4.2** Rhagwelir tanwariant o £55k ar Lyfrgelloedd oherwydd nifer o swyddi gweigion, gan gynnwys y gwasanaeth llyfrgell symudol. Mae tanwariant o £85k ar staff, fodd bynnag, mae diffyg o £30k mewn incwm gan ysgolion yn gostwng y tanwariant cyffredinol i £55k. Yn ogystal, rhagwelir gorwariant o £5k ar grantiau diwylliant erbyn diwedd y flwyddyn.

### 4.2 Gofal Cymdeithasol Oedolion

**4.2.1** Roedd gorwariant o £542k (4.36%) yn y gwasanaeth hwn ar gyfer y cyfnod, ond disgwylir i hyn ostwng i orwariant o £313k (1.05%) ar gyfer blwyddyn 2022/23. Mae hyn yn welliant sylweddol o gymharu â'r gorwariant o £753k a nodwyd yn chwarter 1. Y rheswm am y gwelliant yw bod grantiau allanol ar gael i gyllido costau cymwys, ynghyd â chyllid o'r gronfa wrth gefn pwysau gofal cymdeithasol.

**4.2.2** Roedd yr elfennau yn yr amrywiad yn yr alldro fel a ganlyn:-

- Gwasanaethau ar gyfer yr henoed: Rhagwelir gorwariant sylfaenol o £308k. Fodd bynnag, bydd y gorwariant yn gostwng i orwariant o £33k ar ôl defnyddio grant o £50k a £225k o'r gronfa pwysau gofal cymdeithasol. Disgwylir tanwariant o £61k ar y tîm Asesu a Rheoli Gofal, er bod hyn yn cynnwys costau staff asiantaeth o £26k. Disgwylir gorwariant bychan ar ofal preswyl ar gyfer pobl hŷn, ar ôl trosglwyddo £125k o'r gronfa wrth gefn pwysau gofal cymdeithasol. Mae'r gyllideb gofal nyrsio ar gyfer pobl hŷn yn wynebu pwysau cyllidebol sylfaenol ond mae'r gorwariant yn gostwng i £5k ar ôl dyrannu £100k o'r gronfa wrth gefn pwysau gofal cymdeithasol. Mae pwysau ar y gyllideb gofal cartref wedi cynyddu, ac mae gorwariant o £90k ar ôl tynnu grant allanol gwerth £50k. Cynnydd sylweddol yn y galw am y gwasanaeth hwn sy'n gyfrifol am hyn.

- Anableddau Corfforol (AC): Rhagwelir gorwariant o £135k yn y gwasanaeth hwn ar ddiwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, mae'r gorwariant sylfaenol lawer uwch, sef £302k, ond mae wedi gostwng gan £167k ar ôl defnyddio cyllid grant cymwys ar gyfer gwasanaethau gofal preswyl. Rhagwelir gorwariant o £149k ar gymorth yn y cartref oherwydd y cynnydd yn y galw am wasanaethau cymorth yn y cartref.

- Anableddau Dysgu (AD): Rhagwelir gorwariant o £353k ar gyfer y flwyddyn. Fodd bynnag, mae yna orwariant sylfaenol sylweddol o £1,585k ond mae'n cael ei ostwng eleni trwy ddefnyddio cyllid grant cymwys a £785k o'r gronfa wrth gefn pwysau gofal cymdeithasol. Rhagwelir gorwariant o £2k ar ofal preswyl ar ôl dyrannu grant o £115k a £75k o'r gronfa wrth gefn pwysau gofal cymdeithasol. Rhagwelir gorwariant o £86k ar y gwasanaeth gofal dydd ar gyfer y flwyddyn. Disgwylir gorwariant o £32k ar ofal cartref ar ôl dyrannu £300k o'r gronfa wrth gefn pwysau gofal cymdeithasol. Strategaeth y gwasanaeth yw cynyddu nifer y cleientiaid sy'n derbyn taliadau uniongyrchol yn hytrach na gofal cartref wedi'i gomisiynu, er mwyn grymuso defnyddwyr gwasanaeth a rhoi mwy o ddewis a rheolaeth iddynt dros eu hanghenion gofal cartref. Rhagwelir gorwariant o £232k ar lety â chymorth a llety arall, ar ôl dyrannu cyllid grant gwerth £332k a £410k o'r gronfa wrth gefn pwysau gofal cymdeithasol. Felly, y gorwariant sylfaenol ar lety â chymorth a llety arall yw £974k.

- Iechyd Meddwl (IM): Rhagwelir gorwariant o £153k yn y gwasanaeth hwn ar ddiwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, mae'r gorwariant sylfaenol yn £585k ond mae'r ffigwr yn gostwng ar ôl dyrannu grant o £332k a £100k o'r gronfa wrth gefn pwysau gofal cymdeithasol. Y pwysau sylweddol mewn perthynas â gwasanaethau Iechyd Meddwl yw gofal preswyl, lle mae'r gorwariant sylfaenol yn £713k. Mae'r gorwariant hwn yn gostwng i £281k trwy ddefnyddio grant o £332k a £100k o'r gronfa wrth gefn pwysau gofal cymdeithasol. Mae'r gwasanaeth yn cael ei arwain gan y galw ac mae'n ymwneud yn bennaf â nifer isel o leoliadau costus. Rhagwelir tanwariant o £145k ar gymorth cymunedol yn 2022/23 oherwydd swyddi gweigion.

Mae byw â chymorth yn rhagweld gorwariant o £73k ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r gorwariant hwn yn ymwneud yn bennaf â chost lleoliadau oedolion ac mae'n ategu nod y gwasanaeth i gefnogi cleientiaid yn eu cartrefi eu hunain yn y gymuned.

- Uned Ddarparu a Rheolaeth a Chefnogaeth: Mae'r maes hwn yn rhagweld tanwariant o £242k ar ddiwedd y flwyddyn. I raddau helaeth, nifer o swyddi gweigion sy'n gyfrifol am y tanwariant a ragwelir yn y maes hwn.

**4.3 Gwasanaethau Plant**

**4.3.1** Mae gorwariant o £676k (9.22%) yn y gwasanaeth ar gyfer y cyfnod, a rhagwelir gorwariant o £1,048k (8.65%) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r sefyllfa hon yn waeth na'r gorwariant o £755k a nodwyd yn chwarter 1. Y rheswm am hyn yw cynnydd o £323k yng nghostau plant sy'n derbyn gofal. Mae'r tan a'r a'r gorwariant mwyaf sylweddol yn cael eu nodi isod. Ymddengys fod gorwariant cynhenid yn y mwyafrif o benawdau yn y Gwasanaethau Plant, a gallai hyn arwain at bwysau yn y cyllidebau tu hwnt i 2022/23.

**4.3.2** Mae gorwariant o £680k yn y gyllideb Plant sy'n Derbyn Gofal hyd at chwarter 2, a'r rhagolwg ar hyn o bryd yw gorwariant o £1,163k erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys gorwariant o £836k ar leoliadau allsirol. Y rheswm am hyn yw effaith 5 lleoliad newydd dros flwyddyn gyfan a newidiadau mewn lleoliadau, er bod 4 lleoliad wedi dod i ben. Rhagwelir gorwariant o £201k ar ofal maeth. Mae tanwariant o £63k ar leoliadau ansafonol, er y rhagwelir gorwariant o £72k ar faethu, ond mae gwarcheidwaeth arbennig yn effeithio ar yr alldro hefyd, gyda gorwariant o £67k. Mae'n debygol y bydd £50k o orwariant ar gartrefi clyd oherwydd cynnydd mewn costau staff.

**4.3.3** Rhagwelir tanwariant o £168k ar gomisiynu a gwaith cymdeithasol ar gyfer y flwyddyn gan fod costau staff yn is o ganlyniad i swyddi gweigion. Disgwylir gorwariant o £162k ar Gefnogaeth i Deuluoedd ar ddiwedd y flwyddyn. Gorwariant yn y gwasanaeth 'Pan fyddaf yn barod' sy'n bennaf gyfrifol am hyn. Mae'r gorwariant yn debygol o gynyddu ymhellach pan fydd contractau tacsis ysgol yn cael eu hadnewyddu'n ddiweddarach eleni. Serch hynny, disgwylir tanwariant o £138k ar gefnogaeth integredig i deuluoedd ar ddiwedd y flwyddyn, yn bennaf oherwydd tanwariant ar staff. Disgwylir gorwariant o £60k ar adolygu a chwynion, oherwydd pwysau yn y tîm tu allan i oriau. Mae pwysau ar gostau cefnogi plant ag anableddau'n debygol o arwain at orwariant o thua £121k yn 2022/23.
.

**4.4 Tai (Cronfa'r Cyngor)**

**4.4.1** Roedd tanwariant o £83k (6.33%) ar y gwasanaeth hwn ar ddiwedd chwarter 2 ond rhagwelir gorwariant o £30k (1.57%) ar ddiwedd alldro. Mae hyn £55k yn llai na'r gorwariant o £85k a ragwelwyd yn chwarter 1.

**4.4.2** Digartrefedd yw'r maes sy'n achosi'r pryder mwyaf fel pwysau sylfaenol ar y gyllideb Tai gyda galw cynyddol am gymorth o ganlyniad i nifer o ffactorau. Disgwylir i'r sefyllfa waethygu dros y gaeaf wrth i'r argyfwng costau byw gynyddu'r pwysau ar gyllidebau cartrefi yn ogystal ag effaith y Ddeddf Rhentu Tai a ddaw i rym yn Rhagfyr 2022, a all annog landlordiaid i werthu eu heiddo cyn i'r Ddeddf ddod i rym. Mae hyn yn debygol o arwain at ddirwyn tenantiaethau i ben a mwy o alw am lety argyfwng. Bydd y galw am wasanaethau digartrefedd yn cael eu monitro'n ofalus. Ar ddiwedd chwarter 2, roedd tanwariant o £115k yn y gyllideb, yn bennaf oherwydd adennill ad-daliadau budddal tai ar gyfer defnyddwyr gwasanaetha leolwyd mewn llety argyfwng.

**4.4.3** Rhagwelir gorwariant o £60k ar atal digartrefedd ar ddiwedd y flwyddyn. Er bod y gorwariant yn destun pryder, mae'r costau hyn wedi helpu defnyddwyr gwasanaeth i osgoi cael eu gwneud yn ddigartref, ac mae hynny'n ganlyniad gwell iddynt ac mae'n gostwng gwariant ar lety argyfwng. Rhagwelir tanwariant o £30k ar gyllidebau staff yn y Gwasanaeth Tai, ac mae hyn yn cynorthwyo i ostwng y gorwariant cyffredinol.

### 4.5 Rheoleiddio a Datblygu Economaidd

#### 4.5.1 Economaidd a Chymuned (yn cynnwys Cyrchfan a Hamdden)

**4.5.1.1** Roedd gorwariant o £56k (4.66%) yn y gwasanaeth ar ddiwedd yr ail chwarter, a rhagwelir gorwariant o £86k (3.96%) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn £59k yn uwch na'r gorwariant o £27k a nodwyd yn chwarter 1.

**4.5.1.2** Disgwylir gorwariant o £46k ar elfen Datblygu Economaidd y gwasanaeth ar ddiwedd y flwyddyn, o gymharu â £17k yn chwarter 1. Mae diffyg hanesyddol oherwydd nad oes modd cyflawni targedau incwm ar gyfer prosiectau megis Wylfa Newydd a'r Grid Cenedlaethol. Mae elfennau eraill sy'n rhoi pwysau ar y gyllideb yn cynnwys cyfleusterau canolfannau (£20k), diffyg mewn incwm dylunio graffeg (£10k) a thanysgrifiadau (£20k).

**4.5.1.3** Rhagwelir tanwariant o £48k ar gyfer yr adain Cyrchfan ar ddiwedd y flwyddyn, sydd ychydig yn uwch na'r sefyllfa yn chwarter 1. Ymddengys fod niferoedd ymwelwyr i'r Ynys wedi gostwng o gymharu â'r niferoedd eithriadol o uchel a welwyd y llynedd. O'r herwydd, mae llai o staff tymhorol na'r disgwyl wedi cael eu recriwtio, felly, rhagwelir tanwariant o £20k ar staffio. Mae tanwariant o £30k oherwydd swydd wag yr Harbwrfeistr ym Mhorthaethwy. Mae tan a gorwariant bychan ar agweddau eraill.

**4.5.1.4** Rhagwelir gorwariant o £88k ar y gwasanaeth Hamdden eleni, ac mae hyn yn gynnydd o £38k o gymharu â chwarter 1. Mae incwm debyd uniongyrchol y Canolfannau Hamdden wedi dychwelyd i'r un lefel â chyn y pandemig ac mae'n debygol y bydd y targedau incwm yn cael eu cyflawni, ond efallai y bydd yr argyfwng costau byw yn dechrau effeithio ar aelodaeth canolfannau hamdden. Disgwylir gorwariant o £22k ar gyllidebau staffio, gyda chostau staff uwch yng Nghanolfan Hamdden Caergybi. Disgwylir gorwariant o £20k ar gostau trydan, ac mae hyn yn debygol o gynyddu, yn dibynnu ar ganlyniad trafodaethau ynghylch y contract. Mae gorwariant o £10k yn debygol ar ddeunyddiau glanhau hefyd.

#### 4.5.2 Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

**4.5.2.1** Mae tanwariant o £179k (17.73%) ar y gwasanaeth hwn ar gyfer y cyfnod, ond rhagwelir tanwariant o £85k (3.53%) alldro. Mae hyn yn gynnydd bychan o gymharu â'r tanwariant o £77k a ragwelwyd yn chwarter 1.

**4.5.2.2** Mae tanwariant o £40k yn cael ei ragweld ar gyfer Gwarchod y Cyhoedd ar gyfer 2022/23. Nid oes unrhyw feysydd yn destun pryder sylweddol o fewn y gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd, er bod disgwyl gorwariant o £15k ar reoli cŵn / pla, oherwydd diffyg yn y targedau incwm a chostau cyflenwadau a gwasanaethau cyffredinol. Rhagwelir tanwariant o £45k ar Iechyd yr Amgylchedd ar gyfer y flwyddyn, oherwydd tanwariant ar staffio, ond mae hyn yn cuddio'r pwysau ar gyllidebau nad ydynt yn ymwneud â staff. Mae costau cludiant, cyflenwadau a gwasanaethau'n uwch na'r disgwyl. Mae £12k o gostau nad oes cyllideb ar eu cyfer ar gyfer costau ymgynghorwyr Civica ac mae targedau incwm ar gyfer ffioedd, taliadau a chyfraniadau'n is na'r proffil. Disgwylir tanwariant o £10k ar Drwyddedu, yn bennaf oherwydd fod yr incwm yn uwch na'r disgwyl.

**4.5.2.3** Disgwylir tanwariant o £45k ar y Gwasanaeth Cynllunio ar ddiwedd y flwyddyn, o gymharu â'r rhagolwg yn chwarter 1 y byddai'n gyllideb gytbwys. Ni ddisgwylir gorwariant ar reoli cynllunio erbyn hyn gan fod ffioedd cynllunio wedi gwella. Disgwylir i reoli cynllunio adennill ei gostau. Rhagwelir tanwariant o £30k ar reoli adeiladau, o ganlyniad i swydd wag a gwarged incwm ar ffioedd rheoleiddio ar gyfer adeiladau mawr. Disgwylir tanwariant o £15k ar weithredu a chadwraeth oherwydd swydd wag.

## 4.6 Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo

### 4.6.1 Priffyrdd

**4.6.1.1** Roedd tanwariant o £580k (14.91%) ar gyfer y cyfnod. Y sefyllfa a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn yw tanwariant o £213k (3.17%). Mae'r tanwariant hwn yn fwy na'r tanwariant o £54k yn chwarter 1. Mae'r gyllideb Cerbydau Fflyd yn parhau i fod o dan bwysau, oherwydd bod llai o ddefnydd yn cael ei wneud o'r cerbydau ac am fod prisau tanwydd wedi codi. Mae pwysau ar y gyllideb gwaith wrth i gyflenwyr basio'r cynnydd yn eu costau ymlaen. Mae tanwariant sylweddol ar Reolaeth Adrannol, Meysydd Parcio, Rheoli Datblygu a Gwaith Stryd, gan fod yr incwm yn uwch nag a ragwelwyd yn chwarter 1. Mae disgwyl iddynt fod yn uwch na'u targedau blynyddol, ond bydd y gyfradd yn gostwng erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae gwariant ar y gyllideb gwaith yn is na'r proffil, ond disgwylir y bydd hyn yn cywiro ei hun erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

### 4.6.2 Gwastraff

**4.6.2.1** Roedd tanwariant o £539k (12.77%) yn y gwasanaeth Gwastraff yn ystod y cyfnod, ac mae'r gwasanaeth yn rhagweld tanwariant o £965k (10.65%) ar alldro. Mae'r tanwariant hwn £170k yn uwch na'r tanwariant o £795k a nodwyd yn chwarter 1. Y prif reswm fod y sefyllfa wedi gwella yw gwelliant mewn costau ailgylchu, gyda thanwariant o £90k yn cael ei ragweld yn awr, o gymharu â gorwariant o £50k yn chwarter 1.

**4.6.2.2** Mae'r Gwasanaeth Rheoli Gwastraff yn disgwyl tanwariant sylweddol o £965k ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, gan fod incwm gwerthu tanysgrifiadau gwastraff gwyrdd ac incwm gwerthu deunyddiau ailgylchu yn parhau i fod lawer iawn uwch na'r targedau incwm. Mae ychydig o risg y bydd rhaid i'r Awdurdod dalu dirwy o £140k i Lywodraeth Cymru am fethu â chyrraedd targedau cyfraddau ailgylchu y llynedd. Byddai'r tanwariant a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn yn gostwng oherwydd hynny.

**4.6.2.3** Mae'r rhagolwg ar gyfer diwedd y flwyddyn yn cynnwys meysydd sy'n gorwario mewn gwahanol adrannau yn y gwasanaeth, ynghyd â meysydd eraill sy'n tanwario i wneud yn iawn am hynny. Mae'r amrywiaethau mwyaf sylweddol yn cynnwys tanwariant o £310k ar Gasglu Gwastraff, gydag incwm casglu gwastraff gwyrdd, gwerthu biniau du a chasglu gwastraff swmpus yn uwch na'r disgwyl. Disgwylir tanwariant yn yr adain Ailgylchu ar ddiwedd y flwyddyn hefyd, a'r swm a ragwelir yw £400k. Y rheswm am hyn yw bod incwm yn uwch na'r targed ac mae pris fesul tunnell gwastraff ailgylchu yn parhau i fod yn uchel.

### 4.6.3 Eiddo

**4.6.3.1** Mae tanwariant o £348k yn y gwasanaeth ar gyfer y cyfnod, a rhagwelir gorwariant o £8k (0.50%) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn well na'r gorwariant o £48k a ragwelwyd yn chwarter 1, a'r rheswm am y newid yw bod rhai swyddi yn wag am ran o'r flwyddyn.

**4.6.3.2** Mae'r sefyllfa ar gyfer nifer o benawdau yn y gyllideb yn amrywio, gyda rhai'n gorwario tra bod eraill yn tanwario. Fodd bynnag, mae cyflogau wedi'u cyfalafu'n debygol o fod yn is na'r gyllideb yn 2022/23, gan fod staff yn gweithio ar brosiect sydd ddim yn denu ffi yng Nghanolfan Addysg y Bont. Mae'r gorwariant cyffredinol yn gostwng oherwydd tanwariant ar staff o ganlyniad i swyddi gweigion, a rhagwelir tanwariant o £40k.

## 4.7 Trawsnewid

**4.7.1** Roedd gorwariant o £99k (2.8%) ar y swyddogaeth Trawsnewid ar ddiwedd y cyfnod, fodd bynnag, rhagwelir tanwariant o £232k (3.7%) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r tanwariant yn llai na'r tanwariant o £297k a nodwyd yn chwarter 1.

**4.7.1.1** Roedd tanwariant o £19k (2.31%) yn y swyddogaeth AD ar gyfer y cyfnod, a rhagwelir tanwariant o £70k (4.65%) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r tanwariant a ragwelir yn deillio o'r cyllidebau hyfforddiant canolog, lle rhagwelir tanwariant o £50k. Mae hyn £20k yn fwy nag a ragwelwyd yn chwarter 1. Mae'r galw am hyfforddiant yn parhau i fod yn isel, ac mae gwariant yn parhau i fod yn is nag yn ystod yr un cyfnod y llynedd. Swyddi gweigion sy'n cyfrannu at weddill y tanwariant.

**4.7.1.2** Roedd gorwariant o £201k (9.32%) yn yr adain TGCh ar gyfer y cyfnod, fodd bynnag, y rhagolwg ar gyfer alldro yw tanwariant o £53k (1.44%). Mae hyn yn llai na'r tanwariant o £176k a ragwelwyd yn chwarter 1. Mae'r broses o drosglwyddo cymorth TGCh yn fewnol yn mynd rhagddi, gyda rhai swyddi gweigion heb eu llenwi ers dechrau'r flwyddyn ac, yn ogystal, bu problemau cyffredinol yn llenwi swyddi gweigion o fewn y Gwasanaeth. Mae hyn wedi creu gostyngiad untro yng nghostau staff sy'n lleihau dros amser, ond mae wedi cyfrannu'n sylweddol i'r tanwariant a ragwelir ar gyfer 2022/23. Y prif faes gwariant arall sy'n effeithio cyllideb y Gwasanaeth yw trwyddedau meddalwedd. Nid yw'r gyllideb yn ddigonol ar gyfer y costau cyfredol oherwydd y dyraniad cyllideb pan gafodd ei ganoli o dan wasanaeth TGCh rhai blynyddoedd yn ôl. Yn ogystal, mae costau trwyddedau wedi cynyddu ar raddfa uwch na'r chwyddiant disgwyliedig dros yr un cyfnod. Rhagwelir bydd y gyllideb trwyddedau meddalwedd yn gorwario £11k erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**4.7.1.3** Roedd tanwariant o £83k (16.07%) yn yr Adain Trawsnewid Corfforaethol yn ystod y cyfnod, a disgwylir tanwariant o £109k (9.56%) ar ddiwedd y flwyddyn. Y rheswm am y cynnydd yw bod tanwariant o £62k yn cael ei ddarogan yn awr ar Drawsnewid Corfforaethol yn 2022/23, o gymharu â'r rhagolwg yn chwarter 1 y byddai'r gyllideb yn cydbwyso. Disgwylir tanwariant o £54k ar staffio a thanwariant o £8k ar gyflenwadau a gwasanaethau. Mae tanwariant o £26k yng Nghyswllt Môn o hyd, er bod hyn ychydig yn llai na'r ffigwr a nodwyd yn chwarter 1. Y prif reswm am hyn yw tanwariant ar y gyllideb staff. Disgwylir tanwariant o £17k ar Bartneriaeth Ynys Môn a Gwynedd ar ddiwedd y flwyddyn, ond mae hyn £5k yn llai na'r rhagolwg ar ddiwedd chwarter 1 oherwydd gorwariant o £6k ar y bartneriaeth strategol ranbarthol.

## 4.8 Adnoddau (heb gynnwys Budd-daliadau a Roddwyd)

**4.8.1** Mae gorwariant o £18k (0.95%) yng nghyllideb y swyddogaeth Adnoddau yn ystod y cyfnod, ond rhaglwelir tanwariant o £98k (2.85%) ar alldro. Mae'r tanwariant a ragwelir £46k yn is na'r tanwariant o £144k a ragwelwyd yn chwarter 1. Y rheswm am y gostyngiad yw cynnydd mewn costau bancio, er bod y mwyafrif o'r taliadau hyn yn gysylltiedig â ffioedd prosesu incwm a dderbyniwyd gan y Cyngor trwy daliadau debyd uniongyrchol a chardiau talu.

**4.8.2** Mae'r tanwariant a ragwelir wedi gostwng i £14k oherwydd problemau staffio a'r angen i ddefnyddio staff asiantaeth i ddelio gyda gwaith sydd wedi crynhoi yn y tîm Archwilio. Y rhagolwg ar gyfer Refeniw a Budd-daliadau yw tanwariant o £21k oherwydd swyddi gweigion, er bod staff asiantaeth yn cael eu cyflogi yn rhai o'r swyddi hyn. Rhagwelir gorwariant o £34k ar gyfer y Tîm Cyfrifeg, o gymharu â thanwariant o £6k yn ystod chwarter 1. Y rheswm am hyn, fel sy'n cael ei grybwyll uchod, yw costau bancio ac mae disgwyl gorwariant o £30k ar yr elfen hon. Nid ffioedd ar gyfer bancio gweithredol y Cyngor ydynt, ond ffioedd ar gyfer costau prosesu incwm, megis cost taliadau debyd uniongyrchol. Mae disgwyl tanwariant o £19k ar reolaeth ariannol o hyd. Disgwylir tanwariant o £78k yn yr adain Gaffael oherwydd cynlluniau pwrcasu, h.y. cyllidebau prynu canolog ac ad-daliadau ar gardiau caffael, ynghyd â llai o alw am rai mathau o wariant yn y cyllidebau caffael canolog oherwydd bod mwy o staff yn gweithio gartref (papur, llungopiwyr, deunydd ysgrifennu, dodrefn).

## 4.9 Busnes y Cyngor

**4.9.1** Roedd tanwariant o £11k (1.08%) yn y swyddogaeth ar gyfer y cyfnod, a rhagwelir tanwariant o £44k (2.23%) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r gorwariant hwn £11k yn uwch na'r gorwariant o £33k a ragwelwyd yn chwarter 1. Y rheswm am hyn yw tanwariant ar staff, gan fod swyddi'n parhau i fod yn wag a chostau staff eraill, er eu bod yn cael eu gwrthbwyso'n rhannol gan wariant uwch ar staff asiantaeth i lenwi swyddi gweigion.

**4.9.2** Mae disgwyl gorwariant o £4k ar Wasanaethau Cyfreithiol ar ddiwedd y flwyddyn, yn bennaf oherwydd bod staff asiantaeth yn cael eu cyflogi i lenwi swyddi gweigion / absenoldebau ac nid oes cyllideb ar gyfer y swydd undebau llafur. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa'n well na'r gorwariant o £14k a nodwyd yn ystod chwarter 1. Rhagwelir tanwariant o £48k yn y Gwasanaethau Democrataidd, ac mae hyn yn bennaf oherwydd swyddi gweigion yn yr adain.

### 4.10 Costau Corfforaethol a Democrataidd

**4.10.1** Mae’r gyllideb ar gyfer nifer o gostau ni ellir eu priodoli’n uniongyrchol i un gwasaaneth. Roedd gorwariant o £67k (3.28%) yn y swyddogaeth ar gyfer y cyfnod, a rhagwelir gorwariant o £200k (6.6%) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn ychydig yn well na’r gorwariant o £215k a nodwyd yn chwarter 1. Costau corfforaethol eraill sy’n gyfrifol am y gwelliant, er bod disgwyl gorwariant o £189k ar y maes hwn. Rhagwelir y bydd cyllidebau Cefnogi Aelodau a Threuliau Aelodau a gwariant dinesig yn cydbwyso.

**4.10.2** Yn gyffredinol, mae’r cyllidebau corfforaethol yn dangos gorwariant disgwyliedig o £189k. Disgwylir i gyfraniadau pensiwn i’r gronfa bensiwn fod £52k yn is na’r gyllideb, ac mae disgwyl gorwariant o £25k ar gwnsela staff ar sail ffigyrau presennol. Mae’r gyllideb hon yn cael ei harwain gan y galw, felly, bydd y ffigwr yn amrywio yn ôl yr angen. Nodwyd yn ystod y flwyddyn y byddai’n bosib gwneud arbedion ledled yr Awdurdod oherwydd trefniadau gweithio hybrid, ac y byddai’r balans yn cael ei roi yn y gyllideb gorfforaethol. Fodd bynnag, mae’r arbedion wedi’u cynnwys yn y cyllidebau adrannol cyfatebol. Bydd y symiau’n cael eu trosglwyddo yn ystod y flwyddyn ariannol. Bydd y targed o £200k ar gyfer gweithio hybrid yn cael ei adlewyrchu’n gywir wedyn yn erbyn y cyllidebau gwasanaeth.

### 4.11 Rheolaeth Gorfforaethol

**4.11.1** Roedd tanwariant o £3k (0.87%) ar gyfer y swyddogaeth yn ystod y cyfnod, a rhagwelir cyllideb gytbwys ar ddiwedd y flwyddyn.

## 5. Cyllid Corfforaethol (gan gynnwys Budd-daliadau a Roddwyd)

**5.1** Disgwylir tanwariant o £750k (3.82%) ar gyfer Cyllid Corfforaethol, gan gynnwys Budd-daliadau a roddwyd, ar ddiwedd y flwyddyn, o gymharu â thanwariant o £307k a nodwyd yn chwarter 1. Cynnydd yn y llog sy’n cael ei dalu ar fuddsoddiadau rheoli trysorlys sy’n gyfrifol am y newid hwn, o ganlyniad i fuddsoddi mewn cyfrifon tymor penodedig sy’n talu cyfraddau llog uwch na chyfrifon sy’n caniatáu mynediad ar unwaith i’r arian. Yn ogystal, mae’r cyfraddau llog ar y cyfrifon hyn yn cynyddu bob tro y mae’r gyfradd sylfaenol yn codi. Pan ddaw’r buddsoddiadau tymor penodol i ben, bydd yr arian yn cael ei ail-fuddsoddi mewn cyfrifon sy’n talu llogau uwch.

**5.2** Roedd cyllideb 2022/23 yn cynnwys rhai eitemau a gadwyd yn ganolog fel cyllidebau wrth gefn, ac roedd cyfanswm y cyllidebau hyn yn £3.110k. Bydd y rhan fwyaf o’r cyllidebau hyn yn cael eu trosglwyddo i gyllidebau gwasanaethau yn ystod y flwyddyn. Mae Atodiad C yn rhoi crynodeb o’r cyllidebau wrth gefn, ac mae’n dangos fod £538k wedi ei drosglwyddo’n barod i gyllidebau a gymeradwywyd. Mae £1.992k o’r £2.571k sy’n weddill wedi cael ei ymrwymo, ac nid yw £580k wedi cael ei ymrwymo eto. Disgwylir i’r mwyafrif o’r swm hwn gael ei ymrwymo yn unol â’r math o ddigwyddiadau annisgwyl y paratowyd ar eu cyfer. Disgwylir tanwariant o £48k ar y gyllideb wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn.

**5.3** Mae’r gyllideb cyllido cyfalaf yn cynnwys tair elfen: y swm a neilltuwyd i gwrdd ag ad-daliadau yn y dyfodol (Darpariaeth Refeniw Isaf – MRP), llog sy’n daladwy ar fenthyciadau cyfredol a llog a dderbynnir ar falansau arian parod yng nghyfrifon banc y Cyngor a buddsoddiadau eraill. Mae oedi mewn prosiectau cyfalaf, a’r Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn benodol, yn golygu bod angen i’r Cyngor fenthyca llai ac mae hyn yn ei dro wedi arwain at ostwng yr MRP a chostau llog. O’r herwydd, rhagwelir tanwariant o £501k yn y gyllideb Cyllido Cyfalaf oherwydd cynnydd sylweddol yn y llog a dderbynnir ar adneuon banc, gan gynhyrchu gwarged o £235k, tanwariant o £116k ar log sy’n cael ei dalu o ganlyniad i ddefnyddio balansau arian parod (benthyca mewnol), yn hytrach na chymryd benthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) i gyllido gwariant cyfalaf, a thanwariant o £150k ar MRP.

## 6. Casglu'r Dreth Gyngor

**6.1** Mae cyllideb Cronfa'r Dreth Gyngor yn cael ei phenderfynu gan ddefnyddio amcangyfrif o'r ddyled y gellir ei chasglu ar gyfer y flwyddyn bresennol yn unig, yn seiliedig ar ffigwr sylfaen y dreth a bennwyd ym mis Tachwedd 2021. Nid yw'n caniatáu ar gyfer ôl-ddyledion o flynyddoedd blaenorol a gasglwyd, addasiadau ar gyfer rhwymedigaethau sy'n codi o flynyddoedd blaenorol (eithriadau, disgowntiau person sengl, trosglwyddo eiddo i drethi busnes ac ati), newidiadau yn sylfaen y dreth ar gyfer y flwyddyn gyfredol neu ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac amheus. Ni ellir amcangyfrif y newidiadau hyn ac, yn ddieithriad, maent yn arwain at wahaniaeth rhwng balans terfynol Cronfa Casglu'r Dreth Gyngor a'r gyllideb wreiddiol. Roedd Covid-19 yn cael effaith ar gasglu'r Dreth Gyngor ac mae'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg wedi cael ei chynyddu i adlewyrchu'r effaith hon. Yn y dyfodol, oherwydd y dirwasgiad sydd ar y gorwel a'r cynnydd mewn costau byw, bydd angen monitro'r gyllideb hon yn ofalus. Rhagwelir y bydd incwm craidd y Dreth Gyngor £372k yn uwch na'r gyllideb, ond gall hyn newid yn sylweddol yn ystod y flwyddyn.

**6.2** Dyluniwyd premiwm y Dreth Gyngor i annog perchnogion eiddo gwag ac ail gartrefi i ddychwelyd yr eiddo i ddefnydd cyffredinol ac, fel y cyfryw, mae risg y gallai nifer yr eiddo sy'n talu'r premiwm ddisgyn yn sylweddol yn ystod y flwyddyn. Er mwyn lliniaru'r risg hwn, gosodwyd sylfaen y dreth ar gyfer eiddo sy'n talu'r premiwm ar 80% ac, os nad yw nifer yr eiddo sy'n talu'r premiwm yn disgyn yn sylweddol, yna bydd y gyllideb yn creu gwarged. Unwaith eto, mae'r premiwm sy'n daladwy ar ail gartrefi wedi gostwng oherwydd bod eiddo wedi trosglwyddo o'r gofrestr ddomestig i'r gofrestr Trethi Busnes, serch hynny, mae nifer yr ail gartrefi wedi aros yn gymharol gyson ac, o ganlyniad, rhagwelir gwarged o £391k ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ar y gyllideb premiwm y Dreth Gyngor. Felly, amcangyfrifir gwarged o £763k ar y Dreth Gyngor, gan gynnwys Premiwm y Dreth Gyngor, ar ddiwedd y flwyddyn.

## 7. Arbedion Cyllidebol 2022/23

**7.1** Nid oedd angen i'r gwasanaethau wneud unrhyw arbedion cyllidebol ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23.

## 8. Costau Asiantaeth ac Ymgynghorwyr

**8.1** Gwariwyd £675k ar staff Asiantaeth yn ystod y chwarter. Roedd y rhanfwyaf o'r rhain yn cael eu cyllido'n rhannol o gyllidebau staff oherwydd eu bod yn gysylltiedig â swyddi gweigion, tra roedd £333k yn ymwneud â staff i lenwi swyddi gweigion. Gwariodd y Gwasanaethau Plant £205k ar staff asiantaeth hyd at ddiwedd chwarter 2, a gwariodd y Gwasanaeth Oedolion £124k ar staff asiantaeth. Gwariodd y Gwasanaeth Gwastraff £182k ar weithwyr ar gyfer y canolfannau ailgylchu. Mae'r manylion llawn wedi'u cynnwys yn Atodiad CH.

**8.2** Gwariwyd cyfanswm o £495k ar Ymgynghorwyr yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Medi 2022, a chyllidwyd £268k o'r gwariant hwnnw gan grantiau neu o ffynonellau allanol. Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau'n gwario symiau cymedrol ar ymgynghorwyr, a gwariodd yr adran Economaidd ac Adfywio £243k ar ymgynghorwyr, er bod cyfran helaeth o'r gost yn cael ei gyllido gan ffynonellau incwm allanol. Mae crynodeb o'r gwariant fesul gwasanaeth wedi'u cynnwys yn Atodiad DD, a manylion ychwanegol am y gwariant wedi'i gynnwys yn Atodiad E.

## 9. Cyllid Grant Covid-19 Llywodraeth Cymru hyd yma

**9.1** Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cymorth ariannol sylweddol i awdurdodau lleol Cymru ar gyfer costau ychwanegol yn gysylltiedig â Coronafeirws, ond mae'r cyllid hwn wedi dod i ben yn awr. Mae'r Cyngor yn parhau i wneud taliadau i unigolion ac mae'n adennill y costau gan Lywodraeth Cymru trwy drefniadau'r Gronfa Galedi. Mae Tabl 2 isod yn dangos fod y Cyngor wedi hawlio £0.724m ar gyfer costau ychwanegol yn deillio o'r pandemig ar gyfer y flwyddyn ariannol hon:-

**Tabl 2 Gwariant cysylltiedig â Covid rhwng Ebrill a Medi 2022 a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru**

| | Cinio Ysgol am Ddim £ | Hunan-ynysu £ | Ychwanegiad at dâl salwch statudol £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|---|
| **CRYNODEB Hawliwyd** | **456,680** | **181,210** | **121,589** | **759,479** |
| **Gwrthodwyd** | **35,478** | **-** | **-** | **35,478** |
| **Balans sy'n ddyledus** | **421,202** | **181,210** | **121,589** | **724,001** |
| **Talwyd** | **272,500** | **157,130** | **54,977** | **484,607** |
| **Balans sy'n weddill** | **148,702** | **24,080** | **66,612** | **239,394** |

## 10. Casgliad

**10.1** Y rhagolwg cychwynnol ar ddiwedd yr ail chwarter yw tanwariant o £1.128m yn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2023. Fodd bynnag, mae nifer o feysydd yn creu pryder, nad ydynt efallai'n amlwg o'r ffigwr cyffredinol hwn, ac mae hyn yn gwanhau sefyllfa ariannol y Cyngor wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi.

**10.2** Mae'r prif feysydd sy'n destun pryder yn ymwneud â:-

**i.** Y ffaith fod y cynnig cyflogau yn sylweddol uwch na'r hyn a ganiatawyd yn y gyllideb ac nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu yn y rhagolwg presennol. Er bod cronfa glustnodedig ar gael a fydd yn gwrthbwyso cyfran helaeth o'r gost ychwanegol, efallai na fydd yn ddigon i gwrdd â'r holl gostau ychwanegol. Mae'n rhaid, hefyd, cynnwys y costau uwch yn y gyllideb sylfaen ar gyfer 2023/24, yn ogystal â'r dyfarniad cyflog ar gyfer 2023/24.

**ii.** Mae'r sefyllfa mewn perthynas â Gofal Cymdeithasol yn destun pryder penodol, a rhagwelir gorwariant o £1.361m yn y Gwasanaethau Oedolion a Phlant. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa wirioneddol yn cael ei chuddio gan fod grantiau ychwanegol a chronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio i ostwng y gorwariant. Y sefyllfa wirioneddol yw y bydd gorwariant o rhwng £3.5m a £4m yn y gwasanaethau hyn. Mae hyn yn seiliedig ar lefel bresennol y galw. Bydd unrhyw gynnydd yn y galw am wasanaethau'n gwneud y sefyllfa'n waeth.

**iii.** Yn y pendraw, bydd yr argyfwng costau byw yn arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau'r Cyngor (Digartrefedd, Cyngor ynghylch Dyledion, Cymorth Iechyd Meddwl, Gwasanaethau Plant) a gallai arwain at ostwng incwm mewn gwasanaethau megis hamdden, diwylliant, cynllunio a ffioedd parcio, wrth i bobl wario llai ar eitemau nad ydynt yn hanfodol. Gallai'r newidiadau posib hyn yn y galw am wasanaethau gael effaith negyddol ar sefyllfa ariannol y Cyngor. Wrth i weddill y flwyddyn ariannol fynd rhagddi, bydd effeithiau'r uchod yn cael eu cynnwys yn yr adroddiadau monitro wrth i'r sefyllfa ddod yn fwy eglur.

**10.3** Bydd y sefyllfa ariannol yn 2022/23 hefyd yn dylanwadu ar strategaeth ariannol y Cyngor ar gyfer 2023/24 a thu hwnt, gan y bydd yn amlygu'r angen i ail-alinio cyllidebau er mwyn adlewyrchu'r cynnydd mewn costau a welir yn 2022/23 ac adlewyrchu'r newid yn y galw am wasanaethau. Bydd unrhyw orwariant sylweddol yn arwain hefyd at erydu cronfeydd wrth gefn clustnodedig a balansau cyffredinol y Cyngor, a bydd gallu'r Cyngor i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a balansau i gydbwyso'r gyllideb refeniw yn 2023/24 yn lleihau.

**ATODIAD B**

**Alldro Refeniw a Ragwelir ar gyfer y Flwyddyn Ariannol a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2023 – Chwarter 2**

| **Gwasanaeth/Swyddogaeth** ***Service/Function*** | **2022/23 Cyllideb Blynyddol Annual Budget** | **2022/23 Ch2 Cyllideb hyd yma Q2 Budget Year to Date** | **2022/23 Ch2 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q2 Actual & Committed spend** | **2022/23 Ch2 Amrywiad Q2 Variance** | **2022/23 Ch2 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q2 Actual & Committed Spend** | **Ch2 : Q2 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2023 Estimated Expenditure to 31 March 2023** | **Ch2 : Q2 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2023 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2023 over/(under)** | **2022/23 Gor/(tan) wariant a ragwelir fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over / (Under) spend as a % of Total Budget** | **Ch1 : Q1 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2023 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2023 over/(under)** | **2021/22 Gor/(Tan) Wariant Drafft** ***Draft Over/(under spend)*** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **%** | **£'000** | **£'000** | **%** | **£'000** | **£'000** |
| **Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc** ***Education, Skills and Young People*** | | | | | | | | | | |
| Cyllideb Datganoledig Ysgolion *Delegated Schools Budget* | 50,821 | 23,442 | 23,396 | (46) | -0.20% | 50,821 | 0 | 0.00% | 0 | 0 |
| Addysg Canolog *Central Education* | 5,351 | (2,720) | (2,764) | (44) | 1.62% | 5,273 | (78) | -1.46% | 81 | (150) |
| Diwylliant *Culture* | 1,271 | 799 | 687 | (112) | -14.03% | 1,286 | 15 | 1.18% | (13) | (105) |
| | | | | | | | | | | |
| **Gwasanaethau Oedolion** ***Adult Services*** | 29,833 | 12,438 | 12,980 | 542 | 4.36% | 30,146 | 313 | 1.05% | 753 | (283) |
| | | | | | | | | | | |
| **Gwasanaethau Plant** ***Children's Services*** | 12,112 | 7,332 | 8,008 | 676 | 9.22% | 13,160 | 1,048 | 8.65% | 755 | (370) |
| | | | | | | | | | | |
| **Tai** ***Housing*** | 1,914 | 1,312 | 1,229 | (83) | -6.33% | 1,944 | 30 | 1.57% | 85 | (128) |
| | | | | | | | | | | |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** ***Highways, Waste & Property*** | | | | | | | | | | |
| Priffyrdd *Highways* | 6,718 | 3,888 | 3,308 | (580) | -14.91% | 6,505 | (213) | -3.17% | (54) | (55) |
| Eiddo *Property* | 1,590 | 365 | 17 | (348) | -95.41% | 1,598 | 8 | 0.50% | 48 | (17) |
| Gwastraff Waste | 9,061 | 4,220 | 3,681 | (539) | -12.77% | 8,096 | (965) | -10.65% | (795) | (1,206) |

| Gwasanaeth/Swyddogaeth *Service/Function* | 2022/23 Cyllideb Blynyddol Annual Budget | 2022/23 Ch2 Cyllideb hyd yma Q2 Budget Year to Date | 2022/23 Ch2 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q2 Actual & Committed spend | 2022/23 Ch2 Amrywiad Q2 Variance | 2022/23 Ch2 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q2 Actual & Committed Spend | Ch2 : Q2 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2023 Estimated Expenditure to 31 March 2023 | Ch2 : Q2 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2023 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2023 over/(under) | 2022/23 Gor/(tan) wariant a ragwelir fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over / (Under) spend as a % of Total Budget | Ch1 : Q1 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2023 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2023 over/(under) | 2021/22 Gor/(Tan) Wariant Drafft *Draft Over/(under spend)* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | % | £'000 | £'000 | % | £'000 | £'000 |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** ***Regulation & Economic Development*** | | | | | | | | | | |
| Datblygu Economaidd *Economic Development* | 2,170 | 1,198 | 1,254 | 56 | 4.66% | 2,256 | 86 | 3.96% | 27 | (157) |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd *Planning and Public Protection* | 2,406 | 1,009 | 830 | (179) | -17.73% | 2,321 | (85) | -3.53% | (77) | (545) |
| | | | | | | | | | | |
| **Trawsnewid** ***Transformation*** | | | | | | | | | | |
| Adnoddau Dynol *Human Resources* | 1,506 | 825 | 806 | (19) | -2.31% | 1,436 | (70) | -4.65% | (62) | (54) |
| TGCh *ICT* | 3,677 | 2,157 | 2,358 | 201 | 9.32% | 3,624 | (53) | -1.44% | (176) | (149) |
| Trawsnewid Corfforaethol *Corporate Transformation* | 1,141 | 519 | 436 | (83) | -16.07% | 1,032 | (109) | -9.56% | (59) | (185) |
| | | | | | | | | | | |
| **Adnoddau** ***Resources*** | 3,433 | 1,859 | 1,877 | 18 | 0.95% | 3,335 | (98) | -2.85% | (144) | (252) |
| | | | | | | | | | | |
| **Busnes y Cyngor** ***Council Business*** | 1,977 | 988 | 978 | (11) | -1.08% | 1,933 | (44) | -2.23% | (33) | (64) |
| | | | | | | | | | | |
| **Costau Corfforaethol a Democrataidd** ***Corporate & Democratic costs*** | 3,031 | 2,035 | 2,102 | 67 | 3.28% | 3,231 | 200 | 6.60% | 215 | (327) |
| | | | | | | | | | | |
| **Rheolaeth Corfforaethol** ***Corporate Management*** | 738 | 369 | 366 | (3) | -0.87% | 738 | 0 | 0.00% | (1) | (10) |
| | | | | | | | | | | |

| Gwasanaeth/Swyddogaeth *Service/Function* | 2022/23 Cyllideb Blynyddol Annual Budget | 2022/23 Ch2 Cyllideb hyd yma Q2 Budget Year to Date | 2022/23 Ch2 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q2 Actual & Committed spend | 2022/23 Ch2 Amrywiad Q2 Variance | 2022/23 Ch2 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q2 Actual & Committed Spend | Ch2 : Q2 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2023 Estimated Expenditure to 31 March 2023 | Ch2 : Q2 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2023 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2023 over/(under) | 2022/23 Gor/(tan) wariant a ragwelir fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over / (Under) spend as a % of Total Budget | Ch1 : Q1 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2023 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2023 over/(under) | 2021/22 Gor/(Tan) Wariant Drafft *Draft Over/(under spend)* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | % | £'000 | £'000 | % | £'000 | £'000 |
| Costau heb gyllideb, costau na ellir eu rheoli: yswiriant, costau pensiwn a dileu drwg ddyledion / amhariad ar incwm gwasanaethau *Unbudgeted, uncontrollable costs: insurances, pension costs and bad debt write offs / impairment allowances on services income* | | | | | | 400 | 400 | 0.00% | 200 | 1,386 |
| | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllidebau Gwasanaethau** ***Total Service Budgets*** | 138,750 | 62,035 | 61,549 | (486) | -0.78% | 139,135 | 385 | 0.28% | 750 | (2,671) |
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| Ardollau *Levies* | 3,957 | 3,919 | 3,919 | (0) | -0.01% | 3,957 | 0 | 0.00% | 0 | (2) |
| Rhyddhad Trethi Dewisol *Discretionary Rate Relief* | 72 | 0 | 0 | 0 | 0.00% | 72 | 0 | 0.00% | (1) | 0 |
| Cyllido Cyfalaf *Capital Financing* | 7,403 | 2,075 | 1,895 | (180) | 0.00% | 6,902 | (501) | -6.77% | (45) | (390) |
| Arian wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill *General & Other Contingencies* | 2,572 | 2,572 | 1,992 | (580) | -22.54% | 2,524 | (48) | -1.86% | (50) | (567) |
| Arian wrth Gefn Cyffredinol Y Cyngor Council's General *Reserves* | 0 | 0 | 0 | 0 | 0.00% | 0 | 0 | 0.00% | 0 | 300 |
| Cyfraniad CRT y Gwasanaethau Cefnogol *Support Services contribution HRA* | (800) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | (800) | 0 | 0.00% | 0 | (97) |
| Budd-daliadau a Roddwyd *Benefits Granted* | 6,413 | 20 | 20 | (0) | -1.96% | 6,212 | (201) | -3.13% | (211) | 178 |
| | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllid Corfforaethol** ***Total Corporate Finance*** | 19,617 | 8,586 | 7,826 | (760) | -8.85% | 18,868 | (750) | -3.82% | (307) | (578) |

| Gwasanaeth/Swyddogaeth *Service/Function* | 2022/23 Cyllideb Blynyddol Annual Budget | 2022/23 Ch2 Cyllideb hyd yma Q2 Budget Year to Date | 2022/23 Ch2 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q2 Actual & Committed spend | 2022/23 Ch2 Amrywiad Q2 Variance | 2022/23 Ch2 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q2 Actual & Committed Spend | Ch2 : Q2 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2023 Estimated Expenditure to 31 March 2023 | Ch2 : Q2 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2023 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2023 over/(under) | 2022/23 Gor/(tan) wariant a ragwelir fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over / (Under) spend as a % of Total Budget | Ch1 : Q1 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2023 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2023 over/(under) | 2021/22 Gor/(Tan) Wariant Drafft *Draft Over/(under spend)* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **%** | **£'000** | **£'000** | **%** | **£'000** | **£'000** |
| **Cyfanswm 2022/23** ***Total 2022/23*** | **158,367** | **70,621** | **69,375** | **(1,246)** | **-1.76%** | **158,003** | **(365)** | **-0.23%** | **443** | **(3,249)** |
| | | | | | | | | | | |
| **Cyllido** ***Funding*** | | | | | | | | | | |
| Trethi Annomestig *NDR* | (25,493) | (13,727) | (13,727) | 0 | 0.00% | (25,493) | 0 | 0.00% | 0 | 0 |
| Y Dreth Gyngor *Council Tax* | (41,866) | 0 | 230 | 230 | 0.00% | (42,238) | (372) | 0.89% | (573) | 172 |
| Premiwm y Dreth Gyngor *Council Tax Premium* | (1,950) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | (2,341) | (391) | 20.03% | (414) | (332) |
| Grant Cynnal Refeniw *Revenue Support Grant* | (89,058) | (47,954) | (47,954) | 0 | 0.00% | (89,058) | 0 | 0.00% | 0 | (1,389) |
| **Cyfanswm Cyllid 2022/23** ***Total Funding 2022/23*** | **(158,367)** | **(61,681)** | **(61,451)** | **230** | **0** | **(159,130)** | **(763)** | **0.48%** | **(987)** | **(1,549)** |
| | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm yr alldro yn cynnwys effaith y cyllido** ***Total outturn including impact of funding*** | **(0)** | **8,939** | **7,924** | **(1,016)** | **-11.36%** | **(1,128)** | **(1,128)** | **-0.71%** | **(544)** | **(4,798)** |

**ATODIAD C**

**Crynodeb o Alldro'r Cyllidebau Wrth Gefn 2022/23**

| | Cyllideb<br>£ | Trosglwyddiadau<br>£ | Y Gyllideb Ddiwygedig hyd yma<br>£ | Wedi Ymrwyno hyd yma<br>£ | Cyllidebau heb eu hymrwymo hyd yma<br>£ | Cyllideb Rhagdybiedig<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cronfeydd wrth gefn cyffredinol | 405,734 | -590 | 405,144 | -27,340 | 432,484 | - |
| Cyflog a Graddfeydd | 100,000 | - | 100,000 | 540 | 99,460 | - |
| Etholiadau Sirol | 200,000 | -152,265 | 47,735 | - | 47,735 | -47,735 |
| Cronfeydd wrth gefn clustnodedig | 916,830 | -316,830 | 600,000 | 600,000 | - | - |
| Chwyddiant cyflog | 1,000,000 | - | 1,000,000 | 1,000,000 | - | - |
| Twf Rhanbarthol | 97,000 | - | 97,000 | 97,000 | - | - |
| Cynllun Hyfforddeion | 340,000 | -68,080 | 271,920 | 271,920 | - | - |
| Newid Hinsawdd | 50,000 | - | 50,000 | 50,000 | - | - |
| **Cyfanswm y Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill** | **3,109,564** | **-537,765** | **2,571,799** | **1,992,120** | **579,679** | **-47,735** |

**Costau Asiantaeth rhwng mis Gorffennaf a Medi 2022**

| Gwasanaeth | Swm £ | Ffynhonnell Gyllido (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio nas ddefnyddiwyd / Grant / Cyfraniad Allanol) | Parhaol / Dros Dro | Pwrpas |
|---|---|---|---|---|
| Datblygu Economaidd a Rheoleiddio | 21,985 | Grant | Dros Dro | Adlenwi swyddogion sy'n delio â Covid |
| | 6,002 | Grant | Dros Dro | Adlenwi swyddogion sy'n delio â thystysgrifau iechyd allforio |
| | 7,857 | Craidd | | Adlenwi swyddogion sy'n delio â thystysgrifau iechyd allforio |
| | **35,845** | | | |
| Ysgolion | 14,757 | Craidd | Dros Dro | Athrawon llanw mewn maes arbenigol |
| | **14,757** | | | |
| Gwastraff | 181,887 | Cyllideb Graidd Benodol | Dros Dro | Tasgau ychwanegol sydd eu hangen yn y tymor byr / Addasiadau mewn costau oherwydd newid yn y gyfradd |
| | **181,887** | | | |
| Gwasanaethau Plant | 205,467 | Cyllideb Craidd / Cronfa Wrth Gefn Staff Asiantaeth | Dros Dro | I lenwi swyddi gwag |
| | **205,467** | | | |
| Gwasanaethau Oedolion | 98,932 | Cyllideb Graidd | Dros Dro | I lenwi swyddi gwag |
| | 25,564 | Grant | | Gwaith ychwanegol yn ymwneud â Covid a swyddi gwag |
| | **124,496** | | | |
| Adnoddau | 20,528 | Grant | Dros Dro | Gwaith Cymhorthdal |
| | 24,480 | Grant | Dros Dro | Gwaith ychwanegol o grantiau LlC |
| | 38,394 | Grant | Dros Dro | Gwaith ychwanegol o grantiau LlC |
| | 28,812 | Cyllideb staffio nas ddefnyddiwyd | Dros Dro | I lenwi swyddi gwag |
| | **112,213** | | | |
| **Cyfanswm** | **674,665** | | | |

**ATODIAD D**

**Crynodeb o Wariant ar Ymgynghorwyr, Ch2 2022/23**

| Crynodeb o Wariant ar Ymgynghorwyr Fesul Gwasanaeth | | | |
|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth** | **Ch 1<br>£** | **Ch 2<br>£** | **Cyfanswm 2022/23<br>£** |
| Addysg Canolog | 834 | 12,469 | **13,302** |
| Diwylliant | 4,925 | 1,500 | **6,425** |
| Economaidd ac Adfywio | 39,147 | 204,352 | **243,499** |
| Eiddo | 0 | 4,832 | **4,832** |
| Priffydd | 11,376 | 72,418 | **83,794** |
| Ysgolion | 0 | 0 | **0** |
| Gwastraff | 4,431 | 13,347 | **17,779** |
| CRT | 0 | 0 | **0** |
| Tai | 0 | 0 | **0** |
| Corfforaethol a Democrataidd | 0 | 0 | **0** |
| Gwasanaethau Oedolion | 0 | 0 | **0** |
| Gwasanaethau Plant | 200 | 6,093 | **6,293** |
| Corfforaethol | 0 | 0 | **0** |
| Trawsnewid | 9,157 | 20,026 | **29,183** |
| Busnes y Cyngor | 7,279 | 37,968 | **45,247** |
| Adnoddau | 20,278 | 24,770 | **45,048** |
| | | | |
| **Cyfanswm** | **97,627** | **397,774** | **495,401** |
| Cyllidwyd gan: | | | |
| Cyllideb Craidd | 63,016 | 160,418 | **223,434** |
| Grant | 33,321 | 199,734 | **233,055** |
| Cyfraniad Allanol | 0 | 34,972 | **34,972** |
| Cronfeydd Wrth Gefn | 1,290 | 2,650 | **3,940** |
| **Cyfanswm** | **97,627** | **397,774** | **495,401** |

## Dadansoddiad Manwl o Gostau Ymgynghorwyr Ch2 2022/23

| | Swm £ | Categori - Rheswm Penodi | | | Ffynhonnell y Cyllid (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio nas ddefnyddir / Grant / Cyfraniad Allanol) | Disgrifiad o'r gwaith a wnaed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | I dalu am sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol | Maint y gwaith | Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am Byth | | |
| **Cyfanswm Ch1 Ebrill - Mehefin** | **97,627** | | | | | |
| Addysg Canolog | 2,029 | | | P | Grant | Ffioedd Proffesiynol i`r Adran Addysg |
| | 8,740 | | P | | Craidd | Ffioedd Proffesiynol i`r Adran Addysg |
| | 1,700 | | | P | Craidd | Asesiadau ar gyfer Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |
| **Cyfanswm Addysg Canolog** | **12,469** | | | | | |
| Diwylliant | 1,500 | | | P | Grant | Ymgynghoriad Cymuned ac adroddiad - grant Loteri Cenedlaethol – camau cynal i adwyedd |
| **Cyfanswm Diwylliant** | **1,500** | | | | | |
| Economaidd ac Adfywio | 3,845 | P | | | Craidd & PPA | Wylfa - cyngor ar ôl arholiad |
| | 3,914 | P | | | Craidd | Cyfnod Fferm Solar Traffwll: Ffioedd proffesiynol |
| | 15,345 | P | | | PPA | Ffioedd proffesiynol am wasanaethau â ddarparwyd mewn cysylltiad ag: Arbenigedd ecolegol mewn cysylltiad â chais fferm solar Traffwll |
| | 7,300 | P | | | Craidd | Ffioedd proffesiynol am wasanaethau â ddarparwyd mewn cysylltiad â : Rhaglen Ynys Ynni'r Cyngor |
| | 869 | P | | | Craidd | Cynnal Blynyddol - Cymorth Technegol Onesys |
| | 225 | P | | | PPA | Cais Morlais TWAO - cyngor i'r Cyngor fel awdurdod letyol |
| | 17,154 | | | P | Grant | Prosiect Tirwedd Treftadaeth CSYM |
| | 5,901 | | | P | Grant | Gwerthuso partneriaeth tirwedd Ynys Cybi |
| | 3,745 | | | P | Grant | Ffioedd mewn perthynas â pharatoi a gweithredu Cynllun Dehongli Partneriaeth Tirwedd Ynys Cybi gynhwysfawr |
| | 27,735 | P | | | Grant | Parc Busnes Amlwch |
| | 3,520 | P | | | Grant | Dadansoddiad Bwlch a Cham 1 Asesiad o'r Safle Amgylcheddol - Porth Amlwch |

| | Swm £ | Categori - Rheswm Penodi: I dalu am sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol | Categori - Rheswm Penodi: Maint y gwaith | Categori - Rheswm Penodi: Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am Byth | Ffynhonnell y Cyllid (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio nas ddefnyddir / Grant / Cyfraniad Allanol) | Disgrifiad o'r gwaith a wnaed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 12,650 | | | P | Grant | LUF - gwirio costau cynlluniau costau buddiolwyr LUF posib |
| | 35,000 | | | P | Grant | Cyngor Economaidd Môn – Ffioedd PRoffesiynnol LUF (socio Economaidd) |
| | 5,000 | | | P | Grant | Adfywio Môn UKCRF - Monitro a Gwerthuso |
| | 14,794 | | | P | Grant | Prosiect Tirwedd Treftadaeth CSYM |
| | 3,763 | | | P | Craidd | Cyngor ecolegol ar gyfer Ceisiadau Cynllunio |
| | 19,402 | | | P | Allanol | Adolygu cais cynllunio ac adrodd ar Lannau Caergybi |
| | 19,515 | | | P | Craidd | Cymorth Rheoli Datblygu |
| | -275 | | | P | Craidd | Gwiriadau strwythurol (CR ar gyfer tâl yn Ch1) |
| | 4,950 | P | | | Craidd | Ffioedd Cyfreithiol Gweithrediad Pinewood |
| **Cyfanswm Economaidd ac Adfywio** | **204,352** | | | | | |
| Eiddo | 4,832 | | | P | Craidd | Adolygiad Cyfleustra Cyhoeddus |
| **Cyfanswm Eiddo** | **4,832** | | | | | |
| Priffyrdd | 1,350 | | | P | Craidd | Gwaith ymgynghori ar gyfer Gwasanaethau Glanhau |
| | 19,710 | | | P | Grant | Hwb Hydrogen Caergybi |
| | 1,452 | | | P | Craidd | Cyfraniad ardoll ar gyfer gwasanaethau P{argio |
| | 1,265 | | | P | Craidd | Nant Newydd, Llangefni - Llwybr Beicio arfaethedig |
| | 3,211 | | | P | Craidd | Arolwg SCRIM 2022/23 |
| | 11,516 | | | P | Craidd | Darparu arolwg Sganiwr ar gyfer 2022/23 |
| | 23,739 | | | P | Grant | WelTAG Cam 1 yn Llanfairpwll a Phorthaethwy |
| | 1,599 | | | P | Grant | Asesiad Amgylcheddol desg |
| | 7,435 | | | P | Grant | W-02-24529 - Bron y Felin Llangefni Achos Busnes |
| | 1,142 | | | P | Grant | W-03-24814 Modelu Hydrolig Llangefni |

| | Swm £ | Categori - Rheswm Penodi | | | Ffynhonnell y Cyllid (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio nas ddefnyddir / Grant / Cyfraniad Allanol) | Disgrifiad o'r gwaith a wnaed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | I dalu am sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol | Maint y gwaith | Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am Byth | | |
| **Cyfanswm Priffyrdd** | **72,418** | | | | | |
| Gwastraff | 2,596 | P | | Gwaith penodol | Cyllideb Graidd Benodol | Cymorth technegol nwy tirlenwi Penesgyn |
| | 1,228 | P | | Gwaith penodol | Cyllideb Graidd Benodol | System Rheoli Amgylcheddol Penhesgyn HWRC |
| | 2,975 | P | | Gwaith penodol | Cyllideb Graidd Benodol | CeuffosPenhesgyn - Cynnig ffioedd ar gyfer gwasanaethau ymgynghoriaeth peirianneg |
| | 1,191 | P | | Gwaith penodol | Cyllideb Graidd Benodol | Monitro Amgylcheddol ac Adroddiad Monitro Blynyddol 2022 |
| | 1,610 | P | | Gwaith penodol | Cyllideb Graidd Benodol | Peiriannydd CQA - Gosod pwyntiau monitro newydd |
| | 555 | P | | Gwaith penodol | Cyllideb Graidd Benodol | Monitro Amgylcheddol ac Adroddiad Monitro Blynyddol 2022 |
| | 1,200 | P | | Gwaith penodol | Cyllideb Graidd Benodol | Gwaith Astudio Dichonoldeb Gwlyptiroedd Penhesgyn |
| | 13 | P | | Gwaith penodol | Cyllideb Graidd Benodol | Penhesgyn IVC Cynllun rheoli damweiniau |
| | 1,980 | P | | Gwaith penodol | Cyllideb Graidd Benodol | Diweddariad 2022 Bioaerosol IVC Penhesgyn 2022 |
| **Cyfanswm Gwastraff** | **13,347** | | | | | |
| Gwasanaethau Plant | 4,000 | | | | | Atgyfnerthu y Blynyddoedd Cynnar |
| | 133 | | | | | Gwasanaeth Dehonglydd BSL ar gyfer ymweliad cartref |
| | 1960 | | | | | Archwiliad ac Adroddiad Gwaith Taith Bywyd |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Plant** | **6,093** | | | | | |
| Trawsnewid | 3,187 | | | P | Cyllideb Graidd Benodol | Pridiannau rheoli prosiect - ResourceLink mudo i'r cwmwl hybrid |
| | 5,700 | | | P | Cyllideb Graidd Benodol | Gwasanaeth ymgynghori Whitespace |
| | 5,250 | | | P | Cyllideb Graidd Benodol | Diwrnodau ymgynghori Granicus CRM |
| | 600 | | | P | Cyllideb Graidd Benodol | Gosod meddalwedd etholiadol |

| | Swm £ | Categori - Rheswm Penodi | | | Ffynhonnell y Cyllid (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio nas ddefnyddir / Grant / Cyfraniad Allanol) | Disgrifiad o'r gwaith a wnaed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | I dalu am sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol | Maint y gwaith | Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am Byth | | |
| | 2,682 | P | | | Grant | Aseswr – Gweithwyr Cymdeithasol dan Hyfforddiant |
| **Cyfanswm Trawsnewid** | **20,026** | | | | | |
| Busnes y Cyngor | 37,968 | | | P | Cyllideb staffio nas defnyddir | Locwm |
| **Cyfanswm Busnes y Cyngor** | **37,968** | | | | | |
| Adnoddau | 7,720 | | | P | Cyllideb Graidd Benodol | Ymgynghoriaeth lejer cyffredinol |
| | 2,650 | | | P | Arian wrth gefn | Cefnogi gwelliannau systemau o fewn Tîm Incwm |
| | 10,520 | | | P | Grant Gweinyddes hunan ynysu | Prosesu taliadau hunan ynysu |
| | 3,880 | | | P | Grant | Grant Lwfans Gofalwyr |
| **Cyfanswm Adnoddau** | **24,770** | | | | | |
| **Cyfanswm Ch2 Gorffennaf - Medi** | **397,774** | | | | | |
| **Cyfanswm Cronnus Ebrill - Medi** | **495,401** | | | | | |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **29 TACHWEDD 2022** |
| **Pwnc:** | **ADRODDIAD MONITO'R GYLLIDEB GYFALAF – CHWARTER 2 2022/23** |
| **Aelod Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD ROBIN WYN WILLIAMS – DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID, BUSNES CORFFORAETHOL A PHROFIAD Y CWSMER** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **MARC JONES - CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151 (EST. 2601)** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>E-bost: | **JEMMA ROBINSON**<br>**JemmaRobinson@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau**

Argymhellir fod y Pwyllgor Gwaith yn:-

- Nodi cynnydd y gwariant a'r derbyniadau yn erbyn cyllideb gyfalaf 2022/23 yn ystod chwarter 2.
- Cymeradwyo cynyddu'r gyllideb ar gyfer Melin Llynnon, yn unol ag adran 4.2.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

- Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y gyllideb Gyfalaf ar gyfer ail chwarter y flwyddyn ariannol.
- Mae monitro'r gyllideb yn swyddogaeth a ddynodwyd i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisïau a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Gosod y Gyllideb Gyfalaf flynyddol.

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | Mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth wedi adolygu'r adroddiad ac ymgorfforwyd eu sylwadau yn yr adroddiad terfynol. |
| 2 | **Cyllid / Swyddog Adran 151** (gorfodol) | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro'n aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac mae'r sylwadau a gyflwynwyd wedi cael eu hystyried. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Caffael** | |
| 8 | **Sgriwtini** | |
| 9 | **Aelodau Lleol** | |

| E – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yw'n berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?** | Mae'r gyllideb gyfalaf yn cyllido buddsoddiadau mewn asedau ac isadeiledd y mae eu hangen i ganiatáu i'r Cyngor gwrdd â'i amcanion tymor hir, a nodir yn ei Gynllun Corfforaethol a'r Strategaeth Gyfalaf. |
| 2 | **A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut?-** | Bydd rhai o'r buddsoddiadau unigol, e.e. gwaith atal llifogydd, yn atal costau yn y dyfodol, tra bydd eraill, e.e. prosiectau ICF, yn lleihau dibyniaeth ar y Cyngor i ddarparu gwasanaethau mwy costus. |
| 3 | **A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy:** | Mae cyllido'r prosiectau wedi cael ei gytuno a'i gynllunio â sefydliadau eraill, a Llywodraeth Cymru'n neilltuol. |
| 4 | **A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy:** | Bu Cynllun Corfforaethol y Cyngor a Rhaglen Gyfalaf 2022/23 yn destun ymgynghoriad cyhoeddus â dinasyddion Ynys Môn. |
| 5 | **Nodwch effeithiau'r penderfyniad hwn ar yr agenda cydraddoldeb a'r Gymraeg.** | Mae rhai o'r prosiectau a gyllidir gan y rhaglen gyfalaf yn cael effaith ar yr agenda cydraddoldeb e.e. mynediad i'r anabl mewn ysgolion, grantiau cyfleusterau i'r anabl. Dim effaith ar agenda'r iaith Gymraeg. |

**F - Atodiadau:**

Atodiad A – Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf – Chwarter 2 2022/23
Atodiad B – Crynodeb o Wariant ar Brosiectau Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a'r Gwariant a Ragwelir ar Ddiwedd y Flwyddyn
Atodiad C – Newid i gyllidebau / cynlluniau ychwanegol wedi'u hychwanegu ers gosod y gyllideb

**FF – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cyllideb Gyfalaf 2022/23, fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 10 Mawrth 2022;
- Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys 2022/23, fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 10 Mawrth 2022;
- Adroddiad Alldro Cyfalaf 2021/22, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 28 Mehefin 2022; ac
- Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf – Chwarter 1 2022/23, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 27 Medi 2022.

**ATODIAD A**

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1** Dyma adroddiad monitro'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer ail chwarter y flwyddyn ariannol, ac mae'n caniatáu i Aelodau nodi'r cynnydd o ran Gwariant Cyfalaf a Derbyniadau Cyfalaf yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf.

**1.2** Ym mis Mawrth 2022, cymeradwyodd y Cyngor Raglen Gyfalaf ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai o £17.177m ar gyfer 2022/23 a Rhaglen Gyfalaf o £18.784m ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (CRT). Yn ychwanegol, ym mis Mehefin 2022, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith i Lithriad Cyfalaf o £11.242m gael ei ddwyn ymlaen o 2021/22, a daw hyn â chyfanswm y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai i £28.419m, a £18.784m ar gyfer y CRT. Ers cwblhau'r broses gosod cyllideb, ychwanegwyd cynlluniau ychwanegol at y rhaglen, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cael eu cyllido gan grantiau, sef cyfanswm o £8.272m, ynghyd â gostyngiad o £3.750m yng nghyllideb y CRT. Daw hyn â chyfanswm y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2022/23 i £51.725m. Dangosir hyn yn y tabl isod:-

| Cyllidwyd gan: | Cyllideb gwreiddiol 2022/23 fel y cytunwyd gan y Cyngor llawn £'000 | Llithriad fel y cytunwyd yn alldro Ch4 2021/22 £'000 | Gostyngiad CRT £'000 | Cynlluniau ychwanegol ers gosod y gyllideb £'000 | CYFANSWM £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Grant | 7,662 | 4,426 | | 7,165 | **19,253** |
| Benthyca â Chefnogaeth | 3,325 | 3,816 | | (73) | **7,068** |
| Benthyca Digefnogaeth | 11,399 | 200 | (3,750) | (1,107) | **6,742** |
| Cyfraniad Refeniw | 10,099 | | | 266 | **10,365** |
| Derbyniadau Cyfalaf | 600 | 251 | | 257 | **1,108** |
| Cronfeydd wrth Gefn | 2,876 | 2,472 | | 1,764 | **7,112** |
| Benthyciad | | 77 | | | **77** |
| **CYFANSWM** | **35,961** | **11,242** | **(3,750)** | **8,272** | **51,725** |

Cyfeiriwch at Atodiad C am fanylion newidiadau i gyllidebau / cynlluniau ychwanegol wedi eu hychwanegu ers y broses o osod y gyllideb.

## 2. CYNNYDD AR WARIANT 2022/23

**2.1** Isod mae tabl cryno o'r gwariant Cyfalaf hyd at 30 Medi 2022, y gyllideb broffiliedig hyd at 30 Medi 2022 a'r cyllid arfaethedig ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2022/23:-

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Cyllideb a Broffiliwyd £'000 | Gwariant Gwirioneddol £'000 | Gwariant wedi ei Ymrwymo £'000 | Cyfanswm Gwariant £'000 | % y Gyllideb a Broffiliwyd sydd wedi ei gwario | % y Gyllideb Flynyddol sydd wedi ei gwario |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa Gyffredinol Tai | 1,497 | 191 | 203 | - | 203 | 106 | 14 |
| CRT Tai | 15,034 | 4,013 | 3,650 | 365 | 4,015 | 100 | 27 |
| Dysgu Gydol Oes | 15,715 | 5,997 | 5,621 | 502 | 6,123 | 102 | 39 |
| Economaidd ac Adfywio | 6,427 | 2,898 | 2,510 | 667 | 3,177 | 110 | 49 |
| Priffyrdd | 7,473 | 2,921 | 2,739 | 217 | 2,956 | 101 | 40 |
| Rheoli Gwastraff | 451 | 51 | 54 | - | 54 | 106 | 12 |
| Eiddo | 1,731 | 240 | 198 | 1 | 199 | 83 | 11 |
| Trawsnewid | 711 | 426 | 414 | 21 | 435 | 102 | 61 |
| Cynllunio | 1,050 | 200 | 48 | 143 | 191 | 96 | 18 |
| Gwasanaethau Oedolion | 1,636 | 116 | 94 | 18 | 112 | 97 | 7 |
| **Cyfanswm** | **51,725** | **17,053** | **15,531** | **1,934** | **17,465** | **102** | **34** |

| **Cyllidwyd gan:** | |
|---|---|
| Grant Cyfalaf | 19,253 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 1,108 |
| Benthyca â Chefnogaeth | 7,068 |
| Benthyca Digefnogaeth | 6,742 |
| Cyfraniad Refeniw | 10,365 |
| Cronfeydd Wrth Gefn | 7,112 |
| Benthyciad | 77 |
| **Cyfanswm Cyllido** | **51,725** |

**2.2** Hyd at ddiwedd y chwarter cyntaf, gwariwyd 103% o'r gyllideb a broffiliwyd ar gyfer y gronfa gyffredinol. Fodd bynnag, dim ond 37% o'r gyllideb flynyddol a wariwyd hyd yma. Y rheswm am hyn yw bod nifer o gynlluniau cyfalaf yn gwario tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae rhai cynlluniau cyfalaf wedi cychwyn, gyda'r rhan fwyaf o'r gyllideb a broffiliwyd ar gyfer chwarter 2 wedi ei gwario, cynlluniau megis gwaith ar do Canolfan Addysg y Bont, gwaith cyfalaf ar adeiladau Addysg, y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, cynlluniau Penrhos Cam 2 a Phorth Llangefni. Nid yw rhai cynlluniau cyfalaf wedi cychwyn eto, neu mae eu cyllidebau wedi eu proffilio i'w gwario yn ystod y chwarter nesaf neu tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol, megis y Grant Cyfleusterau i'r Anabl, grant Cinio Ysgol am Ddim, cynllun Porth Arfordirol Môn a chynllun Melin Llynnon. Gellir gweld y cynlluniau hyn a'u proffil yn Atodiad B. Mae nifer o gynlluniau Grantiau Cyfalaf yn 2022/23 ac mae diweddariad arnynt wedi'i gynnwys yn adran 3.1 yr adroddiad hwn.

**2.3** Mae'r CRT wedi gwario 100% o'r gyllideb a broffiliwyd a 27% o'r gyllideb flynyddol. Amcangyfrifir ar hyn o bryd na fydd y gyllideb gyfan wedi ei gwario ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Am ragor o wybodaeth ar wariant cyfalaf y CRT a'r gwariant a ragwelir, gweler adroddiad monitro cyllideb chwarter 2 y CRT, a gyflwynir i'r Pwyllgor hwn ar 29 Tachwedd 2022.

## 3. <u>CYLLIDO</u>

### 3.1 Grantiau Cyfalaf

**3.1.1** Mae nifer o gynlluniau Grantiau Cyfalaf wedi'u cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2022/23, ac mae'r mwyafrif ohonynt wedi cychwyn ac yn mynd rhagddynt, a rhoddir diweddariad byr ar y cynlluniau isod:-

- **Cymunedau Dysgu Cynaliadwy** – mae gwaith ar safle'r Ysgol Corn Hir newydd yn mynd rhagddo'n dda, ac mae Strwythurau Cam 1 a 2 a'r To wedi'u cwblhau. Mae gwaith ar y gorffeniadau mewnol a gosod celfi gosod, ffitiadau toiledau a chwblhau gwaith mecanyddol a thrydanol yn mynd rhagddo'n dda. Mae'r iard chwarae gefn a'r man chwaraeon aml-ddefnydd wedi cael eu gorchuddio â tharmac. Mae gwaith tirlunio allanol yn mynd rhagddo.
  Uned Cyfnod Sylfaen newydd yn Ysgol y Graig – cwblhawyd y pryniant tir. Mae gwaith wedi cychwyn ar y safle gyda mynediad i'r safle adeiladu wedi'i greu a dechreuwyd codi tywyrch ar gyfer yr archwiliadau archeolegol.

- **Trawsnewid Treflun Caergybi (Cam II Menter Treftadaeth Treflun) –** Mae gwaith datblygu'n gysylltiedig â Chronfa Codi'r Gwastad yn parhau ar gyflymder wrth ddisgwyl am benderfyniad terfynol gan Lywodraeth y DU erbyn mis Rhagfyr 2022. Yn ôl y disgwyl, ym mis Awst cyhoeddwyd dogfennau tendr ar gyfer y llwyfan wylio ar dŵr gogledd ddwyrain Caer Rufeinig Caergybi ac ar gyfer ymestyn, ail fodelu a chwblhau gwaith ôl-osod ar doiledau cyhoeddus yn Sgwâr Swifft, a phenodwyd y contractwr llwyddiannus ym mis Medi. Bydd y gwaith yn cychwyn ym mis Hydref ac yn cael ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2023.

- **Partneriaeth Tirwedd Ynys Cybi** – mae'r Bartneriaeth Tirwedd wedi sicrhau cyllid o Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol (CTLG) i gyflawni nifer o brosiectau sy'n canolbwyntio ar amgylchedd naturiol Ynys Cybi. Mae gwaith a gyflawnwyd ar y prosiectau, sy'n cael eu cyllido ar y cyd drwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF), yn cynnwys:-

  - Gwarchod ein Treftadaeth – cynhaliwyd arolygon mesuredig o'r holl strwythurau o fewn y prosiect a derbyniwyd dau gyflwyniad tendr ar gyfer Tŵr Elin, Ffynnon y Wrach a Golygfan Ynys Lawd. Disgwylir y bydd yr holl waith wedi'i gwblhau erbyn mis Rhagfyr.

- **Cynllun Hwb – Grant  Isadeiledd Mewn Ysgolion** – mae'r holl weithgareddau gosod ar gyfer Cam 1 i 4 wedi'u cwblhau, felly, eleni bydd y gweithgareddau'n canolbwyntio ar gaffael a gosod byrddau gwyn rhyngweithiol. Archebwyd 193 o sgriniau a byddant yn cael eu dosbarthu i ysgolion ar sail arolwg o gyflwr eu darpariaethau clyweledol presennol. Mae'r arolwg cyflwr wedi cael ei gwblhau yn awr ac, ar ôl derbyn, defnyddir yr adroddiad fel sail ar gyfer dyrannu sgriniau. Mae rhai arweinwyr ysgol wedi cwestiynnu'r gofyniad bod yn rhaid i'r ysgol gyllido'r gosodiad drwy ei chyllideb ei hun ond, o ystyried y cyfraniad sylweddol a wneir gan y grant, y consensws yw bod hwn yn fuddsoddiad gwerth chweil.

- **Porth Twristiaeth** – canolfan ymwelwyr Parc Gwledig y Morglawdd: penodwyd y prif gontractwr a dechreuodd gwaith ar y safle ddechrau mis Gorffennaf. Disgwylir i'r gwaith ar y ganolfan ymwelwyr newydd gael ei gwblhau ym mis Rhagfyr 2022. Yna, bydd y dehongliad yn cael ei osod, a disgwylir i'r holl waith gael ei gwblhau erbyn canol mis Ionawr 2023. Cwblhawyd gwaith ar y ciosg a'r toiledau. Ar hyn o bryd, disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau erbyn y terfyn amser a bydd y gwaith yn cael ei adolygu'n gyson, gan hysbysu Croeso Cymru am unrhyw newidiadau.

- **Prosiect Cam II Penrhos** - nod y cynllun hwn yw adeiladu saith uned fusnes newydd ar Stad Ddiwydiannol Penrhos. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Cwblhawyd y ffrâm ddur, y gwaith cladio a gosodwyd panelau ffotofaltäig (PV). Bydd ffenestri'n cael eu gosod yn y man, gyda gwaith mecanyddol a thrydanol yn dechrau maes o law. Disgwylir i'r unedau hyn fod ar gael yng ngwanwyn 2023.

- **Prosiect Cam 3 Penrhos** - sicrhawyd cyllid o £3.1m o ERDF. Y bwriad yw adeiladu 6 uned fusnes ar y darn olaf o dir sydd ym mherchnogaeth y Cyngor. Bydd y broses gaffael yn cychwyn ym mis Hydref 2022, a bwriedir i'r unedau fod yn barod ddiwedd yr haf 2023.

- **Prosiect Porth Llangefni –** mae safle Porth Llangefni (Parc Diwydiannol Tregarnedd) yn ardal yn Llangefni ble bydd 7 plot yn cael eu datblygu yn y pendraw.

    - **Unedau Porth (ERDF) -** cwblhawyd gwaith ar yr unedau yn awr ac maent wedi cael eu trosglwyddo i'r adran Eiddo. Bydd yr unedau'n cael eu marchnata yn ystod chwarter 3 a disgwylir i denantiaid symud iddynt erbyn diwedd 2022.

    - **Cyd-fenter Porth –** nod y Cyd-fenter Porth yw cwblhau gwaith galluogi ar y plotiau sy'n weddill ar Barc Busnes Tregarnedd (Safle Porth). Cwblhawyd gwaith archeolegol ac ecolegol ac fe amlygwyd problemau pellach. Nifer y plotiau fydd ar gael i'w gwerthu fydd 3, yn hytrach na 6, oherwydd cyfyngiadau archeolegol. Mae gwaith paratoi terfynol yn mynd rhagddo i sicrhau fod y plotiau olaf yn barod i'w marchnata.

- **Cynlluniau Draenio Amlwch a Chaergybi** – mae'r astudiaethau hyn yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd. Yng Nghaergybi, mae'r gwaith modelu hydrolig wedi'i gwblhau ac mae'r rhestr hir o opsiynau'n cael eu hystyried. Yn Amlwch, cwblhawyd yr arolygon afonydd. Roedd y ddwy astudiaeth yn parhau yn chwarter 2, a byddant yn parhau drwy gydol y flwyddyn ariannol hon.

- **Grantiau ar gyfer Gwaith ar Raddfa Fach** – cymeradwywyd 11 cynllun adeiladu a 4 cynllun dyluniadau ar gyfer 2022/23. Fodd bynnag, mae dau o'r cynlluniau hyn wedi eu tynnu o'r rhaglen erbyn hyn. Yn ddiweddarach, canfuwyd nad oedd angen un ohonynt oherwydd newidiadau yr oedd y perchennog tir wedi eu gwneud (Pant Lodge) ac, yn dilyn ymchwiliadau pellach, gwelwyd bod y cynllun arall yn rhy gymhleth i'w gwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Bydd y cynllun yn cael ei ailgyflwyno i'w ystyried ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf (Home Farm). Mae pedwar cynllun wedi'u cwblhau erbyn hyn, ac mae cynlluniau i gwblhau'r gweddill erbyn diwedd y flwyddyn.

- **Traeth Coch** – yn dilyn methiant i sicrhau cymeradwyaeth ar gyfer y cynllun hwn (oherwydd fod y dyfynbrisiau'n eithriadol o ddrud), cwblhawyd yr Achos Busnes Llawn ac mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau'n swyddogol na fydd y cynllun hwn yn mynd rhagddo.

- **Achos Busnes Llawn Llanfairpwll, Porthaethwy a'r Fali a gwaith adeiladu yn y Fali** - mae gwaith ar achos busnes Llanfairpwll wedi dod i stop, oherwydd problemau gyda chontract yr ymgynghorydd a gofynnwyd am gyngor cyfreithiol ynghylch hynny. Mae'r gwaith adeiladu yn y Fali wedi'i gwblhau. Cwblhawyd archwiliadau safle ac arolygon draenio pellach ar gyfer cynllun Porthaethwy. Mae gwaith modelu hydrolig yn mynd rhagddo yn awr, ar ôl cwblhau'r arolygon.

- **Mill Lane - Strwythur a Rheoli Llifogydd yn Naturiol (NFM)** - comisiynwyd y gril mecanyddol arloesol sy'n glanhau eu hun (yr unig un yng Nghymru ar hyn o bryd). Mae gweithrediad y peiriant yn cael ei fonitro'n ofalus i asesu ei berfformiad a'i effeithiolrwydd, a chafodd gwersi eu dysgu'n fuan. Mae rhai addasiadau, gan gynnwys gosod camerâu cylch cyfyng, yn cynorthwyo i asesu perfformiad y cynllun. Mae trafodaethau'n parhau gyda'r perchennog tir mewn perthynas â'r elfen NFM, er mai araf fu'r cynnydd. Mae'n bosib mai dim ond yr elfen ddylunio fydd yn cael ei chwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol hon, gyda'r elfen adeiladu'n cael ei hailgyflwyno ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

- **Cwrs Dŵr Cyffredin Dwyran – Rheoli Llifogydd yn Naturiol (NFM)** – mae'r mân broblemau wedi derbyn sylw, ac mae'r offer telemetreg ar gyfer monitro effeithiolrwydd y cynllun wedi cael ei osod erbyn hyn.

- **Teithio Llesol -** mae'r Cyngor wedi sicrhau grant gwerth £0.538m gan Lywodraeth Cymru (LlC) i hyrwyddo a chynyddu teithiol llesol, gwella iechyd a llesiant, lleihau allyriadau carbon a gwella teithio llesol ar gyfer cyflogaeth, addysg a gwasanaethau allweddol, cyrchfannau a thrafnidiaeth gyhoeddus. Mae £0.500m wedi'i neilltuo ar gyfer gwaith craidd sy'n ymgorffori nifer o gynigion ar gyfer cynlluniau ac mae £0.038m wedi'i ddyfarnu i Lanfairpwll a Phorthaethwy (gwelliannau i'r briffordd). Mae cynnydd yn ystod Chwarter 2 yn cynnwys:-

    - Mae LlC wedi cymeradwyo Map Rhwydwaith Teithio Llesol Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) ym mis Awst 2022 (rhan o'r grŵp cyntaf o Awdurdodau Lleol i dderbyn cymeradwyaeth i'r map diwygiedig);
    - Mae gweithgareddau datblygu ymlaen llaw yn mynd rhagddynt ar y cynllun yn Lôn Graig / Refail Llanfairpwll, Benllech ac ar gyfer y coridor rhwng Pont Marquis a Niwbwrch;
    - Ymweliadau safle a gwaith drafftio dyluniadau cychwynnol ar gyfer gwaith ar raddfa fach (llwybrau methiant critigol yn Llangefni ac Amlwch a chroesfan ffurfiol yn y Fali);
    - Cwblhawyd astudiaeth WelTAG Cam 1 gyda chyllid arall gan LlC ar gyfer y llwybr yn Llanfairpwll a Phorthaethwy a bydd hyn yn caniatáu i waith gael ei wneud fel rhan o'r cyllid gwerth £0.038m;
    - Mae gweithgareddau Monitro ac Arfarnu yn cynnwys: drafftio logo Teithio Llesol CSYM, caffael offer i gyfrif nifer defnyddwyr, hyfforddiant archwilio, sicrhau trwydded ymgynghori ar gyfer 12 mis a diweddaru tudalennau gwe corfforaethol.

- **Cronfa Ffyrdd Gwydyn – m**ae'r Cyngor wedi llwyddo i sicrhau cyllid o dan y grant hwn i gynnal astudiaeth Arweiniad ar Arfarnu Tranidiaeth Cymru (WelTAG) Cam 3 i'r math o fesurau gwydnwch y gellir eu rhoi ar waith ar y B5109 i Fiwmares. Bu'n rhaid cau'r ffordd hon yn y gorffennol oherwydd tywydd drwg, ac mae'r sefyllfa'n siŵr o waethygu yn sgil y stormydd a ragwelir o ganlyniad i newid hinsawdd. Yn ystod chwarter 2, cynhaliodd y Cyngor broses dendr gystadleuol ar gyfer cwblhau'r adroddiad WelTAG cam 3. Penodwyd Atkins Ltd fel Ymgynghorydd, a bydd y comisiwn yn cychwyn yn ystod chwarter 3, gyda'r bwriad o'i gwblhau cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd y gyllideb lawn yn cael ei gwario.

- **Cronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn –** cytunodd Llywodraeth Cymru i gynyddu'r gyllideb a ddyrannwyd a rhoi estyniad amser hyd fis Gorffennaf 2022. Mae'r prosiect wedi'i gwblhau yn awr – mae'r holl bwyntiau gwefru wedi cael eu gosod a chawsant eu rhoi ar waith ym mis Gorffennaf 2022.

- **Y Gronfa Trafnidiaeth Leol –** gwelliannau isadeiledd – dyfarnwyd £0.750m yn 2021/22 i hwyluso gwelliannau isadeiledd ar Ynys Môn er mwyn cefnogi gwaith cyflawni rhwydwaith bysiau (Metro Gogledd Cymru) ar ran Trafnidiaeth Cymru. Sicrhawyd estyniad amser ac mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno y gellir hawlio'r grant llawn. Yn ystod chwarter 2, cwblhawyd prawf derbynioldeb ffatri ar yr holl gynnyrch (yn ychwanegol i'r tystysgrifau braenio a dderbyniwyd yn chwarter 1), cwblhawyd gwaith sifil ar gyfer y safleoedd solar inc electronig. Mae disgwyl rhaglen ddiwygiedig ar gyfer y gwaith sifil sy'n weddill ac mae meddalwedd i ddarparu cynnwys ar gyfer y polion totem yn cael ei ddatblygu.

- **Cronfa Trafnidiaeth Leol -** dyfarnwyd £630k yn 2022/23 er mwyn gwella isadeiledd bysiau sy'n ymwneud ag ailddatblygu arosfannau bysiau mewn safleoedd cyfnewid bysiau allweddol (h.y. cysgodfannau bysiau newydd / cyflwyno gwelliannau ar dir cyhoeddus ac ati). Yn ystod chwarter 2, cwblhawyd yr holl waith dylunio ac ar hyn o bryd mae camau'n cael eu cymryd i sicrhau cymeradwyaeth y Cynghorau Tref perthnasol. Rhannwyd y dyluniadau â'r prif gontractwr er mwyn prisio'r gwaith cyfalaf a chytuno ar raglen waith.

- **Grantiau Gwres Carbon Isel** - dyfarnwyd cyllid i'r Cyngor gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â grantiau Carbon Isel Sector Cyhoeddus (ar gyfer Ysgol Gynradd Moelfre (£0.091m) a Swyddfeydd y Cyngor (£1.033m)) er mwyn cynorthwyo i ddarparu a gosod pympiau gwres. Gwariwyd 90% o'r ddau ddyfarniad grant a chytunodd LlC i drosglwyddo gweddill y dyfarniad grant i flwyddyn ariannol 2022/23 er mwyn cwblhau'r gwaith yn ystod chwarter 2 2022/23. Mae'r gwaith wedi'i gwblhau yn Ysgol Gynradd Moelfre. Dim ond yn ddiweddar y rhoddwyd caniatâd cynllunio i'r gwaith barhau yn Swyddfeydd y Cyngor. Mae disgwyl i'r contractwr ddychwelyd i'r safle, a rhagwelir y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau yn ystod chwarter 3.

- **Cae 3G Amlwch** – sicrhawyd cyllid gwerth £0.075m tuag at ddarparu cae 3G yn Amlwch, ac mae gweddill y gyllideb yn cael ei gyllido o'r gronfa wrth gefn gyfalaf ar gyfer gwelliannau hamdden. Mae'r prosiect wedi'i gwblhau yn awr.

- **Porth Arfordirol Môn** – roedd y gwaith yn chwarter 2 yn cynnwys arolygon a gwaith ymchwil ar rai agweddau penodol, ac mae'r gwaith o edrych ar beth sy'n bosib ar bedwar safle gwahanol, sicrhau mynediad ar gyfer trydan a'r prif ddraeniau ac ati wedi bod yn mynd rhagddo yn ystod misoedd yr haf. Mae'r gwaith wedi mynd allan i dendr a disgwylir i'r tendrau ddod yn ôl ddechrau mis Tachwedd 2022. Disgwylir i'r gyllideb lawn gael ei gwario yn ystod y flwyddyn ariannol hon, yn unol ag amodau'r grant.

- **Grant Ysgolion Bro –** dyfarnwyd £0.476m o gyllid grant gan Lywodraeth Cymru i gefnogi prosiectau ymarferol ar raddfa fach a chanolig i agor ysgolion tu allan i oriau traddodiadol, yn benodol ar gyfer addasu ysgolion yn ddiogel a'u hagor tu allan i oriau traddodiadol er mwyn caniatáu i'r gymunedau ddefnyddio'r cyfleusterau. Ni fu unrhyw wariant ar y cynllun hyd yma, ond bu'r gwasanaeth yn ymgysylltu ag ysgolion i gasglu eu syniadau am sut i ddefnyddio'r cyllid grant. Yr her a wynebir gan y gwasanaeth yw sicrhau fod y gwaith yn cael ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn, yn unol ag amodau'r grant. Y rheswm am hyn yw capasiti i gyflawni'r gwaith, ac mae newidiadau staffio diweddar wedi gwaethygu'r broblem. Mae'r gwasanaeth yn hyderus y gallant ymrwymo'r cyllid yn llawn erbyn diwedd y flwyddyn, ac maent wedi ysgrifennu at LlC i ofyn am hyblygrwydd mewn perthynas â chwblhau'r gwaith erbyn diwedd y flwyddyn. Ni dderbyniwyd ymateb gan LlC eto.

- **Grant Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)** – mae Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu cyllid grant gwerth £0.476m i gefnogi dysgwyr sydd ag ADY. Nod y grant yw gwneud y mwyaf o amgylcheddau dysgu o dan 16 oed ar gyfer disgyblion sydd ag ADY a gwella hygyrchedd er mwyn hyrwyddo arferion cynhwysol, cefnogi dysgu a llesiant disgyblion. Bydd hyn yn cynorthwyo i roi Deddf ADY a'r Tribiwnlys Addysg Cymru 2018 a'r Cwricwlwm i Gymru ar waith. Ni chafwyd unrhyw wariant ar y cynllun hyd yma, a'r her a wynebir gan y gwasanaeth yw a fydd yn bosib cwblhau'r gwaith erbyn diwedd y flwyddyn, yn unol ag amodau'r grant. Y rheswm am hyn yw capasiti i gyflawni'r gwaith, ac mae newidiadau staffio diweddar wedi gwaethygu'r broblem. Yn ogystal, mae'r amseroedd aros yn sylweddol ac mae natur y gwaith yn golygu bod rhaid ei gwblhau yn ystod gwyliau ysgol pan nad oes disgyblion ar y safle, ond mae hyn yn golygu fod cyfleoedd yn gyfyngedig iawn. Mae'r gwasanaeth yn hyderus y gallant ymrwymo'r cyllid erbyn diwedd y flwyddyn, ac maent wedi ysgrifennu at LlC i ofyn am hyblygrwydd mewn perthynas â chwblhau'r gwaith erbyn diwedd y flwyddyn. Ni dderbyniwyd ymateb gan LlC eto.

## 3.2 Derbyniadau Cyfalaf

**3.2.1** Dyma'r Derbyniadau Cyfalaf ar gyfer y flwyddyn hon hyd yma a'r Derbyniadau Cyfalaf y cyllidwyd ar eu cyfer:-

| | Cyllideb 2022/23 £'000 | Derbyniwyd hyd at 30-Medi-2022 £'000 | Rhagolwg i 31-Mawrth-2023 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Cronfa'r Cyngor:** | | | |
| Mân-ddaliadau | 0 | 0 | 0 |
| Cyffredinol | 0 | 60 | 60 |
| Diwydiannol | 0 | 0 | 0 |
| Ysgolion | 672 | 146 | 714 |
| **Cyfanswm** | **672** | **206** | **774** |

**3.2.2** Y Derbyniadau Cyfalaf a ragwelir ar 31 Mawrth 2023 yw £0.774m, a derbyniwyd £0.206m erbyn 30 Medi 2022 (27%).

**3.2.3** Er bod y Derbyniadau Cyfalaf a ragwelir yn £0.774m, mae £3.155m o Dderbyniadau Cyfalaf ar gael i gyllido'r Rhaglen Gyfalaf oherwydd bod £2.381m o Dderbyniadau Cyfalaf wedi eu dwyn ymlaen o 2021/22 yn y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf wrth gefn. Ni fydd y ffigwr hwn i gyd ar gael i gyllido'r rhaglen gyfalaf gyffredinol, gan y bydd cyllid wedi'i glustnodi i gyllido'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy fel rhan o gyllid cyfatebol Cyngor Sir Ynys Môn, yn ogystal â'r gronfa wrth gefn Hamdden a glustnodwyd i gyllido gwelliannau hamdden.

## 4. GWARIANT CYFALAF GWIRIONEDDOL A RAGWELIR YN 2022/23

**4.1** Mae'r tabl isod yn rhoi amcangyfrif o'r gwariant a ragwelir erbyn 31 Mawrth 2023 a'r cyllid diwygiedig:-

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Gwariant a Ragamcenir £'000 | (Tan) / Gor Wariant a Ragamcenir £'000 | Amrywiad % |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa Tai Gyffredinol | 1,497 | 1,037 | (460) | (31) |
| CRT Tai | 15,034 | 12,085 | (2,949) | (20) |
| Dysgu Gydol Oes | 15,715 | 15,715 | 0 | 0 |
| Economaidd ac Adfywio | 6,427 | 6,114 | (313) | (5) |
| Priffyrdd | 7,473 | 6,363 | (1,110) | (15) |
| Rheoli Gwastraff | 451 | 171 | (280) | (62) |
| Eiddo | 1,731 | 1,353 | (378) | (22) |
| Trawsnewid | 711 | 629 | (82) | (12) |
| Cynllunio | 1,050 | 1,050 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau Oedolion | 1,636 | 1,636 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **51,725** | **46,153** | **(5,572)** | **(11)** |
| **Cyllidwyd gan:** | **Cyllideb Flynyddol £'000** | **Cyllid a Ragamcenir £'000** | **Amrywiad £'000** | **Amrywiad %** |
| Grant Cyfalaf | 19,253 | 18,331 | (922) | (5) |
| Derbyniadau Cyfalaf | 1,108 | 830 | (278) | (25) |
| Benthyca â Chefnogaeth | 7,068 | 6,240 | (828) | (12) |
| Benthyca Digefnogaeth | 6,742 | 6,742 | 0 | 0 |
| Cyfraniad Refeniw | 10,365 | 7,602 | (2,763) | (27) |
| Cronfeydd wrth Gefn | 7,112 | 6,331 | (781) | (11) |
| Benthyciad | 77 | 77 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **51,725** | **46,153** | **(5,572)** | **(11)** |

**4.2** Fel y gwelir yn Nhabl 4.1 (uchod), y tanwariant a ragwelir ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2022/23 yw £5.572m, gyda'r swm hwn yn llithro, o bosib, i Raglen Gyfalaf 2023/24. Bydd y cyllid ar gyfer y llithriad hwn hefyd yn llithro i 2023/24 a bydd yn cael ei gymryd i ystyriaeth wrth gynhyrchu'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys, y Strategaeth Gyfalaf a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2023/24.

Yr hyn sy'n cyfannu fwyaf at y tanwariant a ragwelir yw tanwariant o fewn y CRT, lle rhagwelir tanwariant sylweddol, fel yr eglurir yn adroddiad monitro cyllideb chwarter 2 y CRT.

Mae'r tanwariant sylweddol a ragwelir yn y rhaglen gyfalaf cronfa gyffredinol wedi'i grynhoi isod:-

**Economaidd ac Adfywio**

Bydd y cynlluniau Isadeiledd Morwrol ac Isadeiledd Ymwelwyr yn llithro i'r flwyddyn ariannol nesaf. O ran y cynllun Isadeiledd Morwrol – rhoddir blaenoriaeth i'r gwaith yn Amlwch ac, er bod gwaith cefndirol wedi dechrau ac ymgynghorwyr wedi'u penodi, mae angen y gyllideb lawn o hyd a bydd y mwyafrif o'r gwaith yn cael ei wneud yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Ni chafwyd unrhyw wariant hyd yma ar y cynllun Isadeiledd Ymwelwyr, ond rhagwelir rhywfaint o wariant yn chwarter 3 a 4. Serch hynny, mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd gyda'r adran Briffyrdd ynglŷn â'r gwaith sydd angen ei wneud ac, felly, ni fydd y cynllun yn cael ei gwblhau yn ystod y flwyddyn hon a rhagwelir llithriad yn barod.

**Rheoli Gwastraff**

Ni fydd y gyllideb ar gyfer Offer Ailgylchu'n cael ei wario'n llawn a ragwelir tanwariant yn awr. Y rheswm am hyn yw'r amseroedd aros ar gyfer peiriannau / cyfarpar penodol ac, ar ôl gwneud ymholiadau ynghylch eu caffael, ni fyddant yn cael eu cyflenwi cyn diwedd y flwyddyn. Mae'r gyllideb wedi'i hymrwymo'n llawn a bydd angen iddi lithro i'r flwyddyn ariannol nesaf.

**Eiddo**
Ni fydd cyllideb y cynllun Uwchraddio Toiledau Cyhoeddus yn cael ei wario'n llawn ac, ar hyn o bryd, amcangyfrifir mai dim ond £40k fydd yn cael ei wario yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Mae'r gwasanaeth wrthi'n datblygu cynllun gwella toiledau a fydd yn rhoi gwell syniad o'r gofynion cyfalaf yn ystod y blynyddoedd ariannol nesaf. Yn ogystal, rhagwelir y gallai cyllid grant ychwanegol ar gyfer gwaith cyfalaf ar doiledau cyhoeddus fod ar gael yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, a byddai modd defnyddio'r gyllideb hon eto fel cyllid cyfatebol os yw'r cyfle hwn yn codi.

**Adeiladau addysg – mynediad i'r anabl**
Ar ddiwedd chwarter 1, rhagwelwyd tanwariant ar addasiadau i'r anabl mewn adeiladau addysg. Disgwylir yn awr i'r gyllideb hon gael ei gwario'n llawn fel rhan o waith ehangach sy'n cael ei wneud gyda chyllid grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru (Grant ADY a ddisgrifiwyd yn adran 3.1.1 uchod).

**Cynlluniau Priffyrdd**
Mae'r tanwariant a ragwelir o fewn y cynlluniau Priffyrdd yn gysylltiedig â chynlluniau llifogydd amrywiol, yn bennaf oherwydd bod prosiectau'n pontio dwy flwyddyn ariannol ac oherwydd bod rhai wedi ymestyn i flwyddyn ariannol 2023/24 i'w cwblhau.

Bydd y cyllid hefyd yn llithro i'r flwyddyn ariannol nesaf, fel y disgrifir uchod, ac ni fydd unrhyw gyllid yn cael ei golli.

**Melin Llynnon – costau uwch**
Rhoddwyd y prosiect ar dendr drwy GwerthwchiGymru. Roedd y pris tendr a dderbyniwyd yn uwch na'r disgwyl pan osodwyd y gyllideb ac, oherwydd hynny, gofynnir am gynnydd o £82k yn y gyllideb. Disgwylir i'r cynnydd yn y gyllideb gael ei gyllido trwy gyllid grant ond, pan ysgrifennwyd yr adroddiad hwn, nid oedd cadarnhad wedo'i dderbyn (er bod y gwasanaeth yn hyderus y bydd yn cael ei gymeradwyo). Os na fydd y grant yn cael ei gymeradwyo, bydd y cynnydd yn y gyllideb yn cael ei gyllido trwy fenthyca digefnogaeth, ac mae'r incwm rhent yn ddigonol i gwrdd â'r ad-daliadau.

**4.3** Y Gofyniad Cyllid Cyfalaf a ragwelir ar 31 Mawrth 2023 yw £146.854m, sef yr angen sylfaenol i'r Awdurdod fenthyca er mwyn gallu cyllido ei Raglen Gyfalaf. Ar hyn o bryd mae benthyca allanol yn £124.155m, sy'n golygu yn ei hanfod bod angen i'r Awdurdod fenthyca £22.699m i gyllido'r Rhaglen Gyfalaf gyfredol. Os ymgymerir â'r benthyca hwn yn allanol, bydd yr Awdurdod yn dal i fod o fewn ei derfynau benthyca awdurdodedig yn unol â'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2022/23 (Atodiad 11).

## 5. BLYNYDDOEDD Y DYFODOL

**5.1** Argymhellodd y Strategaeth Gyfalaf y dylai'r cyllid ar gyfer Rhaglen Gyfalaf 2022/23 gael ei gyfyngu i gyfanswm y grant cyfalaf cyffredinol a benthyca â chefnogaeth (fel y penderfynir gan Lywodraeth Cymru) a gwerth amcangyfrifedig unrhyw dderbyniadau cyfalaf a geir. Disgwylir y bydd Rhaglen Gyfalaf 2023/24 yn dilyn yr un egwyddor, gyda'r Grant Cyfalaf Cyffredinol a Benthyca â Chefnogaeth yn cael eu defnyddio i gyllido adnewyddu cerbydau bob blwyddyn, buddsoddi mewn TGCh, adnewyddu asedau cyfredol a dyraniad blynyddol i dalu am gost y grantiau statudol i ddarparu Cyfleusterau i'r Anabl. Bydd cyllid ar gael hefyd ar gyfer ail-wynebu ffyrdd a phrosiectau cyfalaf sy'n denu grantiau allanol, a bydd y rhain yn cael eu gwerthuso fesul achos.

Ar ôl i'r prosiectau uchod gael eu cyllido, bydd unrhyw gyllid dros ben yn cael ei ddefnyddio i gyllido cynlluniau cyfalaf newydd, gyda blaenoriaeth yn cael ei roi i brosiectau sy'n cyfrannu at amcanion y Cyngor, fel y nodir nhw yng nghynllun corfforaethol drafft y Cyngor am y cyfnod 2022 – 2027, ac unrhyw gynlluniau a all gynhyrchu arbedion refeniw yn y dyfodol neu gynhyrchu incwm ychwanegol.

## 6. CASGLIAD

**6.1** Mae’r canlyniadau ar ddiwedd chwarter 2, a’r gwariant cysylltiedig a ragwelir, yn dangos fod y mwyafrif o brosiectau ar darged i’w cwblhau o fewn y gyllideb. Rhagwelir costau uwch ar gyfer cynllun Melin Llynnon ar hyn o bryd ac, oherwydd hynny, gofynnwyd i gyllid ychwanegol gael ei gymeradwyo er mwyn sicrhau fod y cynllun llawn yn cael ei gwblhau. Mae’r Cyngor wedi sicrhau nifer o wahanol grantiau allanol ac mae gwaith yn mynd rhagddo’n dda ar y rhan fwyaf o’r cynlluniau hyn, neu disgwylir i hynny ddigwydd. Yn ogystal, mae’r Cyngor yn disgwyl derbyn £0.774m o Dderbyniadau Cyfalaf yn 2022/23 i gyfrannu tuag at gyllido’r Rhaglen Gyfalaf.

**ATODIAD B**

## Crynodeb o Wariant Prosiectau Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a'r Gwariant a Ragwelir ar Ddiwedd y Flwyddyn

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Gwariant Gwirionedd ol (£) | Gwariant a Ymrwymwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad i'r Proffil (£) | Gyllideb a Broffiliwyd a Wariwyd (%) | Gyllideb Flynyddol a Wariwyd (%) | Gwariant a Ragamcenir (£) | (Tan)/ Gorwariant a Ragamcenir | Amrywiad (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfa Dai Gyffredinol** | | | | | | | | | | | |
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | 845,226 | 60,000 | 55,427 | 0 | 55,427 | (4,573) | 92 | 7 | 845,226 | 0 | 0 |
| Safle Preswyl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr | 490,841 | 31,217 | 31,217 | 0 | 31,217 | (0) | 100 | 6 | 31,217 | (459,624) | (94) |
| Cynllun Prynu Gorfodol | 130,000 | 100,000 | 116,325 | 0 | 116,325 | 16,325 | 116 | 89 | 130,000 | 0 | 0 |
| Tai fforddiadwy | 30,650 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 30,650 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **1,496,717** | **191,217** | **202,970** | **0** | **202,970** | **11,753** | **106** | **14** | **1,037,093** | **(459,624)** | **(31)** |
| | | | | | | | | | | | |
| **CRT Tai** | | | | | | | | | | | |
| Contract Gwres Canolog | 800,000 | 549,387 | 441,477 | 0 | 441,477 | (107,910) | 80 | 55 | 800,000 | 0 | 0 |
| Cerbydau'r Uned Cynnal a Chadw Tai | 27,383 | 27,383 | 27,383 | 0 | 27,383 | 0 | 100 | 100 | 27,383 | 0 | 0 |
| Contract Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd | 3,955,000 | 612,474 | 493,623 | 154,581 | 648,204 | 35,730 | 106 | 16 | 2,500,000 | (1,455,000) | (37) |
| Gwella Perfformiad Ynni | 1,000,000 | 62,178 | 52,178 | 0 | 52,178 | (10,000) | 84 | 5 | 250,000 | (750,000) | (75) |
| Gwaith Amgylcheddol | 870,667 | 62,676 | 80,304 | 390 | 80,694 | 18,018 | 129 | 9 | 500,000 | (370,667) | (43) |
| Prynu Eiddo Presennol a datblygu eiddo newydd | 5,479,000 | 2,100,000 | 2,063,585 | 66,383 | 2,129,968 | 29,968 | 101 | 39 | 6,006,131 | 527,131 | 10 |
| Addasiadau Sector Cyhoeddus | 400,000 | 143,050 | 83,362 | 117,392 | 200,754 | 57,704 | 140 | 50 | 400,000 | 0 | 0 |
| Risg Tân | 600,000 | 7,737 | 3,090 | 26,255 | 29,345 | 21,608 | 379 | 5 | 600,000 | 0 | 0 |
| Tir Halogedig | 1,950 | 1,925 | 975 | 0 | 975 | (950) | 51 | 50 | 1,950 | 0 | 0 |
| SATC | 1,900,000 | 446,548 | 403,896 | 0 | 403,896 | (42,652) | 90 | 21 | 1,000,000 | (900,000) | (47) |
| **CYFANSWM** | **15,034,000** | **4,013,358** | **3,649,873** | **365,001** | **4,014,874** | **1,516** | **100** | **27** | **12,085,464** | **(2,948,536)** | **(20)** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | | | | | | |
| Mynediad i'r Anabl mewn Adeiladau Addysgol | 144,512 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 144,512 | 0 | 0 |
| Adnewyddu Adeiliadau Addysg | 2,847,218 | 1,300,000 | 1,353,102 | 61,057 | 1,414,159 | 114,159 | 109 | 50 | 2,847,218 | 0 | 0 |
| Diogelwch Ysgolion | 136,792 | 10,000 | 8,643 | 0 | 8,643 | (1,357) | 86 | 6 | 136,792 | 0 | 0 |
| Canolfan Addysg y Bont - To | 2,490,852 | 1,300,000 | 1,295,498 | 2,636 | 1,298,134 | (1,866) | 100 | 52 | 2,490,852 | 0 | 0 |
| Canolfan Addysg y Bont - Dosbarth | 90,000 | 90,000 | 0 | 90,000 | 90,000 | 0 | 100 | 100 | 90,000 | 0 | 0 |
| Ailwynebu Ardal Chwarae | 18,756 | 5,000 | 5,310 | 0 | 5,310 | 310 | 106 | 28 | 18,756 | 0 | 0 |
| Grant Cyfalaf Dechra'n Deg | 50,000 | 2,000 | 1,886 | 525 | 2,411 | 411 | 121 | 5 | 50,000 | 0 | 0 |
| Grant Prydau Ysgol am Ddim | 1,379,380 | 185,000 | 182,418 | 0 | 182,418 | (2,582) | 99 | 13 | 1,379,380 | 0 | 0 |
| Canopïau Allanol | 371,000 | 200,000 | 44,375 | 173,875 | 218,250 | 18,250 | 109 | 59 | 371,000 | 0 | 0 |
| Grant Ysgolion Bro | 475,530 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 475,530 | 0 | 0 |
| Grant Anghenion Dysgu Ychwanegol | 475,530 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 475,530 | 0 | 0 |
| Grant Cynyddu Capasiti Gofal Plant (costau rheoli prosiect a chynllun grant) | 42,907 | 25,000 | 25,145 | 225 | 25,370 | 370 | 101 | 59 | 42,907 | 0 | 0 |
| Cwblhau Rhaglen Band A | 4,973,892 | 2,600,000 | 2,443,349 | 158,826 | 2,602,175 | 2,175 | 100 | 52 | 4,973,892 | 0 | 0 |
| Cwblhau Rhaglen Band B | 2,218,342 | 280,000 | 261,537 | 15,142 | 276,679 | (3,322) | 99 | 12 | 2,218,342 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **15,714,711** | **5,997,000** | **5,621,263** | **502,286** | **6,123,548** | **126,548** | **102** | **39** | **15,714,711** | **0** | **0** |

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Gwariant Gwirionedd ol (£) | Gwariant a Ymrwymwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad i'r Proffil (£) | Gyllideb a Broffiliwyd a Wariwyd (%) | Gyllideb Flynyddol a Wariwyd (%) | Gwariant a Ragamcenir (£) | (Tan)/ Gorwariant a Ragamcenir (£) | Amrywiad (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Economaidd ac Adfywio** | | | | | | | | | | | |
| Gwelliannau Hamdden | 125,612 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 125,612 | 0 | 0 |
| Ystafell Ffitrwydd Amlwch | 13,845 | 7,500 | 7,506 | 0 | 7,506 | 6 | 100 | 54 | 13,845 | 0 | 0 |
| Ystafell Ffitrwydd David Hughes | 118,000 | 118,000 | 99,991 | 19,644 | 119,635 | 1,635 | 101 | 101 | 121,000 | 3,000 | 3 |
| Cae Chwarare 3G Amlwch | 138,110 | 138,110 | 117,443 | 20,667 | 138,110 | 0 | 100 | 100 | 138,110 | 0 | |
| Porth Twristiaeth | 50,000 | 15,000 | 0 | 18,439 | 18,439 | 3,439 | 123 | 37 | 50,000 | 0 | 0 |
| Parc y Morglawdd | 525,000 | 100,000 | 60,479 | 75,601 | 136,080 | 36,080 | 136 | 26 | 525,000 | 0 | 0 |
| Stâd Ddiwydiannol Penrhos - Cam 2 | 2,279,410 | 1,000,000 | 934,472 | 235,246 | 1,169,718 | 169,718 | 117 | 51 | 2,279,410 | 0 | 0 |
| Stâd Ddiwydiannol Penrhos - Cam 3 | 600,000 | 300,000 | 134,080 | 154,800 | 288,880 | (11,120) | 96 | 48 | 600,000 | 0 | 0 |
| Datblygu Economaidd a Lles Amgylcheddol | 109,600 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 109,600 | 0 | 0 |
| Llithfra Porth y Wrach - Camerau Gorfodi | 30,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 30,000 | 0 | 0 |
| Canolfan Gymuned Newry | 200,000 | 120,000 | 88,068 | 37,790 | 125,858 | 5,858 | 105 | 63 | 200,000 | 0 | 0 |
| Unedau Porth (ERDF) | 1,067,908 | 1,000,000 | 1,013,681 | 22,818 | 1,036,499 | 36,499 | 104 | 97 | 1,067,908 | 0 | 0 |
| Cyd-fenter Safle Porth | 261,069 | 60,000 | 38,561 | 23,875 | 62,436 | 2,436 | 104 | 24 | 261,069 | 0 | 0 |
| Isadeiledd Morwrol | 200,000 | 20,000 | 0 | 51,455 | 51,455 | 31,455 | 257 | 26 | 20,000 | (180,000) | (90) |
| Isadeiledd Ymwelwyr | 200,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 60,000 | (140,000) | (70) |
| Melin Llynnon | 185,000 | 10,000 | 5,975 | 6,175 | 12,150 | 2,150 | 0 | 7 | 185,000 | 0 | 0 |
| Grant Covid Trawsnewid Trefi | 10,064 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 10,064 | 0 | 0 |
| Porth Arfordirol Môn | 310,000 | 2,000 | 1,450 | 460 | 1,910 | (90) | 96 | 1 | 310,000 | 0 | 0 |
| Grant Porth Amlwch | 3,836 | 7,850 | 7,850 | 0 | 7,850 | 0 | 100 | 205 | 7,850 | 4,014 | 105 |
| **CYFANSWM** | **6,427,454** | **2,898,461** | **2,509,556** | **666,970** | **3,176,526** | **278,066** | **110** | **49** | **6,114,468** | **(312,986)** | **(5)** |
| | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | |
| **Priffyrdd a Thrafnidiaeth** | | | | | | | | | | | |
| Uwchraddio Peiriannau Talu ac Arddangos Mewn Meysydd Parcio | 4,533 | 5,500 | 0 | 5,469 | 5,469 | (32) | 99 | 121 | 5,500 | 967 | 21 |
| Cerbydau | 573,745 | 145,000 | 7,938 | 135,979 | 143,917 | (1,083) | 99 | 25 | 573,745 | 0 | 0 |
| Ailwynebu Priffyrdd | 2,000,000 | 1,200,000 | 1,210,826 | 0 | 1,210,826 | 10,826 | 101 | 61 | 2,000,000 | 0 | 0 |
| Lliniaru Llifogydd yn Llansadwrn | 32,291 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 0 | (32,291) | (100) |
| Astudiaethau Traenio Amlwch a Chaergybi | 65,420 | 15,000 | 13,678 | 0 | 13,678 | (1,322) | 91 | 21 | 65,420 | 0 | 0 |
| Cynllun Lliniaru Llifogydd Traeth Coch | 23,933 | 1,000 | 1,295 | 0 | 1,295 | 295 | 130 | 5 | 10,000 | (13,933) | (58) |
| Cynllun Lliniaru Llifogydd Llanfair | 397,649 | 250 | 256 | 0 | 256 | 6 | 103 | 0 | 15,000 | (382,649) | (96) |
| Achos Busnes Llawn Cynllun Lliniaru Llifogydd Porthaethwy | 167,271 | 30,000 | 30,627 | 0 | 30,627 | 627 | 102 | 18 | 53,000 | (114,271) | (68) |
| Achos Busnes Llawn Cynllun Lliniaru Llifogydd Y Fali | 41,349 | 10,000 | 11,200 | 0 | 11,200 | 1,200 | 112 | 27 | 15,000 | (26,349) | (64) |
| Cynllun Llifogydd Y Fali - adeiladu | 472,841 | 400,000 | 376,016 | 13,476 | 389,492 | (10,508) | 97 | 82 | 472,841 | 0 | 0 |
| Cynlluniau Lliniaru Llifogydd (Cyllid Cyfatebol) | 135,800 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 0 | (135,800) | (100) |
| Traeth Coch (Cyllid Cyfatebol) | 235,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 0 | (235,000) | (100) |
| Strwythur Mill Lane | 42,258 | 30,000 | 29,065 | 0 | 29,065 | (935) | 97 | 69 | 42,258 | 0 | 0 |
| Dwyran - cwrs dŵr cyffredinol - NFM | 21,528 | 11,000 | 11,786 | 0 | 11,786 | 786 | 107 | 55 | 21,528 | 0 | 0 |
| Mill Lane - NFM | 241,640 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 70,000 | (171,640) | (71) |
| Buddsoddi i Arbed - Cerbydau | 5,068 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 5,068 | 0 | 0 |
| Gwaith Grant Graddfa Fechan | 539,288 | 70,000 | 66,949 | 0 | 66,949 | (3,051) | 96 | 12 | 539,288 | 0 | 0 |
| Teithio Llesol | 537,500 | 100,000 | 91,092 | 10,250 | 101,342 | 1,342 | 101 | 19 | 537,500 | 0 | 0 |
| Cronfa Ffyrdd Gwydn | 230,000 | 10,000 | 15,729 | 0 | 15,729 | 5,729 | 157 | 7 | 230,000 | 0 | 0 |
| Cronfa Trafnidiaeth Leol - Gwelliannau Isadeiledd | 672,878 | 672,878 | 672,878 | 0 | 672,878 | 0 | 100 | 100 | 672,878 | 0 | 0 |
| Cronfa Trafnidiaeth Leol - Gwelliannau Isadeiledd Bysiau | 630,000 | 10,000 | 8,927 | 0 | 8,927 | (1,073) | 89 | 1 | 630,000 | 0 | 0 |
| Cronfa Trawsnewid Cerbydau - Pwyntiau gwefru cerbydau trydan | 127,797 | 110,000 | 128,010 | 0 | 128,010 | 18,010 | 116 | 100 | 128,010 | 213 | 0 |
| Isadeiledd Gwefru Cerbydau Trydan | 275,527 | 100,000 | 62,674 | 52,229 | 114,903 | 14,903 | 115 | 42 | 275,527 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **7,473,315** | **2,920,629** | **2,738,946** | **217,403** | **2,956,349** | **35,720** | **101** | **40** | **6,362,562** | **(1,110,753)** | **(15)** |
| | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | |
| **Rheoli Gwastraff** | | | | | | | | | | | |
| Paciwr Rholio | 28,750 | 28,750 | 28,750 | 0 | 28,750 | 0 | 100 | 100 | 28,750 | 0 | 0 |
| Cyllid Economi Cylchol (265) | 5,836 | 2,400 | 2,400 | 0 | 2,400 | 0 | 100 | 41 | 5,836 | 0 | 0 |
| Gwaith IVC | 36,620 | 20,000 | 23,025 | 0 | 23,025 | 3,025 | 115 | 63 | 36,620 | 0 | 0 |
| Offer Ailgylchu | 380,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 100,000 | (280,000) | (74) |
| **CYFANSWM** | **451,206** | **51,150** | **54,175** | **0** | **54,175** | **3,025** | **106** | **12** | **171,206** | **(280,000)** | **(62)** |

# ATODIAD B

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant a Ymrwymwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad i'r Proffil (£) | Gyllideb a Broffiliwyd a Wariwyd (%) | Gyllideb Flynyddol a Wariwyd (%) | Gwariant a Ragamcenir (£) | (Tan)/ Gorwariant a Ragamcenir (£) | Amrywiad (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Eiddo** | | | | | | | | | | | |
| Adnewyddu Asedau Cyfredol | 1,022,297 | 200,000 | 161,746 | 0 | 161,746 | (38,254) | 81 | 16 | 1,022,297 | 0 | 0 |
| Eiddo - Buddsoddi i Arbed | 77,068 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 77,068 | 0 | 0 |
| Grant Gwresogi Carbon Isel - Swyddfeydd y Cyngor | 120,563 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 120,563 | 0 | 0 |
| Grant Gwresogi Carbon Isel - Ysgol Gynradd Moelfre | 9,125 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 9,125 | 0 | 0 |
| Adnewyddu Mân-ddaliadau | 83,677 | 40,000 | 36,553 | 950 | 37,503 | (2,497) | 94 | 45 | 83,677 | 0 | 0 |
| Uwchraddio Toiledau Cyhoeddus | 418,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 40,000 | (378,000) | (90) |
| **CYFANSWM** | **1,730,730** | **240,000** | **198,299** | **950** | **199,249** | **(40,751)** | **83** | **12** | **1,352,730** | **(378,000)** | **(22)** |
| **Trawsnewid** | | | | | | | | | | | |
| TGCh - Isadeiledd Craidd | 200,000 | 160,000 | 155,744 | 16,885 | 172,629 | 12,629 | 108 | 86 | 200,000 | 0 | 0 |
| TGCh - Adnewyddu Cyfrifiaduron | 250,000 | 240,000 | 239,400 | 0 | 239,400 | (600) | 100 | 96 | 250,000 | 0 | 0 |
| TGCh - Trosglwyddo Cysylltu Môn i PSBA | 72,708 | 5,000 | 0 | 4,550 | 4,550 | (450) | 91 | 6 | 25,000 | (47,708) | (66) |
| TGCh - Uwchraddio Ystafelloedd Gyfarfod | 50,000 | 1,000 | 945 | 0 | 945 | (55) | 0 | 2 | 15,000 | (35,000) | (70) |
| Hwb TG | 138,514 | 20,000 | 18,091 | 0 | 18,091 | (1,909) | 0 | 13 | 138,514 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **711,222** | **426,000** | **414,180** | **21,435** | **435,615** | **9,615** | **102** | **61** | **628,514** | **(82,708)** | **(12)** |
| **Cynllunio** | | | | | | | | | | | |
| Partneriaeth Tirwedd Caergybi | 100,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 100,000 | 0 | 0 |
| Adfywio Caergybi (Menter Treftadaeth Treflun Cam II) | 950,000 | 200,000 | 47,966 | 143,262 | 191,228 | (8,772) | 96 | 20 | 950,000 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **1,050,000** | **200,000** | **47,966** | **143,262** | **191,228** | **(8,772)** | **96** | **18** | **1,050,000** | **0** | **0** |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | | | | | | |
| Y Gronfa Gofal Integredig (ICF) | 1,457,411 | 70,000 | 48,035 | 17,627 | 65,662 | (4,338) | 94 | 5 | 1,457,411 | 0 | 0 |
| Hwb Cymunedol Bryn Hwfa | 13,155 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 13,155 | 0 | 0 |
| Adnewyddu Plas Crigyll | 45,535 | 45,535 | 45,535 | 0 | 45,535 | (0) | 0 | 100 | 45,535 | 0 | 0 |
| Adnewyddu Plas Mona | 120,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 120,000 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **1,636,101** | **115,535** | **93,569** | **17,627** | **111,197** | **(4,339)** | **96** | **7** | **1,636,101** | **0** | **0** |
| **CYFANSWM** | **51,725,456** | **17,053,350** | **15,530,796** | **1,934,934** | **17,465,730** | **412,380** | **102** | **34** | **46,152,849** | **(5,572,608)** | **(11)** |

## Newid i gyllidebau / cynlluniau ychwanegol wedi’u hychwanegu ers gosod y gyllideb

| Cynllun | Cyllideb | CYLLIDO | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Grant** | **Cyfraniad Refeniw** | **Cronfa wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf** | **Cronfeydd wrth Gefn Cyfalaf** | **Benthyca â Chefnogaeth** | **Benthyca Digefnogaeth** |
| | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| Dechra'n Deg | 50,000 | 50,000 | | | | | |
| Teithio Llesol | 537,500 | 537,500 | | | | | |
| Ffyrdd Gwydn | 230,000 | 230,000 | | | | | |
| Gwaith Graddfa Fechan | 399,287 | 353,959 | | | | 45,328 | |
| Cynlluniau Lliniaru Llifogydd (Cyllid Cyfatebol) | (49,500) | | | | | (49,500) | |
| Paciwr Rholio | 28,750 | | | | 28,750 | | |
| Gwaith Cyfalaf IVC | 36,620 | | | 36,620 | | | |
| Cae Chwarare 3G Amlwch | 75,000 | 75,000 | | | | | |
| Canolfan Addysg y Bont - To | 1,500,000 | | | | 1,500,000 | | |
| David Hughes - gorwariant ffitrwydd | 18,000 | | | | 18,000 | | |
| Stâd Ddiwydiannol Penrhos - Cam 3 | 600,000 | 600,000 | | | | | |
| Cynllun Prynu Gorfodol | 130,000 | | | 130,000 | | | |
| Parc y Morglawdd | 525,000 | 525,000 | | | | | |
| Stâd Ddiwydiannol Penrhos - Cam 2 | 580,520 | 580,520 | | | | | |
| Porth Arfordirol Môn | 248,000 | 248,000 | | | | | |
| Isadeiledd Hwb TG | 138,514 | 138,514 | | | | | |
| Canolfan Gymuned Newry | 200,000 | | | | 200,000 | | |
| Partneriaeth Tirwedd | (90,000) | (90,000) | | | | | |
| Strwythur Mill Lane | 15,000 | 12,750 | | | 2,250 | | |
| Llifogydd Amlwch a Chaergybi | 50,542 | 50,542 | | | | | |
| Isadeledd Bysiau | 630,000 | 630,000 | | | | | |
| Ysgolion Bro | 475,530 | 475,530 | | | | | |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol | 475,530 | 475,530 | | | | | |
| Achos Busnes Llawn Cynllun Lliniaru Llifogydd Porthaethwy | 45,376 | 45,376 | | | | | |
| Prydau Ysgol am Ddim | 832,177 | 832,177 | | | | | |
| Canolfan Addysg y Bont - Dosbarth | 90,000 | | | 90,000 | | | |
| Melin Llynnon | 82,000 | 82,000 | | | | | |
| Cynllun Llifogydd Y Fali - adeiladu | 98,885 | 84,052 | | | 14,833 | | |
| AHNE - Adferiad Gwyrdd | (237,774) | (237,774) | | | | | |
| Cynllun Cyfalaf Gofal Plant | (45,331) | (45,331) | | | | | |
| Menter Treftadaeth Treflun Cam II | 525,000 | 525,000 | | | | | |
| Porth Twristiaeth | (170,000) | (170,000) | | | | | |
| Unedau Porth ERDF | 196,073 | 196,073 | | | | | |
| Band B Graig | (2,611,658) | (1,214,578) | | | | (654,080) | (743,000) |
| Band A Corn Hir | 1,205,892 | 1,569,495 | | | | | (363,603) |
| Y Gronfa Gofal Integredig (ICF) | 1,457,411 | 605,845 | 266,001 | | | 585,565 | |
| **CYFANSWM** | **8,272,344** | 7,165,180 | 266,001 | 256,620 | 1,763,833 | (72,687) | (1,106,603) |

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **PWYLLGOR GWAITH** |
| Dyddiad: | **29 TACHWEDD 2022** |
| Pwnc: | **MONITRO'R CYFRIF REFENIW TAI, CHWARTER 2 2022/23** |
| Aelod(au) Portffolio: | **Y CYNGHORYDD ROBIN WYN WILLIAMS – DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID, BUSNES CORFFORAETHOL A PHROFIAD Y CWSMER** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost: | **BETHAN HUGHES OWEN**<br>01248 752663<br>BETHANOWEN2@YNYSMON.LLYW.CYMRU |
| Aelodau Lleol: | **Amherthnasol** |

**A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau**

**1.** Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith nodi'r canlynol:-

**(i)** Y sefyllfa a nodir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer Chwarter 2 2022/23.

**(ii)** Yr alldro a ragwelir ar gyfer 2022/23.

**2. Cefndir**

**(i)** Mae'r adroddiad hwn yn dangos cyllideb refeniw sydd â gwarged a gynlluniwyd o £6,218k.

**(ii)** Y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2022/23 yw £15,034k. Roedd hyn i'w gyllido'n rhannol gan grantiau (£2,688k).

**(iii)** Roedd cyfuniad o'r gyllideb refeniw a'r gyllideb gyfalaf wedi'i haddasu yn rhoi diffyg a gynlluniwyd o £6,128k yn y gyllideb, a fyddai'n cael ei gyllido o gronfa wrth gefn y CRT.

**(iv)** Mae'r CRT wedi'i glustnodi i'w ddefnyddio ar gyfer dibenion penodol, ac ni ellir trosglwyddo arian o'r cronfeydd wrth gefn i'r Gronfa Gyffredinol, ac ni ellir defnyddio'r Gronfa Gyffredinol i gyllido'r CRT.

**3.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y CRT am y cyfnod 1 Ebrill 2022 i 30 Medi 2022.

**4. Trosolwg**

**4.1** Mae sefyllfa gwarged / diffyg refeniw y CRT ar ddiwedd Chwarter 2 yn dangos gorwariant o £493k, o gymharu â'r gyllideb a broffiliwyd. Adolygwyd y rhagolwg ac mae'n dangos rhagolwg o orwariant o £958k. Mae £298k o'r gorwariant hwn yn ymwneud â dyfarniad cyflog 2022/23, y mae'n rhaid i'r CRT ei gyllido'n llawn. Mae Atodiad A yn cynnwys mwy o fanylion.

**4.2** Mae gwariant Cyfalaf £2k yn uwch na'r gyllideb a broffiliwyd. Mae'r gyllideb a broffiliwyd yn rhagdybio fod llawer o'r gwaith yn cael ei gyflawni yn ystod ail hanner y flwyddyn. Mae'r gwariant a ragwelir ar gyfer y flwyddyn £2,949k yn is na'r gyllideb, fel yr esbonnir isod. Mae Atodiad B yn cynnwys mwy o fanylion.

**4.3** Mae'r diffyg a ragwelir (gan gyfuno refeniw a chyfalaf) yn £4,137k ar hyn o bryd, £1,991k yn is na'r gyllideb, yn bennaf oherwydd bod y gwariant cyfalaf yn is na'r gyllideb.

**5. Incwm**

**5.1** Ar ddiwedd Chwarter 2, roedd yr incwm a dderbyniwyd £19k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd, fel y nodir isod.

**5.2** Roedd incwm rhenti £32k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd Chwarter 2. Adolygwyd y rhagolwg gan fod tenantiaid wedi symud i mewn i eiddo newydd (yn ddiweddar daeth 49 eiddo newydd ar gael i'w rhentu) a chodwyd y rhagolwg i £19,452k, sef cynnydd o £32k.

**5.3** Cynhaliwyd adolygiad tebyg a ddangosodd fod disgwyl i incwm garejys fod £5k yn uwch na'r gyllideb, a disgwylir i incwm o ffioedd gwasanaeth fod £7k yn uwch na'r gyllideb.

**5.4** Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg yn 1.5% o'r incwm rhent, ffigwr tebyg i'r llynedd. Cyfanswm y dyledion ar hyn o bryd yw £955k, o gymharu â £871k yn ystod yr un cyfnod y llynedd, sef cynnydd o £84k (9.6%). Oherwydd yr ansicrwydd am gyfradd chwyddiant a'i effaith ar yr argyfwng costau byw yn y tymor hir, ni newidiwyd y rhagolwg ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd yn cael ei fonitro'n ofalus yn ystod y flwyddyn a bydd yn cael ei adolygu os yw lefel y dyledion yn awgrymu bod y risg o beidio casglu lefel uwch o ôl-ddyledion yn cynyddu.

**5.5** Y rhagolwg cyffredinol yw y bydd incwm £44k yn uwch na'r gyllideb flynyddol.

**6. Gwariant nad yw'n ymwneud â Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw**

**6.1** Ar ddiwedd Chwarter 2, roedd gwariant ar waith heblaw am waith trwsio a chynnal a chadw £42k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd.

**6.2** Mae'r pennawd Cyfranogiad Tenantiaid yn dangos tanwariant o £40k ar ddiwedd Chwarter 2. Roedd y gyllideb yn cynnwys lwfans ar gyfer staff ychwanegol, ond ni lenwyd y swyddi hyn ac nid oes disgwyl iddynt gael eu llenwi yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Mae'r rhagolwg wedi cael ei ostwng gan £70k yn unol â hyn.

**6.3** Mae'n rhaid i'r CRT gyllido effeithiau llawn dyfarniad cyflog 2022/23. Amcangyfrifir y bydd hyn yn ychwanegu cost o £73k o dan y pennawd hwn, ac mae'r rhagolwg wedi cael ei addasu i gyd-fynd â hynny.

**7. Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw**

**7.1** Mae gorwariant o £621k yn yr Uned Cynnal a Chadw Tai ar ddiwedd Chwarter 2. Mae lefel yr archebion gwaith yn dilyn codi cyfyngiadau Covid19 yn parhau i fod yn uchel, ac mae gwariant yn ystod Chwarter 2 yn adlewyrchu'r cynnydd yn y galw am waith cynnal a chadw ymatebol, sy'n cael ei arwain gan y galw, ynghyd â chynnydd yn nifer a maint y gwaith yr oedd angen ei wneud pan oedd tenantiaethau'n newid dwylo yn ystod Chwarter 2, gyda gwaith yn mynd rhagddo, fel arfer, ar rhwng 40 a 50 eiddo ar unrhyw adeg. Mae'r cynnydd hwn yn y galw'n cael ei adlewyrchu yn y defnydd cynyddol o is-gontractwyr, ac mae disgwyl iddynt gostio £700k yn fwy na'r gyllideb wreiddiol. Mae effaith chwyddiant ar gost deunyddiau yn destun pryder hefyd, a rhagwelir y bydd costau deunyddiau £100k yn uwch, a biliau cyfleustodau £100k yn uwch. Mae effaith dyfarniad cyflog 2022/23 yn ychwanegu £100k arall. Nid oes arwydd ar hyn o bryd y bydd lefel y gwaith yn gostwng, felly, rhagwelir y bydd y gwariant £1,000k yn uwch na'r gyllideb wreiddiol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**7.2** Roedd gwariant ar staff cynnal a chadw adeiladau nad ydynt yn rhan o'r Uned Cynnal a Chadw Tai £30k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd Chwarter 2. Adolygwyd y rhagolwg, a disgwylir i'r gyllideb gael ei gwario'n llawn, gan fod y costau ychwanegol sydd yn deillio o ddyfarniad cyflog 2022/23 yn dileu'r tanwariant oherwydd swyddi gweigion.

**7.3** Rhagwelir y bydd gwariant ar Waith Trwsio a Chynnal a Chadw Arall £50k yn is na'r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, gan nad oedd angen y costau ychwanegol ar gyfer trwsio gwaith trin carthion.

## 8. Addasiadau Diwedd Blwyddyn

**8.1** Mae'r pennawd hwn yn cynnwys eitemau o wariant (costau cyllido cyfalaf ac ailgodi tâl o'r Gronfa Gyffredinol) sydd yn ffurfio rhan o'r broses gyfrifo ar ddiwedd y flwyddyn. Disgwylir gorwariant o £32k ar yr ad-daliad o'r Gwasanaethau Tai, a gorwariant o £30k ar yr ad-daliad o'r gwasanaethau Canolog, oherwydd effaith dyfarniad cyflog 2022/23.

## 9. Gwariant Cyfalaf

**9.1** Cyfanswm y gyllideb gyfalaf yw £15,034k, a oedd yn cael ei gyllido o'r Lwfans Atgyweiriadau Mawr (£2,688k) a chyfraniad o gronfa wrth gefn y CRT (£12,346k). Adolygwyd y rhagolwg ar gyfer gwariant blynyddol i £12,085k, £2,949k yn is na'r gyllideb. Nodir yr amrywiadau mwyaf isod.

**9.2** Mae Atodiad C yn dangos y gyllideb Gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer pob un o'r cynlluniau adeiladu o'r newydd neu gynlluniau prynu tai, gan gynnwys nifer yr unedau newydd fesul cynllun, y gwariant hyd yma a'r gwariant a ragwelir, y tan neu'r gorwariant a ragwelir fesul cynllun ynghyd a'r dyddiad cwblhau disgwyliedig ar gyfer pob cynllun.

Mae gwaith ar safle Clwb Cymdeithasol Biwmares ychydig tu ôl i'r amserlen, a rhagwelir y bydd y gwaith wedi'i gwblhau erbyn Rhagfyr 2023. Felly, rydym yn rhagweld tanwariant o £281k ar y prosiect hwn yn 2022/23.

Mae gorwariant o £58k ar brosiect Ysgol Llanfachraeth, a'r rheswm pennaf am hyn yw gwaith draenio annisgwyl y daethpwyd ar ei draws wrth i'r contract fynd rhagddo.

Yn wreiddiol, rhagwelwyd y byddai pryniant 10 tŷ fforddiadwy gan Clwyd Alyn ar y safle ym Mhentraeth wedi'i gwblhau yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24. Fodd bynnag, yn dilyn trafodaethau diweddar rhwng yr Awdurdod a Clwyd Alyn, cytunwyd y byddwn yn cyfrannu at gost yr anheddau hyn wrth iddynt gael eu hadeiladu. Fe ddelir yr anheddau yma fel asedau'n cael eu hadeiladu hyd nes byddent wedi eu cwblhau. Rhagwelir gorwariant o £750k ar y prosiect hwn yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol, gan nad oedd y costau hyn wedi'u cynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2022/23 yn wreiddiol.

**9.3** Mae'r prosiect Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC) wedi cael ei ohirio tra bod y dyluniad ar gyfer y rhaglen ceginau newydd yn cael ei gwblhau. Roedd 135 eiddo yn rhan o'r rhaglen yn wreiddiol. Erbyn hyn, rhagwelir y bydd 80 eiddo yn cael eu cwblhau ac mae'r dogfennau tendr wedi cael eu cyhoeddi yn awr. Mae'r adran Dai wedi llunio rhagolygon a manylebau manwl a nodwyd llithriad pellach o £47k, o gymharu â'r rhagolygon yn Chwarter 1.

**9.4** Mae'r gyllideb Perfformiad Ynni yn dibynnu ar ymgynghori â'r Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarth (DNO) cyn gosod paneli Solar Ffotofoltaidd i gynhyrchu trydan adnewyddadwy. Yn anffodus, mae'n parhau i fod yn anodd derbyn cymeradwyaeth gan y DNO i wneud gwaith Solar Ffotofoltaidd mawr oherwydd y gofyniad i atgyfnerthu'r rhwydwaith cyn gosod y system Solar Ffotofoltaidd. Cadarnhawyd y bydd y gwaith atgyfnerthu'n cael ei wneud ar gost y DNO, gan olygu tanwariant pellach o £412k o gymharu â'r rhagolwg ar gyfer Chwarter 1.

**9.5** Mae cyfanswm y gyllideb gwaith cynnal a chadw sector cyhoeddus a gynlluniwyd ar gyfer 2022/23 yn £9,555k. Yn ystod Chwarter 2, roedd gwaith cynnal a chadw allanol mawr a gynlluniwyd yn Llangoed a Llanddona yn parhau i fynd rhagddo ar y safle, ac mae'r gwaith bron iawn â'i gwblhau. Mae contract ar gyfer adnewyddu dros 300 o foeleri nwy yn parhau i fynd rhagddo a datblygodd y gwaith yn dda yn ystod Chwarter 2. Mae'r prif gontract gwaith cynnal a chadw traddodiadol a gynlluniwyd, ac a oedd wedi ei raglennu ar gyfer 2022/23, yn ymwneud ag eiddo ym Mae Cemaes.

**9.6** Mae'r gyllideb amgylcheddol yn caniatáu ar gyfer buddsoddiad sylweddol mewn perthynas ag uwchraddio systemau gwaredu â charthffosiaeth yng Ngharreglefn, er mwyn cydymffurfio â gofynion a bennwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Mae'r datrysiad arfaethedig yn cynnwys trafodaethau gyda pherchennog tir preifat a sicrhau trwydded ar gyfer y cynllun gan CNC. Er fod y drwydded wedi'i chymeradwyo, mae trafodaethau'n parhau gyda'r perchennog tir a'r contractwr. Yn realistig, nid oes disgwyl i waith ddechrau cyn diwedd y flwyddyn ariannol, gan arwain at danwariant pellach o £113k, o gymharu â'n rhagolwg yn Chwarter 1.

**9.7** Mae'r tanwariant ar wariant cyfalaf yn golygu gostyngiad tebyg yn y swm sydd i'w gyllido o'r cyfrif refeniw CRT. Mae'r balans ar gael wedyn i gyllido prosiectau sydd wedi eu gohirio tan y flwyddyn nesaf.

**10. Balans y CRT**

**10.1** Roedd balans agoriadol y CRT yn £12,333k. Roedd y gyllideb ddiwygiedig yn caniatáu ar gyfer defnyddio £6,128k o'r balans hwn. Fodd bynnag, bydd y rhagolygon diwygiedig a nodir uchod yn defnyddio £4,137k yn unig. Mae hyn yn rhoi balans o £8,196k yn y gronfa wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r balans hwn wedi'i glustnodi ar gyfer dibenion penodol, felly, nid yw ond ar gael i gyllido gwariant y CRT yn y dyfodol.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r mater hwn wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**Ch – A yw'r polisi hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

**Dd – Asesu'r effaith posib (os yw'n berthnasol)**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r adroddiad hwn at ddibenion monitro yn unig ac mae'n cael ei ddefnyddio gydag adroddiadau eraill i lunio cynllun busnes a chyllideb flynyddol y CRT. Wrth osod y gyllideb flynyddol, bydd anghenion tymor hir yr Ynys yn cael eu hasesu. |

| | | |
|---|---|---|
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? | Amherthnasol |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy: | Amherthnasol |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith uniongyrchol arnynt. Esboniwch sut:- | Mae'r Gwasanaeth Tai yn ymgynghori'n rheolaidd â'i denantiaid ac mae canlyniadau'r ymgynghoriadau hynny'n cael eu bwydo i'r broses gynllunio busnes ac yna i'r broses o osod y gyllideb flynyddol. |
| 5 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amherthnasol |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amherthnasol |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Amherthnasol |
| **E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Mae'r Tîm Arweinyddiaeth wedi ystyried yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 07/11/2022 ac ymgorfforwyd y sylwadau yn yr adroddiad. |
| 2 | Cyllid / Adran 151 | Amherthnasol – Adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn |
| 3 | Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r Tîm Arweinyddiaeth. |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Amherthnasol |
| 5 | Eiddo | Amherthnasol |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | Amherthnasol |
| 7 | Caffael | Amherthnasol |
| 8 | Sgriwtini | Mae canlyniadau adroddiad monitro chwarterol y CRT yn cael eu hadrodd i'r Panel Sgiwtini Cyllid. |
| 9 | Aelodau Lleol | Amherthnasol |

**F - Atodiadau**

- Atodiad A – Gwariant a rhagolygon refeniw hyd at ddiwedd Chwarter 2 2022/23
- Atodiad B – Gwariant a rhagolygon cyfalaf hyd at ddiwedd Chwarter 2 2022/23
- Atodiad C - Cynlluniau adeiladu o'r newydd/ cynlluniau prynu tai

**Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cynllun Busnes 30 Mlynedd y CRT 2022/52 (fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor hwn ym mis Mai 2022).

**ATODIAD A**

| *CYFRIF REFENIW TAI 2022/23* | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyllideb Flynyddol 2021/22** | **Cyllideb a Broffiliwyd hyd at Fis 6** | **Gwirioneddol hyd at Fis 6** | **Amrywiant hyd at Fis 6** | **Rhagolwg Diwedd Blwyddyn** | **Amrywiant ar Ddiwedd y Flwyddyn** |
| | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| **CYFRIF REFENIW** | | | | | | |
| **Incwm** | | | | | | |
| Anheddau | (19,420,000) | (9,904,200) | (9,872,330) | 31,870 | (19,452,000) | (32,000) |
| Modurdai | (223,000) | (113,730) | (116,336) | (2,606) | (228,000) | (5,000) |
| Taliadau Gwasanaeth | (201,000) | (102,509) | (94,922) | 7,587 | (208,000) | (7,000) |
| Arall | (207,860) | (60,961) | (78,670) | (17,709) | (207,860) | 0 |
| Darpariaeth Dyledion Drwg | 296,000 | 0 | 0 | 0 | 296,000 | 0 |
| **CYFANSWM INCWM** | **(19,755,860)** | **(10,181,400)** | **(10,162,258)** | **19,142** | **(19,799,860)** | **(44,000)** |
| **Gwariant heblaw ar Waith Trwsio a Chynnal a Chadw** | | | | | | |
| Cyfranogiad Tenantiaid | 260,653 | 130,292 | 90,270 | (40,022) | 190,653 | (70,000) |
| Gweinyddu Rhenti | 500,013 | 249,673 | 242,685 | (6,988) | 530,013 | 30,000 |
| Rheoli Stadau | 180,788 | 90,238 | 88,267 | (1,971) | 195,788 | 15,000 |
| Gwariant Refeniw Arall | 1,770,934 | 566,197 | 572,850 | 6,653 | 1,785,934 | 15,000 |
| **Cyfanswm Gwariant heblaw ar Waith Trwsio a Chynnal a Chadw** | **2,712,388** | **1,036,400** | **994,072** | **(42,328)** | **2,702,388** | **(10,000)** |
| **Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw** | | | | | | |
| Uned Cynnal a Chadw Tai | 3,795,464 | 1,897,465 | 2,518,035 | 620,570 | 4,795,464 | 1,000,000 |
| Staff Cynnal a Chadw Adeiladau (dim UCChT) | 958,583 | 478,333 | 448,449 | (29,884) | 958,583 | 0 |
| Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw Arall | 793,655 | 489,171 | 414,651 | (74,520) | 743,655 | (50,000) |
| **Cyfanswm Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw** | **5,547,702** | **2,864,969** | **3,381,135** | **516,166** | **6,497,702** | **950,000** |
| **Addasiadau Diwedd Blwyddyn** | | | | | | |
| Taliadau Cyllido Cyfalaf | 3,674,000 | 0 | 0 | 0 | 3,674,000 | 0 |
| Ailgodi Tâl o'r Gwasanaethau Tai | 790,630 | 0 | 0 | 0 | 822,630 | 32,000 |
| Ailgodi Tâl o'r Gwasanaethau Canolog | 812,831 | 0 | 0 | 0 | 842,831 | 30,000 |
| **Cyfanswm Addasiadau Diwedd Blwyddyn** | **5,277,461** | **0** | **0** | **0** | **5,339,461** | **62,000** |
| | | | | | | |
| **CYFANSWM GWARIANT REFENIW** | **13,537,551** | **3,901,369** | **4,375,207** | **473,838** | **14,539,551** | **1,002,000** |
| | | | | | | |
| **CYFANSWM REFENIW (GWARGED) / DIFFYG** | **(6,218,309)** | **(6,280,031)** | **(5,787,051)** | **492,980** | **(5,260,309)** | **958,000** |

| CYFRIF GWARIANT CYFALAF | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant 2022/23 | 15,034,000 | 4,013,358 | 4,014,874 | 1,516 | 12,085,464 | (2,948,536) |
| | | | | | | |
| Lwfans Atgyweiriadau Mawr | (2,688,000) | 0 | 0 | 0 | (2,688,000) | 0 |
| Grantiau / Benthyciadau Eraill | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM CYFALAF (GWARGED) / DIFFYG** | **12,346,000** | **4,013,358** | **4,014,874** | **1,516** | **9,397,464** | **(2,948,536)** |
| | | | | | | |
| **CYNNYDD) / GOSTYNGIAD NET YNG NGHRONFA WRTH GEFN Y CRT** | **6,127,691** | **(2,266,673)** | **(1,772,177)** | **494,496** | **4,137,155** | **(1,990,536)** |
| | | | | | | |
| **Balans Agoriadol y CRT** | (12,333,000) | | | | (12,333,000) | |
| | | | | | | |
| **Cynnydd) / Gostyngiad Net yng Nghronfa Wrth Gefn y CRT** | 6,127,691 | | | | 4,137,155 | |
| | | | | | | |
| **Balans Cau'r CRT** | **(6,205,309)** | | | | **(8,195,845)** | |

## ATODIAD B



| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad yn erbyn y Proffil (£) | Gwariant a Ragwelir (£) | Tanwariant / Gorwariant a Ragwelir (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CRT Tai** | | | | | | |
| Contract Gwres Canolog | 800,000 | 549,387 | 441,477 | (107,910) | 800,000 | 0 |
| Contract Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd | 3,955,000 | 612,474 | 648,204 | 35,730 | 2,500,000 | (1,455,000) |
| Gwella Perfformiad Ynni | 1,000,000 | 62,178 | 52,178 | (10,000) | 250,000 | (750,000) |
| Gwaith Amgylcheddol | 870,667 | 62,676 | 80,694 | 18,018 | 500,000 | (370,667) |
| Caffael Eiddo Cyfredol / Datblygu Eiddo Newydd | 5,479,000 | 2,100,000 | 2,129,968 | 29,968 | 6,006,131 | 527,131 |
| Addasiadau Sector Cyhoeddus | 400,000 | 143,050 | 200,754 | 57,704 | 400,000 | 0 |
| Risg Tân | 600,000 | 7,737 | 29,345 | 21,608 | 600,000 | 0 |
| Safonau Ansawdd Tai Cymru | 1,901,950 | 448,473 | 404,871 | (43,602) | 1,001,950 | (900,000) |
| Cerbydau yr Uned Cynnal a Chadw Tai | 27,383 | 27,383 | 27,383 | 0 | 27,383 | 0 |
| **Cyfanswm am CRT Tai** | **15,034,000** | **4,013,358** | **4,014,874** | **1,516** | **12,085,464** | **(2,948,536)** |

| Cynllun | Nifer o Unedau Ychwanegol | Cyllideb 2022-23 | Gwariant i C6 | Gwariant a Ragwelwyd C7 i C12 | Cyfanswm Gwariant a Ragwelwyd 2022-23 | Gorwariant/ (Tanwariant) | Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pentraeth (Clwyd Alyn) | 10 | 0 | 0 | 750,000 | 750,000 | 750,000 | Awst 2023 |
| Armenia St, Caergybi | 5 | 8,000 | (6,610) | 14,610 | 8,000 | 0 | Wedi ei Gwblhau |
| Dargadwadaethau o 2021-22 | 1 | 16,000 | 16,000 | 0 | 16,000 | 0 | Wedi ei Gwblhau |
| Marquis, Rhosybol | 15 | 34,000 | 10,802 | 23,198 | 34,000 | 0 | Wedi ei Gwblhau |
| Ysgol Llanfachraeth | 8 | 100,000 | 158,004 | 0 | 158,004 | 58,004 | Wedi ei Gwblhau |
| Gofal Ychwanegol | 55 | 100,000 | 8,821 | 91,179 | 100,000 | 0 | Rhagfyr 2026 |
| Plas Alltran, Caergybi | 4 | 250,000 | (3,596) | 253,596 | 250,000 | 0 | Rhagfyr 2023 |
| Ysgol Llaingoch, Caergybi | 26 | 300,000 | 678 | 299,322 | 300,000 | 0 | Wedi ei Gwblhau |
| Cae Braenar, Caergybi | 23 | 460,000 | 6,528 | 453,472 | 460,000 | 0 | Medi 2024 |
| Parc y Coed, Llangefni | 12 | 500,000 | 3,973 | 496,027 | 500,000 | 0 | Tachwedd 2023 |
| Clwb Cymdeithasol Biwmares | 6 | 1,000,000 | 119,126 | 600,000 | 719,126 | (280,874) | Rhagfyr 2023 |
| Adnewyddu 15 Uned | 0 | 1,318,955 | 424,197 | 894,759 | 1,318,956 | 0 | Awst 2023 |
| Ailbrynnu 12 Uned | 12 | 1,392,045 | 1,392,045 | 0 | 1,392,045 | 0 | Mawrth 2023 |
| **Cyfanswm Dyraniad 2022-23** | **177** | **5,479,000** | **2,129,968** | **3,876,163** | **6,006,131** | **527,131** | |

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **29 TACHWEDD 2022** |
| **Pwnc / Testun:** | **SYLFAEN Y DRETH GYNGOR AR GYFER 2023/24** |
| **Deilydd(ion) Portffolio:** | **CYNGHORYDD ROBIN WILLIAMS - DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID, BUSNES CORFFORAETHOL A PHROFIAD Y CWSMER** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Tel:<br>E-bost: | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151**<br>01248 752601 rmjfi@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **DIM YN BERTHNASOL** |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Rwy'n argymell fod y Pwyllgor Gwaith yn gwneud y penderfyniadau isod:-

1. Nodi cyfrifiad Sylfaen y Dreth Gyngor gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, fydd yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyfrifo'r Grant Cynnal Refeniw i Gyngor Sir Ynys Môn am y flwyddyn ariannol 2023/24, sef **31,272.36** (gweler **Atodiad A** ar gyfer y cyfrifiad o Sylfaen y Dreth Gyngor at y diben yma - Rhan E6).

2. Cymeradwyo'r cyfrifiad at ddiben pennu Sylfaen y Dreth Gyngor gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 am y cyfan o'r ardal ac am rannau ohoni am y flwyddyn 2023/24 (gweler **Atodiad A** ar gyfer y cyfrifiad o sylfaen y dreth – Rhan E5).

3. Yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) 1995 (SI19956/2561) fel y cawsant eu diwygio gan SI1999/2935 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) a'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig o Anheddau) (Cymru) (Diwygiad) 2004 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) (Diwygiad) 2016, y rhain yw'r cyfansymiau y mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi eu cyfrif fel Sylfaen y Dreth am 2023/24 sef **32,819.56**, ac am y rhannau hynny o'r ardal sydd wedi eu rhestru isod:-

| | |
|---|---|
| Amlwch | 1,561.06 |
| Biwmares | 1,102.52 |
| Caergybi | 4,161.60 |
| Llangefni | 2,111.52 |
| Porthaethwy | 1,489.58 |
| Llanddaniel-fab | 377.55 |
| Llanddona | 418.99 |
| Cwm Cadnant | 1,203.84 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | 1,338.51 |
| Llanfihangel Ysceifiog | 711.47 |
| Bodorgan | 476.72 |
| Llangoed | 690.37 |
| Llangristiolus a Cherrigceinwen | 645.45 |

| | |
|---|---|
| Llaneilian | 614.45 |
| Llannerch-y-medd | 539.14 |
| Llaneugrad | 193.38 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | 1,936.09 |
| Cylch y Garn | 411.89 |
| Mechell | 588.55 |
| Rhos-y-bol | 485.78 |
| Aberffraw | 306.64 |
| Bodedern | 429.12 |
| Bodffordd | 420.51 |
| Trearddur | 1,419.34 |
| Tref Alaw | 273.58 |
| Llanfachraeth | 237.27 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Llanidan | 426.02 | | Llanfaelog | 1,389.80 |
| Rhosyr | 1,055.40 | | Llanfaethlu | 277.23 |
| Penmynydd | 259.29 | | Llanfair-yn-Neubwll | 585.82 |
| Pentraeth | 596.47 | | Y Fali | 1,048.41 |
| Moelfre | 672.00 | | Bryngwran | 365.06 |
| Llanbadrig | 702.26 | | Rhoscolyn | 383.28 |
| Llanddyfnan | 531.14 | | Trewalchmai | 382.46 |

**RHESYMAU A CHEFNDIR**

Mae'r cyfrifiadau wedi cael eu gwneud yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Anheddau'r Dreth Gyngor (CT1 v.1.0) 2023/24 yn seiliedig ar nifer yr eiddo mewn bandiau amrywiol ar y rhestr brisio ar 31 Hydref 2022 a chrynhoir gan yr Awdurdod dan Ran 22B (7) o Ddeddf Gyllid Llywodraeth Leol 1992. Mae'r cyfrifiadau yn cymryd i ystyriaeth disgowntiau, eithriadau a phremiymau a hefyd newidiadau i'r rhestr brisio sy'n debygol yn ystod 2023/24.

Rhaid i Gyngor Sir Ynys Môn, fel awdurdod bilio, gyfrifo sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer ei ardal ac ar gyfer gwahanol rannau o'i ardal a rhaid rhoi gwybod am y symiau hyn i'r cyrff sy'n codi praeseptau ac ardollau erbyn 31 Rhagfyr 2022. Eleni, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am y wybodaeth i bwrpas gosod y Grant Cynnal Refeniw erbyn 14 Tachwedd 2022, ac i bwrpas pennu'r dreth (wedi cadarnhad gan y Pwyllgor Gwaith) erbyn 6 Ionawr 2023.

Mae'r cyfrifiadau yn **Atodiad A** yn seiliedig ar gadarnhau disgownt o ddim ar gyfer eiddo Dosbarthiadau A, B a C; premiwm o 100% ar dai gwag hirdymor a phremiwm o 75% ar ail gartrefi ar gyfer 2023/24, yn seiliedig ar fwriad y Pwyllgor Gwaith ar 25 Hydref 2021 i gynyddu'r premiwm ar ail gartrefi (i'w gadarnhau gan y Pwyllgor Gwaith). Mae'r cyfrifiadau hefyd yn seiliedig ar benderfyniad y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 11 Rhagfyr 2018, y bydd ei gynllun lleol cyfredol ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn parhau am flynyddoedd dilynol heblaw ei fod yn cael ei newid yn sylweddol. Am 2023/24, dim ond yr uwchraddio arferol i'r budd-daliadau sy'n cael ei weithredu. Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i gwrdd yn llawn â chostau cynllun cenedlaethol blaenorol y DU, ond bydd costau oherwydd baich achosion ac / neu gynnydd yn y Dreth Gyngor yn syrthio ar gynghorau lleol.

**SYLFAEN Y DRETH GYNGOR AR GYFER CYFRIFO'R GRANT CYNNAL REFENIW**

Bydd cyfanswm y disgownt cyfwerth â band D, cyn addasu ar gyfer y gyfradd gasglu (ac sy'n cynnwys lwfans ar gyfer tai sy'n eiddo'r Weinyddiaeth Amddiffyn), yn cael ei ddefnyddio wrth gyfrifo'r hawliadau ar gyfer Grant Cynnal Refeniw 2023/24. Mae'r cyfanswm yma, sy'n cael ei ddefnyddio wrth gyfrifo'r Grant Cynnal Refeniw, yn eithrio'r addasiadau am bremiymau a'r disgowntiau a roddir gan rhai awdurdodau ar gyfer eiddo Dosbarthiadau A, B a C (nid yw hyn yn effeithio ar Ynys Môn gan na roddir disgowntiau o'r fath). Cyfrifir y ffigwr yma i fod yn 31,272.36 (i'w gymharu â 31,079.93 ar gyfer 2022/23). Mae hyn yn gynnydd o 0.62%.

**SYLFAEN Y DRETH AT DDIBEN PENNU'R DRETH**

Mae'r cyfanswm y disgownt cyfwerth â band D sy'n cael ei ddefnyddio at ddiben pennu'r dreth wedi cael ei addasu gan wneud lwfans ar gyfer methu â chasglu, sy'n parhau i fod yn 1.5% a, hefyd, sy'n cynnwys lwfans ar gyfer eiddo'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Cyfrifir y ffigwr yma i fod yn 32,819.56. Nodir, felly, bod y ffigyrau a nodir dan argymhelliad 3 yn cynnwys yr addasiadau am bremiymau.

Cyfanswm y sylfaen arfaethedig am 2023/24 at ddiben pennu'r dreth yw 32,819.56. Mae hyn yn cymharu â 31,042.00 am 2022/23 ac yn gynnydd o 2.43%. Mae nifer o ffactorau wedi effeithio ar sylfaen y dreth, yn cynnwys nifer yr eiddo newydd a ragwelir a fydd yn cael eu hychwanegu i'r gofrestr Dreth Gyngor yn 2023/24, nifer yr eithriadau a disgowntiau a roddir a'r nifer a fydd yn ddarostyngedig i'r premiwm eiddo gwag ac ailgartrefi a chanran y premiwm. Mae cynyddu'r premiwm ar ail gartrefi, o 50% i 75% yn 2023/24, wedi arwain at gynnydd sylweddol yn sylfaen y dreth a heb y cynnydd yng nghanran y premiwn, byddai sylfaen y dreth wedi cynyddu 0.65% yn unig.

Mae sylfaen y dreth ar gyfer eiddo gwag hirdymor am 2023/24 yn 311.69, o'i gymharu â 303.93 am 2022/23 ac mae hyn o ganlyniad i gynnydd o 13 yn nifer yr eiddo gwag sydd yn ddarostyngedig i'r premiwm eiddo gwag.

Mae sylfaen y dreth ar gyfer ail gartrefi am 2023/24 yn 1,703.21 o'i gymharu â 1,122.30 am 2022/23. Mae'r cynnydd yn adlewyrchu'r cynnydd o 39 yn nifer y tai sydd yn ddarostyngedig i'r premiwm ar hyn o bryd, ond mae cynyddu graddfa'r premiwm o 50% i 75% hefyd yn cael effaith sylweddol ar yr elfen hon o'r sylfaen drethu.

Mae'r newid yn sylfaen y dreth yn effeithio ar bwynt cychwynnol y Cyngor ar gyfer y gyllideb refeniw am 2023/24 ac fe ymdrinnir â hyn yn fanylach mewn adroddiadau dilynol ar y gyllideb i'r Pwyllgor Gwaith. Fodd bynnag, i grynhoi bydd y cynnydd yn nifer yr eiddo sydd yn ddarostyngedig i'r Dreth Gyngor safonol yn cynhyrchu £245k o refeniw ychwanegol (yn seiliedig ar y Dreth Gyngor a godwyd yn 2022/23), ond bydd hyn yn arwain at golled o £280k mewn Cyllid Allanol Cyfun (AEF) gan Lywodraeth Cymru (yn seiliedig ar yr Asesiad o Wariant Safonol ar gyfer 2022/23 a'r un lefel dybiedig o Dreth Gyngor Band D â 2022/23). Bydd y cynnydd yn nifer yr eiddo gwag yn arwain at gynnydd o £11k yn yr incwm a gynhyrchir gan y premiwm eiddo gwag, ond bydd y cynnydd yn nifer yr eiddo sydd yn ddarostyngedig i'r premiwm ail gartrefi yn cynhyrchu £18k o incwm ychwanegol. Bydd cynyddu'r premiwm ail gartrefi o 50% i 75% yn cynhyrchu £776k o gyllid ychwanegol.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Mae disgresiwn gan y Cyngor llawn, dan reoliadau a wnaed dan Rhan 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ac, wedyn, dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, i osod disgownt i ddosbarthiadau penodedig o anheddau (yn bennaf tai haf ac ail gartrefi (Dosbarthiadau A a B)). Wrth i hyn gael ei gyflwyno, penderfynodd y Cyngor llawn osod disgownt o ddim i'r ddau ddosbarth penodedig A a B, ac mae'r penderfyniad wedi ei gadarnhau yn flynyddol ers hynny. Ym mis Mawrth 2007, ac ar argymhelliad y Pwyllgor Gwaith, penderfynodd y Cyngor llawn osod disgownt o ddim ar Ddosbarth Penodedig C (rhai mathau o dai gwag hirdymor) a hynny am y tro cyntaf, ac mae wedi gwneud hynny bob blwyddyn wedyn.

Byddai rhoi disgownt o 25%, 50% neu 100% yn groes i bolisi'r Cyngor llawn a gwrthodwyd yr opsiwn.

Bu'r Cyngor llawn, ar 27 Chwefror 2019, bennu premiwm y Dreth Gyngor o 100% ar eiddo gwag hirdymor a phremiwm o 50% ar ail gartrefi o'r 1 Ebrill 2022, gyda'r bwriad o gynyddu'r premiwm ar ail gartrefi i 75% o 1 Ebrill 2023. Mae'r cyfrifiad yma a'r argymhellion yn unol â'r penderfyniad hynny.

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Hyd 2004, y Cyngor llawn oedd yn gyfrifol am y cyfrifiad hwn. Bellach, mae'r swyddogaeth hon wedi cael ei thynnu oddi ar y rhestr o swyddogaethau sydd wedi cael eu neilltuo i'r Cyngor llawn. Fodd bynnag, y Cyngor llawn yn hytrach na'r Pwyllgor Gwaith sy'n parhau i fod yn gyfrifol am benderfyniadau sy'n ymwneud â disgowntiau a phremiymau, ynghyd â phennu Cynllun Lleol ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

| CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson a'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Mae'r modd y cafodd sylfaen y dreth ei gyfrifo yn cymryd i ystyriaeth y polisi cyfredol a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ynghylch caniatáu disgowntiau i ddosbarthiadau penodedig A, B a C, ynghyd â pholisi'r Cyngor llawn ar ganiatáu gostyngiad hyd at 100% yn y Dreth Gyngor i'r rheiny sy'n gymwys dan gynllun lleol y Cyngor.<br><br>Mae'r cyfrifiad yma a'r argymhellion yn unol â'r penderfyniad yna a hefyd bod y Cyngor llawn, yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror 2019, wedi pennu premiwm y Dreth Gyngor o 100% ar dai gwag hirdymor. Bydd y penderfyniad i gynyddu'r premiwm ar ail gartrefi i 75% ar 1 Ebrill 2023 yn cael ei gadarnhau gan y Cyngor llawn pan fydd y gyllideb yn cael ei chymeradwyo ym mis Mawrth 2023. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Bydd y cyfrifiad o sylfaen y dreth yn galluogi'r Cyngor llawn i bennu'r gofynion o ran ei Dreth Gyngor i gwrdd â'r gyllideb a gymeradwywyd ganddo ar gyfer 2023/24. |

| | DD – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol) | |
|---|---|---|
| 1 | **Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys** | Bydd y penderfyniad yn effeithio ar gyllideb refeniw'r Cyngor a bydd goblygiadau'r penderfyniad hwn ar anghenion tymor hir yr Ynys yn cael eu hystyried wrth i broses y gyllideb refeniw fynd rhagddi. |
| 2 | **A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:-** | Ddim yn berthnasol. |
| 3 | **A ydym wedi bod yn cyd-weithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy-** | Ddim yn berthnasol. |
| 4 | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae'i rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | Byddwn yn ymgynghori â dinasyddion Ynys Môn ar y cynigion ar gyfer y gyllideb maes o law. |
| 5 | **Nodwch yr effeithiau mae'r penderfyniad hwn yn ei gael ar yr agenda cydraddoldeb ac iaith Gymraeg** | Ddim yn berthnasol. |

| | E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | Dim sylw ychwanegol. |
| 2 | **Cyllid / Swyddog 151** (gorfodol) | Awdur yr adroddiad. |
| 3 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (gorfodol) | Dim sylw ychwanegol. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Ddim yn berthnasol. |
| 5 | **Eiddo** | Ddim yn berthnasol. |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Ddim yn berthnasol. |
| 7 | **Caffael** | Ddim yn berthnasol. |
| 8 | **Sgriwtini** | Ddim yn berthnasol. |
| 9 | **Aelodau Lleol** | Ddim yn berthnasol. |

| F - Atodiadau: |
| --- |
| Atodiad A : Cyfrifiad Sylfaen y Dreth Gyngor Leol 2022/23 |
| **FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):** |
| Nodiadau Llywodraeth Cymru ar gyfer arweiniad ar Anheddau Dreth Gyngor (CT1) 2023/24 |

# CYFRIFIAD SYLFAEN Y DRETH GYNGOR LEOL 2022/23

| | BAND | A* | A | B | C | D | E | F | G | H | I | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhan A** | **ANHEDDAU TRETHADWY** | | | | | | | | | | | |
| **A.1** | Holl anheddau trethadwy | [redacted] | 4,643 | 6,704 | 6,689 | 7,131 | 5,372 | 2,624 | 1,044 | 159 | 52 | 34,418 |
| **A.2** | Anheddau sy'n derbyn gostyngiad anabledd | [redacted] | 12 | 50 | 51 | 90 | 82 | 58 | 10 | 10 | 6 | 369 |
| **A.3** | **Cyfanswm yr anheddau trethadwy wedi'i addasu (gan gymryd i ystyriaeth ostyngiadau anabledd)** | **12** | **4,681** | **6,705** | **6,728** | **7,123** | **5,348** | **2,576** | **1,044** | **155** | **46** | **34,418** |
| **Rhan B** | **ADDASIADAU DISGOWNT A PHREMIWM** | | | | | | | | | | | |
| **B.1** | Anheddau heb ddisgownt neu bremiwm (gan gynnwys eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi heb ddisgownt neu bremiwm) | 6 | 1,851 | 3,601 | 3,821 | 4,393 | 3,646 | 1,840 | 732 | 96 | 30 | 20,016 |
| **B.2a** | Anheddau gyda disgownt o 25% (ac eithrio eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi) | 6 | 2,560 | 2,769 | 2,388 | 2,109 | 1,268 | 505 | 175 | 23 | 5 | 11,808 |
| **B.2b** | Anheddau gyda disgownt o 50% (ac eithrio eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi) | 0 | 8 | 9 | 13 | 15 | 17 | 3 | 12 | 4 | 0 | 81 |
| **B.3a** | Anheddau gyda disgownt amrywiol ac eithrio 25% neu 50% | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **B.3b** | Anheddau gyda disgownt eiddo gwag hirdymor neu ail gartref | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **B.3c** | Anheddau gyda phremiwm eiddo gwag hirdymor neu ail gartref | 0 | 262 | 326 | 506 | 606 | 417 | 228 | 125 | 32 | 11 | 2,513 |
| **B.4** | **Cyfanswm yr anheddau a addaswyd sydd yn daladwy** | **12** | **4,681** | **6,705** | **6,728** | **7,123** | **5,348** | **2,576** | **1,044** | **155** | **46** | **34,418** |
| **B.5** | Holl ddisgowntiau newidiol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **B.6** | Addasiad disgownt am eiddo gwag hirdymor ac ail gartref | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **B.7** | Addasiad premiwm am eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi | 0 | 213.3 | 259.8 | 395 | 473.8 | 322 | 175.5 | 96 | 24.8 | 8.3 | 1,968.3 |

| Rhan C | CYFRIFIAD O ANHEDDAU TRETHADWY GYDA DISGOWNTIAU A PHREMIYMAU | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **C.2** | Cyfanswm anheddau gan gynnwys disgowntiau a phremiymau | 44 | 4,250 | 6,268 | 6,520 | 7,062 | 5,345 | 2,624 | 1,090 | 172 | 53 | |
| **C.3** | Cymhareb â Band D | 5/9 | 6/9 | 7/9 | 8/9 | 9/9 | 11/9 | 13/9 | 15/9 | 18/9 | 21/9 | |
| **C.4** | Cyfwerthoedd Band D (wedi'u talgrynnu i ddau le degol) | 5.83 | 2,833.50 | 4,875.11 | 5,795.11 | 7,062.00 | 6,532.17 | 3,789.86 | 1,817.08 | 344.00 | 123.67 | 33,178.33 |
| **C.7** | Cyfanswm anheddau gostyngedig ac eithrio addasiad hirdymor gwag ac ail gartref | 11 | 4,037 | 6,008 | 6,125 | 6,588 | 5,023 | 2,448 | 994 | 147 | 45 | |
| **C.8** | Cyfwerthoedd Band D ac eithrio addasiad hirdymor gwag ac ail gartref | 5.83 | 2,691.33 | 4,673.08 | 5,444.00 | 6,588.25 | 6,138.61 | 3,536.36 | 1,657.08 | 294.5 | 104.42 | 31,133.46 |
| **Rhan E** | **CYFRIFO SYLFAEN Y DRETH GYNGOR** | | | | | | | | | | | |
| **E.1** | Anheddau Trethadwy : cyfwerthoedd Band D (yn unol â C.4) | | | | | | | | | | | 33,178.33 |
| **E.2** | Cyfradd gasglu (wedi'i dalgrynnu i ddau le degol) | | | | | | | | | | | 98.50% |
| **E.3** | = E1 x E2 (wedi'i dalgrynnu i ddau le degol) | | | | | | | | | | | 32,680.66 |
| **E.4** | Anheddau Dosbarth O wedi'u heithrio : cyfwerthoedd Band D (Eiddo'r Weinyddiaeth Amddiffyn) | | | | | | | | | | | 138.90 |
| **E.5** | **Sylfaen y Dreth Gyngor at ddiben pennu'r dreth (E.3 + E.4)** | | | | | | | | | | | **32,819.56** |
| **E.5b** | Anheddau trethadwy gostyngedig ac eithrio addasiad eiddo gwag hirdymor ac ail gartref (yn unol â C.8) | | | | | | | | | | | 31,133.46 |
| **E.6** | **100% o Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer cyfrifo'r Grant Cynnal Refeniw (E.5b + E.4)** | | | | | | | | | | | **31,272.36** |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Gwaith |
| **Dyddiad:** | 29 Tachwedd,2022 |
| **Pwnc:** | Y Polisi Gosod ar gyfer Tai Cymdeithasol |
| **Deilydd(ion) Portffolio:** | Y Cynghorydd Alun Mummery |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Ned Michael |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Ffôn:**<br>**E-bost:** | Elliw Llŷr, Rheolwr Strategaeth, Polisi a Chomisiynu, Gwasanaethau Tai<br>01248 752137 |
| **Aelodau Lleol:** | Amherthnasol |

**A –Argymhellion a Rhesymau**

Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo: -

**A1** Newid rhannol dros dro i'r Polisi Gosod Cyffredin ar gyfer tai cymdeithasol mewn ymateb i'r cynnydd diweddar ar y nifer o unigolion sydd yn cyflwyno yn ddigartref, wedi eu lleoli neu mewn peryg o gael eu lleoli mewn llety argyfwng / dros dro.

**A2** bod achosion o osod llety i Aelwydydd Digartref yn ystod y cyfnod hwn yn cael eu cymeradwyo gan Reolwr y Tîm Opsiynau Tai gan na fyddai'r gosodiadau hyn yn dilyn y Polisi Gosod Cyffredin.

**Cefndir**

Yn unol a'n Polisi Gosod Cyffredin ar gyfer tai cymdeithasol byddwn yn gosod tai yn unol a'r band sydd wedi ei bennu ar gyfer cais am eiddo cymdeithasol a dyddiad pennu'r cais yn y band benodol hwnnw.

Fel ymgais i geisio cael trosiant o fewn ein llety argyfwng ac i geisio lleihau ar ein angen am lety argyfwng cynigiwn addasu ein prosesau lle ein bod yn gosod un allan o pob pedwar o'n eiddo i unigolion sydd wedi eu lleoli mewn llety argyfwng neu mewn peryg o gael ei gwneud yn ddigartref yn hytrach na dilyn y Polisi Gosod Cyffredin ar gyfer pob gosodiad.

Ers 1 Ebrill, 2022 mae'r Gwasanaethau Tai wedi gweld 145 o dai Cyngor yn dod ar

gael i'w gosod a gellir ystyried y nifer hwn fel arwydd o nifer y tai yr ydym yn disgwyl eu gweld yn dod ar gael yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf. Ar y sail hyn byddai hyd at 36 o'r gosodiadau yn gallu bod ar gyfer unigolion digartref neu sydd ar fin cael eu gwneud yn ddigartref.

**Galw ar y Gwasanaeth**

Rydym yn gweld cynnydd yn y nifer sydd angen ein cymorth yn dilyn cyfuniad o ffactorau, megis nifer uwch yn cael rhybudd i adael eu cartrefi gan eu landlordiaid preifat, nifer mwy o deuluoedd angen cymorth gennym i geisio atal digartrefedd a nifer o deuluoedd a phobl wedi dod i fyw ar yr Ynys drwy Gynllun Cartref i Bobl o Wcráin.

Yn ystod wythnos oaf mis Hydref roedd 42 o aelwydydd mewn llety argyfwng / dros dro, gyda 12 o rhain yn deuluoedd. Rydym hefyd wedi gweld nifer o drefniadau drwy gynllun Cartrefi i Bobl o Wcrain yn methu gyda theuluoedd ac unigolion yn gorfod mynd i lety argyfwng neu lety a chefnogaeth.

Mae 87 o achosion, ers mis Ebrill 2022, lle mae'r landlord wedi gofyn i'r tenant adael (s21). Mae'r achosion hyn yn gyfuniad o bobl sengl, cyplau a theuluoedd ac nid ydynt wedi eu canoli o fewn unrhyw ardal na landlord yn benodol. Mae hyn yn amser digynsail i'r Gwasanaeth Tai, nid ydym wedi profi lefel mor uchel á hyn o achosion landlordiaid yn gofyn i'r tenantiaid adael eu cartrefi. Gwelwyd nifer yn deuluoedd mawr yn derbyn rhybudd i adael eu cartrefi ac mae cael eiddo i leoli'r teuluoedd hynny heriol iawn.

Yn hanesyddol, nid ydym wedi cofnodi'r nifer sydd yn dŵad atom oherwydd rhybudd i adael (S 21 neu s8), oherwydd ein bod yn dilyn templed LlC ar adrodd rhesymau pam fod person yn dŵad atom yn ddigartref. Ond gallwn ddangos bod nifer sydd mewn risg o golli eu cartref oherwydd eu bod yn rhentu yn breifat yn 2021-22 yn 130 o achosion o'i gymharu á 121 o achosion rhwng mis Ebrill a Hydref 2022.

Mae swyddogion yn parhau i gynnal lefel uwch o achosion oherwydd y cynnydd mewn cyflwyniadau a'r diffyg cyfleoedd i symud pobl ymlaen i lety parhaol.

Mae lefelau rhenti preifat wedi codi yn sylweddol ar yr Ynys yn ystod y cyfnod ers y cyfnod clo gyda dim cynnydd o gwbl wedi bod yn y Lwfans Tai Lleol. Golygai hyn, i denantiaid sydd yn derbyn rhywfaint o fudd-dal tai tuag at eu rhent yn y sector breifat nad ydyw eu budd-dal tai wedi cynyddu a'u bod hwy gorfod talu mwy tuag at eu rhent sydd o ganlyniad wedi gwneud eu cartrefi yn anfforddiadwy iddynt ac wedi arwain at ddyledion rhent.

Mae argaeledd o fewn y sector breifat yn brin, gyda chynnydd mewn pris rhentu neu

brinder mewn fflatiau / tai ar gael i'w rhentu. Mae adroddiad diweddar Propertymark <https://www.propertymark.co.uk/resource/welsh-landlords-selling-up-more-than-double-uk-average.html> yn nodi bod cynnydd yn y nifer o landlordiaid sydd yn gwerthu eu heiddo, cynnydd yn nifer sydd yn chwilio am le i'w rentu ynghyd á chynnydd mewn rhenti.

Trwy gymeradwyo'r argymhellion uchod, bydd y dull gosod uniongyrchol yn cael ei weithredu ar gyfer 1 o bob 4 gosodiad yn ôl math yr eiddo sydd yn dod ar gael i'w gosod. Byddwn yn monitro'r niferoedd o osodiadau o'r math hyn yn chwarterol.

Mae hefyd yn bwysig cydnabod na ellir pennu/lleoli pob aelwyd ddigartref gyda'r stoc o dai cymdeithasol ar yr Ynys.

Ni fyddai Polisïau Gosodiadau Lleol fel y'u diffinnir mewn cytundeb Adran 106 yn cael eu heffeithio drwy'r addasiad hwn.

Yn ogystal â'r stoc tai cymdeithasol, mae'r Tîm Atal Digartrefedd hefyd wrthi'n chwilio am gartrefi mewn sectorau eraill fel y sector rhentu preifat a thai â chymorth er mwyn cynyddu'r cyflenwad o gartrefi sydd ar gael.

**Sut y byddai'r addasiad hyn yn gweithio?**

Ar hyn o bryd mae Polisi Gosod Cyffredin 2019 yn cynnwys cafeat achos eithriadol lle gellir mynd i'r afael ag amgylchiadau nad ymdrinnir â hwy o fewn y Polisi. Trwy ddefnyddio'r dull hwn ar gyfer 1 ym mhob 4 gosodiad yn ol math o eiddo a osodir byddwn yn sicrhau y byddai'r rhai sydd â'r angen mwyaf am dai yn cael eu hystyried ac yn cael cynnig tai addas yn gynt.

Argymhellir rhoi grym dirprwyedig i'r Rheolwr Opsiynau Tai gymeradwyo gosod uniongyrchol ar gyfer Aelwydydd Digartref yn ystod y cyfnod hwn gan na fyddai'r gosodiadau hyn yn dilyn y Polisi Gosod Cyffredin.

Gellir defnyddio dull ymyrraeth wedi'i thargedu hefyd trwy edrych ar y lleoliadau y bydd y galw mwyaf amdanynt gan Aelwydydd Digartrefedd neu ar fin colli eu cartref a'r tebygolrwydd y bydd llety addas yn dod ar gael yn yr ardaloedd hynny.

**Adolygu**
Bydd gweithdrefn yn cael ei datblygu i gyd-fynd â'r newidiadau hyn ac adolygir y gosodiadau'n barhaus i sicrhau y rhoddir cefnogaeth briodol i gynnal y tenantiaethau.

| |
|---|
| **Ymgynghori – ar waith ar hyn o bryd**<br>Ymgynghorwyd â'r Landlordiaid Tai Cymdeithasol sy'n bartneriaid i ni, Tai Gogledd Cymru, Grŵp Cynefin a Chlwyd Alyn ar y newid hwn. |

| **B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac / neu pam y dewiswyd yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Byddai peidio newid y Polisi yn golygu na fyddai'r rheini sydd mewn Llety Argyfwng / Dros Dro yn cael cynnig o lety sefydlog am gyfnod anhysbys.<br><br>Mae argaeledd tai yn y sector rhentu preifat yn gyfyngedig ac ni fyddai modd lletya pob aelwyd ddigartref yn y Sector hwn. |

| **C – Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae newid y Polisi Gosod Cyffredin yn fater i'r Pwyllgor Gwaith. |

| **Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi |

| DD – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Bydd yn cynnig datrysiad tymor byr er mwyn cartrefu rhai sydd yn ddigartef neu mewn risg o ddigartefedd |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut:- | Gall symud person i gartref sefydlog arbed costau ar lety argyfwng / dros dro |

| | | |
|---|---|---|
| | | i'r Cyngor |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Gyda Partneriarid Tai- Cymdeithasau Tai |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut. | Na |
| 5 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Gweler AEC |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad yn ei chael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Bydd yn cynnig datrysiad i aelwydd sydd mewn sefyllfa bregus o ran digartrefedd |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei chael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | dim |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Rheoli (UDRh) (gorfodol) | Cefnogol i'r bwriad |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Cefnogol i'r bwriad. |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Cefnogol i'r bwriad. |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Amherthnasol |
| 5 | Eiddo | Amherthnasol |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) | Amherthnasol |
| 7 | Caffael | Amherthnasol |
| 8 | Sgriwtini | |
| 9 | Aelodau Lleol | |

| F - Atodiadau: |
| --- |
| Asesiad Effaith Cydraddoldeb |

| FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth os gwelwch yn dda): |
| --- |
| |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **29ain Tachwedd 2022** |
| **Pwnc / Testun:** | **Grant Cyfleusterau i'r Anabl – Newid mewn Polisi** |
| **Aelod Portffolio:** | **Y Cynghorydd Alun Mummery** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Ned Michael, Pennaeth Gwasanaethau Tai**<br><br>**nedmichael@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Neil P Edwards** |
| **Aelodau Lleol:** | **Pawb** |

| A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau |
|---|
| A1 – Bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo dileu'r prawf modd ariannol o'r broses ymgeisio am waith bach a canolig hyd at gwerth o £10,000 ar gyfer y Grant Cyfleusterau i'r Anabl (GCA). |

**1. Cefndir**

Mae'r GCA yn grant Cyngor Gorfodol sy'n helpu i gwrdd â'r gost o addasu cartref person anabl fel y gallant barhau i fyw yno mor annibynnol â phosibl i unigolion sydd angen cymorth i gwrdd a'r gost.

Fel rhan o'r broses ceisio am y Grant mae unigolion yn cysylltu gyda Gwasanaethau Oedolion er mwyn trefnu asesiad o anghenion yr unigolion am addasiadau o'r fath gan Therapydd Galwedigaethol.

Mae'r gwaith angenrheidiol sydd yn cael ei adnabod drwy'r asesiad yn cael ei nodi mewn Cynllun Gofal Addasiadau Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer yr unigolon.

Yn ystod y broses o gynal yr asesiad bydd y Therapydd Galwedigaethol yn egluro i'r unigolion y cymorth sydd ar gael gan y Cyngor ac hefyd yn rhoi gwybodaeth iddynt am gyflenwyr a all ddarparu'r addasiadau yn breifat iddynt pe byddent yn dymuno dilyn y trywydd hyn.

Cyn y pandemig roedd y gyllideb o £750,000 yn bodloni'r galw, ac roedd y cyfan yn cael ei wario yn ystod y flwyddyn ariannol. Yn ystod y pandemig bu gostyngiad yn y galw, yn

bennaf oherwydd bod cleientiaid yn gwarchod eu hunain ac oherwydd bod llai o ymweliadau wyneb yn wyneb yn cael eu cynnal gan Therapyddion Galwedigaethol a Swyddogion Technegol.

Fodd bynnag, dros y 6 mis diwethaf mae achosion a gafodd eu gohirio yn ystod y pandemig wedi dod yn ôl i'r system. Mae nifer o'r rhain yn grantiau sylweddol. Mae hyn yn debygol o roi pwysau ar y gyllideb o £750,000.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Awdurdodau Lleol ddileu'r prawf modd ar gyfer addasiadau bach a chanolig. Er mwyn darparu cymorth ariannol, bydd cyllideb Hwyluso (Enable) pob awdurdod lleol yn cynyddu 10% i ymorol am y costau ychwanegol.

£92,400 yw'r Dyraniad Grant Hwyluso cyfredol.

**2. Diffinio Gwerth y Gwaith**

- Bach – gwaith sy'n costio hyd at £1,000.
- Canolig – gwaith sy'n costio rhwng £1,000 a £10,000.
- Bydd unrhyw addasiadau sy'n costio mwy na £10,000 yn cael eu hystyried yn addasiadau Mawr ac felly byddant yn parhau i fod yn ddarostyngedig i brawf modd.

Y math o waith sydd fel arfer yn cael eu hystyried yn fach neu ganolig?

- Addasiadau Bach – mae'r rhain fel arfer yn fesurau bach y mae'n rhaid eu cyflwyno ar frys megis canllawiau cydio. Nid yw'r math yma o waith yn ddarostyngedig i brawf modd, gan eu bod yn cael eu cyflawni drwy'r dyraniad Hwyluso gan Asiantaeth Gofal a Thrwsio, Canllaw Eryri yn yr achos hwn.
- Addasiadau Canolig – lifftiau grisiau, addasu ystafelloedd ymolchi, rampiau mynediad ac ati. Mae'r math yma o waith eisoes yn ddarostyngedig i brawf modd. Ar gyfartaledd, mae oddeutu 6 cais yn cael eu cymeradwyo bob blwyddyn lle mae'r cleient wedi cyfrannu yn dilyn prawf modd.

**3. Y rhesymau dros ddileu'r prawf modd o'r broses GCA:**

- Amser – fe all gymryd llawer o amser i gwblhau prawf modd. Efallai nad oes gan y cleient, pobl oedrannus/fregus yn aml iawn, fynediad at gyfrif banc perthnasol, manylion incwm pensiwn. Mae Llywodraeth Cymru'n cofnodi Dangosyddion Perfformiad Allweddol pob Awdurdod Lleol ar gyfer darparu'r GCAau. Mae dileu'r

prawf modd yn debygol o gyflymu’r broses ymgeisio.

- Cleientiaid yn gorfod byw heb yr addasiadau - cyn y pandemig cwblhawyd darn o waith ar brofion modd. Dros gyfnod o 3 blynedd, roedd bron hanner y cynlluniau gofal a gyfeiriwyd at y gwasanaeth Tai yn cael eu cau/canslo am nifer o wahanol resymau. O'r rhain, roedd 50% yn cael eu cau/canslo am resymau yn ymwneud â’r prawf modd. Gall hyn olygu bod nifer o bobl fregus yn byw heb yr addasiadau a argymhellwyd gan yr adran Gwasanaethau Cymdeithasol.

Ar gyfartaledd, mae’r swm y mae’r gwasanaeth Tai yn ei dderbyn drwy gyfraniadau cleientiaid yn llai na £10,000 y flwyddyn.

**4. Yr Effaith Bosibl ar y Galw**

Yn dilyn y pandemig, nid yw’n glir eto sut y bydd y galw am GCAau yn newid. Mae’r gwasanaeth Tai yn derbyn cyfeiriadau gan yr adran Gwasanaethau Cymdeithasol ar ffurf Cynlluniau Addasiadau Gofal, sy’n cael eu paratoi gan Therapydd Galwedigaethol. Mae anghenion pob cleient yn cael eu hasesu, cyn cynhyrchu Cynllun Addasiadau Gofal.

Fodd bynnag, os bydd y lefelau’n dychwelyd i’r lefelau a welwyd cyn y pandemig, fe all hyn olygu (tua) 30 o geisiadau ychwanegol y flwyddyn. Ar gyfartaledd mae gwaith GCA werth tua £6,000, ac felly fe allai arwain at gost ychwanegol o £180,000.

Pe byddem yn symud ymlaen i ddileu’r prawf modd ar gyfer yr addasiadau bach a canolig ac ein bod yn gweld cynydd yn y galw fel a nodwyd uchod mae’n debyg bydd hyn yn cael effaith negyddol ar yr amser a gymerir i wneud yr addasiadau gan ei fod yn annhebygol bydd y gyllideb ar gyfer GCA yn cynyddu.

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn? |
| --- |
| Gellid ystyried yr opsiwn o ddefnyddio’r gyllideb Hwyluso yn unig, fel grant annibynnol heb brawf modd. Ar hyn o bryd mae’r polisi Hwyluso yn caniatáu addasiadau brys i gleientiaid sy’n derbyn gofal lliniarol neu i ryddhau cleientiaid o’r ysbyty ar frys. Mae rhai Awdurdodau Lleol wedi penderfynu na fydd eu grantiau Hwyluso yn ddarostyngedig i brawf modd hyd at swm penodol.<br><br>Mae hyn yn golygu ei fod yn grant ar sail y cyntaf i’r felin. Efallai y daw adeg yn ystod y flwyddyn ariannol pan fydd y grant wedi ei ymrwymo’n llwyr ac y bydd rhaid i gleientiaid aros tan y flwyddyn ariannol ganlynol.<br><br>Pam nad ydi gwneud dim yn opsiwn? |

| |
|---|
| Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i bob Awdurdod Lleol ddarparu rhyw fath o gymorth heb brawf modd. |

| C – Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Newid mewn polisi. |

| CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydi |

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Mae £750,000 wedi'i gynnwys yng nghyllideb y Cyngor ar gyfer 2022/23 ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.<br><br>Yn ogystal â hyn, mae Grant Hwyluso o £92,400 wedi'i ddyrannu ar gyfer 2022/23. |

| DD – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Darparu trigolion yr Ynys gyda mynediad mwy eang i addasiadau. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut:- | Ydi - cadw mwy o bobl yn ddiogel ac yn annibynnol yn eu cartrefi. O bosib yn lleihau mynediadau i ysbytai a'r ddibyniaeth am ddarparwyr gofal iechyd. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Awdurdodau Lleol eraill, Gofal & Thrwsio - edrych ar ddata profion modd hanesyddol a'r galw am GCA. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut. | Na. |
| 5 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Mae'r gwaith trwy GCA yn cael eu gwneud er budd yr henoed neu bobl anabl (gan gynnwys Iechyd meddwl). |

| | | |
|---|---|---|
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad yn ei chael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Mae dileu'r angen am brawf modd ar gyfer addasiadau canolog o bosib yn caniatáu mynediad i fwy o bobl a fyddai o bosib methu a gwneud y gwaith er mwyn parhau yn ddiogel ac annibynnol yn eu Cartrefi. |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei chael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Dim effaith. Mae'r ffurflen, dogfennau a gwasanaeth ar gael yn ddwyieithog. |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Rheoli (UDRh)<br>(gorfodol) | Cefnogol i'r bwriad |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151<br>(gorfodol) | Cefnogol i'r bwriad. |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro<br>(gorfodol) | Cefnogol i'r bwriad. |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Amherthnasol |
| 5 | Eiddo | Amherthnasol |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) | Amherthnasol |
| 7 | Caffael | Amherthnasol |
| 8 | Sgriwtini | |
| 9 | Aelodau Lleol | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Adroddiad cyn cymeradwyo'r GCA |

| FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth os gwelwch yn dda): |
|---|
| |

This page is intentionally left blank